

PWYLLGOR MONITRO RHAGLENNI CYMRU

CRONFEYDD STRWYTHUROL A BUDDSODDI EWROPEAIDD 2014-2020

Dyddiad: 16 Mehefin 2017

Amser: 9.30am

Lleoliad: Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Merthyr Tudful

AGENDA

- | | | | |
|--|--|---------------|--------------|
| 1. | Croeso ac ymddiheuriadau | 09:30 - 09:35 | |
| 2. | Cofnodion cyfarfod mis Chwefror, camau gweithredu a materion eraill sy'n codi | 09:35 – 09:45 | WPMC(17)14 |
| 3. | Y diweddaraf ynghylch cynnydd y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd, a gwaith datblygu portffolio | 09:45 – 10:00 | WMPMC(17)94 |
| . | <u>Gan gynnwys:</u> | | |
| | (a) Rhaglenni ERDF | 10:00 – 10:10 | |
| | (b) Rhaglenni ESF | 10:10 – 10:20 | |
| | (c) Rhaglenni Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru | 10:20 – 10:30 | |
| 4. | Themâu Trawsbynciol: Adroddiad Blynyddol ar Gyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd | 10:30 – 10:50 | WMPMC(17)95 |
| 5. | Adroddiad Cydymffurfiaeth Rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi (gan gynnwys cyfraddau amryfusedd) | 10:50 – 11:00 | WMPMC(17)96 |
| <i>**Egwyl 11:10 – 11:15 **</i> | | | |
| 6. | Adroddiadau Gweithredu Blynyddol 2016 (aelodau i gymeradwyo) | 11:20 – 11:50 | |
| 7. | Addasiadau Cynllunio i'r Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol | 11:50 – 12:05 | WMPMC(17)97 |
| 8. | Meini prawf ar gyfer y Rhaglen Datblygu Gwledig | 12:05 – 12:15 | WMPMC(17)98 |
| 9. | Cynllun Cyfathrebu Blynyddol y Cronfeydd Strwythurol | 12:15 – 12:35 | WMPMC(17)100 |

- | | |
|--|---------------|
| 10. Cyflwyniad - Rhanbarth y Canolbarth | 12:35 – 13:00 |
| 11. Y diweddaraf ynghylch dyfodol Polisi Rhanbarthol | 13:00 – 13:15 |
| 12. Unrhyw fater arall | 13:15 – 13:20 |

*****Cinio 13:20 - 13:40****

**PWYLLGOR MONITRO RHAGLENNI CYMRU, CRONFEYDD
STRWYTHUROL A BUDDSODDI EWROPEAIDD 2014 – 2020
ADRODDIAD MONITRO'R RHAGLENNI**

Trosolwg

Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithredu Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd: Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Rhaglenni ESF a Rhaglenni ERDF ac ESF Dwyrain Cymru. Ceir adroddiadau ar gronfeydd penodol yn Atodiadau 1 i 3. Mae'r holl ddata'n gyfredol ar 30/04/2017. Y cyfraddau cynllunio a ddefnyddir yn yr adroddiad yw £1:€1.17 ar gyfer Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol a £1:€1.18 ar gyfer Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020. Mae cyfeiriadau at gyfarfod blaenorol Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni drwy'r ddogfen gyfan yn cyfeirio at y cyfarfod ym mis Chwefror 2017.

Y sefyllfa gyffredinol

- Mae 151 o weithrediadau gwerth £2,527m (gan gynnwys arian yr UE gwerth £1,339m), yn cael eu cefnogi ar hyn o bryd gan y Cronfeydd Strwythurol a byddant yn cynorthwyo dros 40,800 o fusnesau ac yn rhoi cymorth hyffordiant/cyflogaeth i fwy na 402,100 o bobl.
- Mae Cynllun Datblygu Gwledig 2014-2020 yn cefnogi cyfanswm o 6,877 o gontractau amaeth-amgylcheddol ar hyn o bryd, sy'n cwmpasu 676,469 hectar ynghyd â 593 o gontractau organig newydd sy'n cwmpasu 72,562 hectar. Crëwyd 436ha o goetir newydd trwy Glastir – Creu Coetir

Cynnydd ariannol

Neilltuo cyllid


- O dan Raglenni ERDF, mae cyfanswm o £1,366m wedi cael ei neilltuo ar hyn o bryd (72% o gyfanswm y dyraniad), y mae £711m ohono yn arian yr UE (59% o ddyraniad yr UE).
- O dan Raglenni ESF, mae cyfanswm o £1,161m wedi cael ei neilltuo ar hyn o bryd (91% o gyfanswm y dyraniad), y mae £628m ohono yn arian yr UE (73% o ddyraniad yr UE).
- O dan Gynllun Datblygu Gwledig 2014-2020, mae cyfanswm o £787m (82% o werth y rhaglen) wedi ei neilltuo, y mae £521m ohono yn arian yr UE.

Gwariant

- Mae tua £157m o gyfanswm y gwariant wedi'i gofnodi o dan Raglenni ERDF, y mae £73m ohono yn arian yr UE.
- Mae tua £137m o gyfanswm y gwariant wedi'i gofnodi o dan Raglenni ESF, y mae £89m ohono yn arian yr UE.


- Mae gwariant o gwmpas £84m wedi'i gofnodi yng Nghynllun Datblygu Gwledig 2014-2020, y mae £61m ohono yn arian yr UE.

Siart 1: Cyfanswm Gwariant Rhaglenni a Neilltuwyd / a Wariwyd



Ar gyfer Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 mae Cyfanswm Gwariant y Rhaglen yn cynnwys Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig ynghyd â chyllid domestig Llywodraeth Cymru. Ar gyfer y Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol mae'n cynnwys ERDF neu ESF ynghyd ag arian cyfatebol.

Siart 2: Cronfeydd yr UE a Neilltuwyd / a Wariwyd (ERDF / ESF / EAFRD)



Data ar Allbynnau

Dangosydd	Targed	Rhagolwg Prosiect	Cyflawnwyd hyd yn hyn
ERDF			
Mentrau a gefnogir <i>o rhain</i>	45,512	40,895	5,098
Mentrau a grëwyd	7,400	10,035	1,620
Cynydd cyflogaeth yn y mentrau a gefnogir	26,980	31,841	2,301
Maint o gyllid ymchwil a sicrhawyd	£230m	£134m	£32m
Cynnydd yn lefel allforio	£233m	£215m	£10m
Capasiti ychwanegol o gynhyrchu ynni adnewyddadwy	28	1	-
Nifer y cartrefi â dosbarthiad defnydd o ynni gwell	9,700	3,825	-
Gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus a grëwyd neu sydd wedi gwella	2,920,000 vehicle km	-	-
ESF			
Pobl a gynorthwyir <i>o rhain</i>	434,100	402,113	85,210
Pobl ifanc a gynorthwyir	150,000	103,715	20,578
Pobl a gefnogir i gael gwaith	40,642	49,982	3,364
Pobl sy'n ennill cymwysterau	194,633	226,881	35,012
EAFRD			
Ardal ffisegol a gefnogir	688,000	528,010	676,469
Pobl dan hyfforddiant	13,000	13,500	-
Taliadau amaethyddol a gefnogir	3,773	542	553

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 30/04/2017

Atodiadau

Atodiad 1: Diweddariad ERDF

Atodiad 2: Diweddariad ESF

Atodiad 3: Diweddariad WGRC-RDP 2014-2020

Atodiad 4: Cronfeydd Strwythurol: Rhestr gweithrediadau a gymeradwywyd

Atodiad 1: Diweddariad ERDF

Adran 1: Rhaglenni ERDF: Neilltuo cyllid

Mae'r adran hon yn nodi'n fanwl y cynnydd ariannol presennol o dan Raglenni ERDF, gan gynnwys trosolwg o'r Rhaglenni a gwybodaeth ar lefel Blaenoriaeth.

Dengys Tabl 1 nifer Grantiau'r UE a'r symiau a neilltuwyd ar gyfer Gweithrediadau cymeradwy o dan Raglenni ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru, ynghyd â Grantiau'r UE y gellid eu neilltuo o bosibl os bwriedir bwrw ymlaen â Gweithrediadau ar y cam Cynllunio Busnes a'r cam Cyn Cynllunio.

Tabl 1: Neilltuo Grant yr UE yn ôl Rhaglen a Blaenoriaeth: Gweithrediadau Cymeradwy

£ Miliynau							
Rhaglen / Blaenoriaeth	Nifer y Gweithrediadau a gymeradwywyd	Dyraniad		Wedi'i neilltuo		Cyfran o'r dyraniad	
		Cyfanswm ¹	Grant yr UE ¹	Cyfanswm	Grant yr UE	Cyfanswm	Grant yr UE
ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd							
1	18	387	256	349	204	90%	80%
2	7	285	178	276	146	97%	82%
3	5	210	146	62	37	30%	25%
4	13	653	428	417	197	64%	46%
5	7	28	21	27	19	100%	92%
Cyfanswm	50	1,562	1,029	1,132	604	72%	59%
ERDF Dwyrain Cymru							
1	8	152	76	138	60	91%	79%
2	7	68	34	63	32	93%	93%
3	1	38	19	7	4	19%	19%
4	2	82	41	19	9	23%	23%
5	6	7	3	7	3	102%	82%
Cyfanswm	24	348	174	234	107	67%	62%
Cyfanswm ERDF	74	1,909	1,202	1,366	711	72%	59%

Ffynhonnell: SCEC, 30/04/2017

¹ Yn seiliedig ar gyfradd drosi o £1:€1.17

Diweddariad Cyffredinol o'r Rhaglenni

Mae'r ddwy Raglen ERDF yn parhau i wneud cynnydd da gyda 74 o weithrediadau wedi'u cymeradwyo gan neilltuo grant o £711 miliwn, sef 59% o werth y rhaglenni. Am fod y gyfradd drosi wedi newid i 1.17, mae'r lefel neilltuo ar gyfer Rhaglen ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd wedi gostwng ychydig. Fodd bynnag, bwriedir cyflwyno nifer o gymeradwyaethau newydd ac, fel y cyfryw, bydd y lefelau neilltuo yn ôl ar y trywydd cywir cyn bo hir. Bydd aelodau Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y cymeradwyaethau newydd ar 16 Mehefin.

Adran 2: Cynnydd yn ôl Echel Blaenoriaeth
Blaenoriaeth 1: Ymchwil ac Arloesedd
Tabl 2: Neilltuo Grant yr UE yn ôl Amcan Penodol

Amcan Penodol	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd				Dwyrain Cymru			
	Gweithrediadau	Dyraniad Mynegol	Cymeradwywyd ERDF		Gweithrediadau	Dyraniad Mynegol	Cymeradwywyd ERDF	
AP1.1: Adnoddau Ymchwil	8	£102.3m	£96.3m	94%	4	£28.7m	£21.9m	76%
AP1.2: Masnacheiddio	10	£153.5m	£107.9m	70%	4	£47.4m	£38.3m	81%
Cyfanswm Blaenoriaeth 1	18	£255.8m	£204.2m	80%	8	£76.2m	£60.2m	79%

Ffynhonnell: SCEC, 30/04/2017

Cymeradwyaethau ers cyfarfod diwethaf Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni (PMRh)

Dim cymeradwyaethau ers cyfarfod blaenorol PMRh.

Gan fod gweithrediadau strategol a/neu brif weithrediadau ar waith a'r lefel neilltuo yn uchel, mae'r Flaenoriaeth hon wedi canolbwyntio ar yr alwad am gynigion arloesol a all drosi ymchwil ac arloesedd yn llwyddiannus yn gynhyrchion, prosesau a gwasanaethau masnachol newydd a gwell (Amcan Penodol 1.2). Roedd yr alwad yn llwyddiannus iawn, a chyflwynwyd 46 o gynigion (32 ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a 14 ar gyfer Dwyrain Cymru). Ar ôl asesu'r cynigion, gwahoddwyd 17 o gynigion (11 yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a 6 yn Dwyrain Cymru) i'r cam cynllunio busnes ffurfiol, a gallai'r cynigion hynny fynd i'r afael â nifer o feysydd arbenigo craff. Daeth y rhan fwyaf o'r cynigion llwyddiannus o'r sector addysg uwch ond ymddengys fod sawl cynnig yn cynnwys tystiolaeth gref o bwyslais diwydiannol, gan gynnwys partneriaid yn y sector preifat. Mae'n dal yn gynnar yn y broses asesu, ond gallai'r cynigion arwain at neilltuo mwy na £50m rhwng y ddwy raglen a gwneud cyfraniad pwysig at gyflawni targedau allweddol. Disgwylir i gymeradwyaethau ddechrau yn gynnar yn yr hydref.

Disgwylir i'r Flaenoriaeth Ymchwil ac Arloesedd neilltuo'r holl gyllid sydd ar gael yn llawn ac mae WEFO yn ymwybodol o'r galw am ragor o gyllid, yn enwedig ym maes meithrin gallu. Mae WEFO yn parhau i adolygu'r gweithrediadau sydd eisoes ar waith er mwyn sicrhau bod unrhyw gyllid a ddadneilltuir yn cael ei nodi'n gynnar fel bod modd ailgylchu'r cyllid. Bydd WEFO yn ystyried cyllid a thargedau fel rhan o'r adolygiadau addasu rhaglenni arfaethedig.

Tabl 3: Cynnydd yn erbyn dangosyddion

Amcan Penodol	Allbynnau	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd			Dwyrain Cymru		
		Targed	Rhagolwg Prosiect	Cyflawnwyd hyd yma	Targed	Rhagolwg Prosiect	Cyflawnwyd hyd yma
	Swm y cyllid ymchwil a sicrhawyd	£165m	£98m	£11m	£65m	£35m	£21m
AP1.1 Gwella llwyddiant sefydliadau ymchwil yng Nghymru yn denu cyllid ymchwil cystadleuol a phreifat	Nifer y mentrau sy'n cydweithio â sefydliadau ymchwil a gynorthwyr	160	272	13	90	69	1
	Nifer y gwell cyfleusterau seilwaith ymchwil	6	7	-	2	2	1
	Nifer yr ymchwilwyr newydd mewn endidau a gynorthwyr	470	363	13	290	99	26
	Nifer yr ymchwilwyr yn gweithio mewn gwell cyfleusterau seilwaith ymchwil	200	365	-	110	66	38
AP1.2 Cynyddu cyfraddau troi llwyddiannus prosesau ymchwil ac arloesedd yn gynhyrchion, prosesau a gwasanaethau masnachol newydd a gwell, yn arbennig drwy well proses trosglwyddo technoleg o SAUau	Nifer y mentrau a gynorthwyr i gyflwyno cynnyrch sy'n newydd i'r farchnad	490	134	1	300	73	-
	Nifer y mentrau a gynorthwyr i gyflwyno cynnyrch sy'n newydd i'r cwmni	725	317	2	440	113	-
	Nifer y mentrau sy'n cydweithio â sefydliadau ymchwil a gynorthwyr	1,212	295	9	715	98	-
	Nifer y mentrau sy'n cael grantiau	520	330	-	320	300	-
	Nifer y mentrau sy'n cael cymorth anariannol	3,750	806	61	2,245	304	24
	Nifer y mentrau newydd a gynorthwyr	30	29	-	20	6	-
	Buddsoddiad preifat sy'n cyfateb i gymorth cyhoeddus mewn prosiectau arloesedd neu ymchwil a datblygu	€42.8m	€33.4m	€0.0m	€26.2m	€19.1m	€0.0m
	Cynnydd cyflogaeth mewn mentrau a gynorthwyr	1,125	346	-	670	120	-
	Nifer y patentau sydd wedi eu cofrestru ar gyfer cynnyrch	519	155	-	315	56	-
	Nifer y prosiectau peilot a gwblhawyd	n/a	48	-	n/a	-	-
	Mentrau sy'n mabwysiadu:						
	- neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro	956	1	-	515	-	-
	- neu'n gwella strategaethau datblygu cynaliadwy a systemau monitro	956	1	-	515	-	-

Ffynhonnell: SCEC, 30/04/2017

Ceir rhai amrywiannau yn y Blaenoriaethau Ymchwil ac Arloesedd o gymharu â'r hyn y gellid ei ddisgwyl o ystyried y cyllid a neilltuwyd ond mae'n rhaid cydnabod y bydd AP1.1, o ystyried ei ffocws ar feithrin gallu, gan gynnwys seilwaith cysylltiedig, yn cymryd amser i sicrhau canlyniadau. Mae'r newid o ran targedu ar gyfer y Flaenoriaeth hon – o gymharu â rhaglenni blaenorol (a ddefnyddiwyd fel sail i bennu targedau rhaglenni) – yn effeithio'n benodol ar yr amcan ynglŷn â masnacheiddio (AP1.2).

Mae rhaglenni 2014-2020 yn ceisio targedu mwy o gwmnïau sy'n cynnwys 10 cyflogai neu fwy, a rhoi mwy o bwyslais ar y microfusnesau hynny sydd â photensial gwirioneddol i dyfu i'r maint hwnnw o leiaf. Gallai'r dull gweithredu hwn gael mwy o effaith economaidd, ond bydd yn golygu llai o ffocws ar nifer y busnesau a gefnogir. Mae'r dangosyddion hefyd yn adlewyrchu pwyslais ar fwy o deilwra i roi cymorth dwysach, gan ystyried systemau arloesi yn eu cyfanrwydd yn y busnesau/clystyrau gwahanol (gan gyfrif pob menter lle y caiff cynhyrchion newydd eu cyflwyno, er enghraifft) yn hytrach na nifer y datblygiadau arloesol (a all arwain at lai o bwyslais ar yr effaith ar drosiant/defnyddioldeb).

Gallai'r cynigion llwyddiannus a gafwyd yn sgil yr alwad ddiweddar gynyddu'r cyfraniad at gyflawni'r targedau allweddol fel 'mentrau'n cydweithredu', 'cynhyrchion newydd i'r farchnad/cwmni' a 'chynnydd mewn cyflogaeth', ond mae'n dal yn gynnwys yn y broses asesu i allu dweud hynny i sicrwydd.

Blaenoriaeth 2: Cystadleurwydd BBaChau

Tabl 4: Neilltuo Grant yr UE yn ôl Amcan Penodol

Amcan Penodol	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd				Dwyrain Cymru			
	Gweithrediadau	Dyranïad Mynegol	Cymeradwywyd ERDF		Gweithrediadau	Dyranïad Mynegol	Cymeradwywyd ERDF	
AP2.1: Mynediad i Gyllid	1	£58.6m	£74.8m	128%	1	£9.2m	£9.9m	107%
AP2.2: Busnesau newydd	1	£14.7m	£18.6m	127%	1	£3.5m	£6.2m	176%
AP2.3: Defnyddio TGCh a manteisio arni	1	£9.3m	£5.2m	56%	1	£1.4m	£1.7m	122%
AP2.4: Twf Cyflogaeth	3	£78.3m	£27.0m	35%	3	£17.2m	£8.3m	48%
AP2.5: Cyllid Cyfalaf Risg	1	£17.0m	£20.7m	122%	1	£2.8m	£5.5m	197%
Cyfanswm Blaenoriaeth 2	7	£177.8m	£146.4m	82%	7	£34.1m	£31.6m	93%

Flynhonnell: SCEC, 30/04/2017

Cymeradwyaethau ers cyfarfod diwethaf Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni (PMRh)

Dim cymeradwyaethau ers cyfarfod blaenorol PMRh.

Mae'r flaenoriaeth yn sefydlog, gyda'r lefelau neilltuo yn uchel ar gyfer y ddwy raglen a phortffolio integredig wedi'i ddatblygu yn seiliedig ar y gweithrediadau sy'n rhan o 'Deulu Busnes Cymru' sy'n cwmpasu Llywodraeth Cymru, Canolfan Cydweithredol Cymru, Cyllid Cymru a CGGC. Nid yw'n ymddangos bod unrhyw fwch penodol yn y ddarpariaeth, a phrin yw'r diddordeb mewn syniadau cymorth busnes arbenigol a gyflwynir. Ceir potensial i fuddsoddi rhagor o arian yng Nghronfa Fusnes Cymru er mwyn amsugno rhywfaint o'r cyllid nad yw wedi'i neilltuo, a bydd hyn yn cael ei ystyried ymhellach dros y misoedd nesaf.

Mae Cronfa Fusnes Cymru yn parhau i wneud cynnydd da ers ei lansio ym mis Medi 2016. Erbyn diwedd mis Mawrth 2017 roedd wedi buddsoddi £17.9m o arian ERDF mewn 40 o BBaChau gan ategu cyfanswm buddsoddiad o £56m yn y sector preifat a arweiniodd at gyfanswm buddsoddiad o bron i £74m, sy'n fwy na'r proffil. Nid yw Cynnydd mewn Cyflogaeth yn cael ei fesur tan 12 mis ar ôl i'r buddsoddiad gael ei wneud, felly bydd y rhain yn llifo drwodd yn nes ymlaen.

O ystyried bod y flaenoriaeth yn sefydlog yn y ddwy raglen, bydd y sylw ar gyflawni ac mae WEFO yn parhau i fonitro'r cynnydd yn agos, gan roi sylw penodol i gyflawni a chyflwyno adroddiadau ar ddangosyddion, a bydd hyn yn cyfrannu at adolygiad canol tymor o weithrediadau a ariannwyd o AP2.2, AP2.3 ac AP2.4.

Cynhaliodd WEFO symposiwm Teulu Busnes Cymru ar gyfer arweinwyr gweithrediadau, asiantiaid cyflawni, CLILC a'r Timau ymgysylltu Rhanbarthol ym mis Medi 2016, ac mae ail ddigwyddiad yn cael ei gynllunio ar gyfer haf 2017.

Tabl 5: Cynnydd yn erbyn dangosyddion

Amcan Penodol	Allbynnau	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd			Dwyrain Cymru		
		Targed	Rhagolwg Prosiect	Cyflawnwyd hyd yma	Targed	Rhagolwg Prosiect	Cyflawnwyd hyd yma
AP2.1 Cynyddu faint o gyllid sydd ar gael i BBaChau, yn fusnesau newydd ac yn fusnesau sy'n ehangu	Buddsoddi mewn mentrau	£91.6m	£149.6m	£15.9m	£25.9m	£22.3m	£47.0m
	Nifer y mentrau sy'n cael grantiau	160	-	-	45	-	-
	Nifer y mentrau sy'n cael cymorth ariannol ac eithrio grantiau	235	228	16	65	31	11
	Buddsoddiad preifat sy'n cyfateb cymorth cyhoeddus i fusnesau bach a chanolig - Nad ydynt yn grantiau	€132.0m	€101.0m	€9.9m	€37.3m	€16.8m	€46.6m
	Cynnydd cyflogaeth mewn mentrau a gynorthwyr	2,300	1,954	-	650	265	-
	Mentrau sy'n mabwysiadu:						
	- neu'n gwella strategaethau datblygu cynaliadwy a systemau monitro	190	167	-	60	-	-
	- neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro	190	194	-	25	-	-
AP2.2 Cynyddu nifer y BBaCh newydd drwy ddarparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad a chymorth ym maes entrepreneuriaeth	Nifer y mentrau newydd a gynorthwyr	5,150	6,000	925	2,200	4,000	695
	Nifer y mentrau sy'n cael cymorth anariannol	275	-	-	120	-	-
	Unigolion sy'n cael cymorth	14,350	6,000	854	6,200	4,000	466
	Unigolion sy'n cael cymorth - Benywaidd	7,300	-	360	3,100	-	190
	Unigolion sy'n cael cymorth - Pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig	375	-	39	445	-	16
	Unigolion sy'n cael cymorth - Pobl anabl	3,650	-	6	1,350	-	3
	Cynnydd cyflogaeth mewn mentrau a gynorthwyr	8,800	10,250	734	3,800	6,750	230
	Mentrau sy'n mabwysiadu:						
	- neu'n gwella strategaethau datblygu cynaliadwy a systemau monitro	2,710	1,500	-	465	1,000	-
	- neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro	2,710	1,500	-	1,165	1,000	1

¹ Ffigurau dros dro yw'r ffigurau cyflawnwyd hyd yma o dan SO2.2 ac SO2.4 ac maent yn dal i gael eu dilysu

Amcan Penodol	Allbynnau	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd			Dwyrain Cymru		
		Targed	Rhagolwg Prosiect	Cyflawnwyd hyd yma	Targed	Rhagolwg Prosiect	Cyflawnwyd hyd yma
AP2.3 Cynyddu'r defnydd o rwydweithiau NGA a seilwaith TGCh gan BBaChau	Nifer y mentrau a gynorthwyir i gyflwyno cynnyrch sy'n newydd i'r cwmni	1,480	1,480	-	400	400	-
	Nifer y mentrau sy'n cael cymorth anariannol	3,450	3,823	170	900	1,094	230
AP2.4 Cynyddu twf y BBaChau hynny â photensial i dyfu, yn enwedig drwy gael mynediad i farchnadoedd newydd (domestig a rhyngwladol)	Cynydd cyflogaeth mewn mentrau a gynorthwyir	6,450	7,215	1,075	2,550	4,606	262
	Nifer y mentrau sy'n cael grantiau	40	30	-	10	15	-
	Nifer y mentrau sy'n cael cymorth ariannol ac eithrio grantiau	330	-	-	115	-	-
	Nifer y mentrau sy'n cael cymorth anariannol	13,650	12,400	1,701	5,400	8,170	1,226
	Buddsoddiad preifat sy'n cyfateb i gymorth cyhoeddus i fusnesau bach a chanolig - Grantiau	€4.3m	0	-	€2.2m	0	-
	Buddsoddiad preifat sy'n cyfateb i gymorth cyhoeddus i fusnesau bach a chanolig - Nad ydynt yn grantiau	€6.6m	-	-	€3.4m	-	-
	Cynydd mewn lefelau allforio	£167.1m	£130.0m	£8.4m	£65.9m	£85.0m	£1.7m
	Mentrau sy'n mabwysiadu:						
	- neu'n gwella strategaethau datblygu cynaliadwy a systemau monitro	8,700	5,000	19	1,300	3,300	4
	- neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro	8,700	5,000	25	3,200	3,300	5
	Buddsoddi mewn mentrau	£26.5m	£41.4m	£2.4m	£7.2m	£12.7m	£8.9m
AP2.5 Mynd i'r afael â methiannau'r farchnad o ran argaeledd cyllid, yn enwedig cyfalaf risg, fel y gall BBaChau Cymreig gyflawni arloesedd a masnacheiddio ymchwil a datblygu	Nifer y mentrau sy'n cael cymorth ariannol ac eithrio grantiau	90	49	4	25	-	9
	Buddsoddiad preifat sy'n cyfateb i gymorth cyhoeddus i fusnesau bach a chanolig - Nad ydynt yn grantiau	€23.8m	€27.9m	€1.8m	€14.1m	€9.7m	€7.6m
	Cynydd cyflogaeth mewn mentrau a gynorthwyir	490	265	-	145	70	-
	Nifer y mentrau a gynorthwyir i gyflwyno cynnyrch sy'n newydd i'r cwmni	20	24	-	5	6	-
	Mentrau sy'n mabwysiadu:						
	- neu'n gwella strategaethau datblygu cynaliadwy a systemau monitro	45	15	-	5	-	-
	- neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro	45	18	-	13	-	-

Ffynhonnell: SCEC, 30/04/2017

¹ Ffigurau dros dro yw rhai o'r ffigurau Cyflawnwyd hyd yma ac maent yn dal i gael eu dilysu

Mae'r cynnydd yn erbyn dangosyddion yn parhau, a dyma fydd ffocws y symposiwm nesaf y bwriedir ei gynnal yn ystod yr haf. Bydd yr adolygiad canol tymor o weithrediadau a ariannwyd o dan AP2.2, AP2.3 ac AP2.4 hefyd yn rhoi darlun cliriach i ni mewn perthynas â chyflawni a ph'un a oes angen i weithrediadau ystyried eu modelau cyflawni er mwyn sicrhau bod targedau'n cael eu cyrraedd.

Blaenoriaeth 3: Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Ynni

Tabl 6: Neilltuo Grant yr UE yn ôl Amcan Penodol

Amcan Penodol	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd				Dwyrain Cymru			
	Gweithrediadau	Dyraniad Mynegol	Cymeradwywyd ERDF		Gweithrediadau	Dyraniad Mynegol	Cymeradwywyd ERDF	
AP3.1: Ynni'r Môr	4	£85.8m	£17.2m	20%	n/a	n/a	n/a	n/a
AP3.2: Ynni Cymunedol (AP3.1 Dwyrain Cymru)	0	£20.0m	£0.0m	0%	0	£3.8m	£0.0m	0%
AP3.3: Arbed Ynni (AP3.2 Dwyrain Cymru)	1	£40.2m	£19.7m	49%	1	£15.3m	£3.6m	23%
Cyfanswm Blaenoriaeth 3	5	£146.0m	£37.0m	25%	1	£19.1m	£3.6m	19%

Ffynhonnell: SCEC, 30/04/2017

Cymeradwyaethau ers cyfarfod diwethaf Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni (PMRh)

Dim cymeradwyaethau ers cyfarfod blaenorol PMRh.

Mae'r Flaenoriaeth hon yn faes arloesol yn y rhaglenni ac er bod cynnydd yn fwy heriol na'r disgwyl, mae cynnydd yn cael ei wneud; yn enwedig o ran gweithio gyda datblygwyr sy'n awyddus i ddefnyddio'r dyfroedd o amgylch Cymru ar gyfer eu dyfeisiau ynni'r tonnau ac ynni'r llanw. Mae sgysiau cyn cynllunio â datblygwyr yn mynd rhagddynt yn gyflym ac mae nifer iach o weithrediadau posibl yn yr arfaeth ym maes ynni'r môr. Er bod natur dechnegol y gweithrediadau morol hyn yn cymryd amser i'w datrys, mae'r galw posibl am gyllid yn galonogol o hyd.

Mae llai o gyfle ar gyfer gweithgarwch yn rhaglen Dwyrain Cymru gan nad yw cynhyrchu ynni'r môr yn weithgarwch cymwys. Fel y cyfryw, mae rhaglen Dwyrain Cymru yn dibynnu ar weithrediadau a fydd yn cefnogi cynlluniau ynni adnewyddadwy cymunedol ar raddfa fach a gwella effeithlonrwydd ynni stoc tai Cymru sy'n bodoli eisoes, yn enwedig mewn ardaloedd o dlodi tanwydd difrifol.

Mae gweithdai wedi cael eu cynnal ledled Cymru i godi ymwybyddiaeth o'r cyllid sydd ar gael gan yr UE ar gyfer cynlluniau ynni adnewyddadwy cymunedol ar raddfa fach, gan arwain at ddim ond dau gynnig ynni cymunedol yn ceisio cymorth. Fel y cyfryw, er mwyn canfod faint o alw sydd am y cyllid sydd ar gael ar gyfer y gweithgarwch hwn, lansiwyd Galwad Ynni Cymunedol ar 10 Ebrill 2017 a threfnwyd tair sesiwn galw heibio yng Ngogledd, Canolbarth a De Cymru yn ystod mis Mai a mis Mehefin. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 30 Mehefin 2017. Mae llawer o ddarpar ymgeiswyr am gyllid gan raglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd wedi gwneud ymholiadau/cymryd rhan yn y sesiynau galw heibio ond, hyd yma, prin yw'r diddordeb gan ddarpar ymgeiswyr o Ddwyrain Cymru. Pan fydd yr alwad wedi dod i ben, byddwn yn edrych ar lefel y diddordeb yn y ddwy raglen ac yn penderfynu p'un a oes angen gwneud newidiadau a'u cynnwys mewn addasiad i'r rhaglenni. Gallai'r ailwerthusiad diweddar o gyfrifiadau ardrethi busnes gael effaith andwyol ar nifer yr ymgeiswyr o grwpiau Ynni Cymunedol. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r sefyllfa ac yn ystyried yr achos dros gymorth penodol.

Mae gweithrediad strategol Effeithlonrwydd Ynni Cymru gyfan Arbed 3 wedi'i gymeradwyo ac mae'r gwaith o gaffael Rheolwyr y Cynllun ar waith gyda'r bwriad o hysbysebu Gwahoddiad i Dendro ym mis Mehefin 2017 a chadarnhau'r penodiad erbyn mis Medi 2017. Mae'r gweithrediad hwn yn llai nag a ragwelwyd pan

drafodwyd y rhaglenni ac, fel y cyfryw, bydd angen ailystyried targedau'r rhaglenni yn sgil y ffocws a chanolbwyntio ar yr hyn y gofynnir i Arbed 3 ei gyflawni.

Tabl 7: Cynnydd yn erbyn dangosyddion

Amcan Penodol	Allbynnau	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd			Dwyrain Cymru		
		Targed	Rhagolwg Prosiect	Cyflawnwyd hyd yma	Targed	Rhagolwg Prosiect	Cyflawnwyd hyd yma
AP3.1 Cynyddu nifer y dyfeisiau ynni tonnau a llanw a brofir yn nyfroedd Cymru ac oddi ar yr arfordir, gan gynnwys araeau aml-ddyfais, a thrwy hynny sefydlu Cymru fel canolfan cynhyrchu ynni morol	Gallu ac adnoddau ychwanegol cynhyrchu ynni adnewyddadwy	20	1	-	n/a	n/a	n/a
	Cynlluniau paratoi safle cynorthwyo ynni	2	2	-	n/a	n/a	n/a
	Nifer y prototeipiau ynni adnewyddadwy a brofwyd	8	3	-	n/a	n/a	n/a
	Cynlluniau ynni cymunedol	37	-	-	3	-	-
	Nifer y mentrau sy'n cael cymorth anariannol	150	-	-	70	-	-
	Nifer y mentrau a gynorthwyir i gyflwyno cynnyrch sy'n newydd i'r cwmni	75	-	-	35	-	-
AP3.2 Cynyddu nifer y cynlluniau ynni adnewyddadwy bach a sefydlir	Nifer y prosiectau peilot a gwblhawyd	4	-	-	3	-	-
(AP3.1 Dwyrain Cymru)	Gallu ac adnoddau ychwanegol cynhyrchu ynni adnewyddadwy	n/a	n/a	n/a	8	-	-
	Cynlluniau paratoi safle cynorthwyo ynni	n/a	n/a	n/a	1	-	-
	Nifer y prototeipiau ynni adnewyddadwy a brofwyd	n/a	n/a	n/a	3	-	-
AP3.3 Cynyddu effeithlonrwydd ynni stoc dai bresennol Cymru, yn enwedig mewn ardaloedd tlogi tanwydd	Nifer yr aelwydydd â dosbarthiad gwell o ran y defnydd o ynni	5,500	3,060	-	4,200	765	-
	Amcangyfrif o'r gostyngiad mewn nwyon tŷ gwydr	10	-	-	5	-	-

(AP3.2 Dwyrain Cymru)
Ffynhonnell: SCEC, 30/04/2017

Ar hyn o bryd, mae'n rhy fuan i ddod i unrhyw gasgliadau pendant ynglŷn â chyflawni'r dangosyddion ond mae'r arwyddion cyffredinol yn edrych yn gadarnhaol.

Blaenoriaeth 4: Cysylltedd a Datblygu Trefol

Tabl 8: Neilltuo Grant yr UE yn ôl Amcan Penodol

Amcan Penodol	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd					Dwyrain Cymru			
	Gweithrediadau	Dyraniad Mynegol	Cymeradwywyd ERDF			Gweithrediadau	Dyraniad Mynegol	Cymeradwywyd ERDF	
AP4.1: Ffyrdd	3	£90.9m	£64.2m	71%		n/a	n/a	n/a	n/a
AP4.2: Trafnidiaeth Gyhoeddus (AP4.1 Dwyrain Cymru)	2	£147.1m	£19.0m	13%		0	£30.9m	£0.0m	0%
AP4.3: TGCh (AP4.2 Dwyrain Cymru)	2	£47.6m	£19.9m	42%		2	£10.1m	£9.3m	92%
AP4.4: Safleoedd Strategol	6	£142.8m	£94.3m	66%		n/a	n/a	n/a	n/a
Cyfanswm Blaenoriaeth 4	13	£428.5m	£197.3m	46%		2	£40.9m	£9.3m	23%

Ffynhonnell: SCEC, 30/04/2017

Cymeradwyaethau ers cyfarfod diwethaf Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni (PMRh)

Dim cymeradwyaethau ers cyfarfod blaenorol PMRh.

Mae rhaglenni Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru yn cydnabod bod buddsoddiad er mwyn gwella cysylltedd yn echel ragofynnol hanfodol. Fel y cyfryw, er mwyn sicrhau bod yr egwyddor hon yn cael ei chyflawni, mae'r broses arfarnu yn ceisio pennu pa gyfleoedd cysylltedd ehangach y bydd gweithrediadau'n cyd-fynd â nhw er mwyn osgoi datblygiadau seilo.

Mae'n rhaid i weithgareddau penodol o dan Flaenoriaeth Cysylltedd ar gyfer rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd gael eu blaenoriaethu'n rhanbarthol. Ymhlith y gweithrediadau o'r fath mae gweithrediad Cyrchfan Denu Twristiaeth, Adeiladu ar gyfer y Dyfodol a 'llenwyr bylchau' lleol sy'n gysylltiedig â'r prif weithrediad ar gyfer Safleoedd. Mae saith 'llenwr bylchau' awdurdod lleol a flaenoriaethwyd yn rhanbarthol ar gam cynllunio busnes WEFO a disgwylir cymeradwyaethau cyn bo hir. Mae WEFO hefyd wedi cynnal trafodaethau pellach gyda Thimau Ymgysylltu Rhanbarthol yr awdurdodau lleol ynglŷn â blaenoriaethu rhagor o lenwyr bylchau er mwyn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael.

Mae trafodaethau'n parhau gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â graddfa'r cynnig band eang nesaf, a fydd yn ceisio mynd i'r afael â'r diffyg o 4% yn y ddarpariaeth o wasanaethau band eang Mynediad Cenhedlaeth Nesaf i bob safle yng Nghymru nad yw'r gweithrediadau presennol yn gallu darparu ar eu cyfer. Caiff natur a graddfa hyn (drwy ystod o opsiynau technolegol o bosibl) eu diffinio yn dilyn canlyniad Adolygiad o'r Farchnad Agored y cyhoeddir adroddiad arno ym mis Mehefin. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn cael ei gwahodd i gyflwyno cynnig cymedrol sy'n cwmpasu Dwyrain Cymru.

Mae Adran Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn parhau i wneud cynnydd cyson o ran gwerthuso opsiynau Cam 2 y Metro a fydd yn ceisio cymorth o dan ERDF. Bydd Cam 2 y Metro yn brosiect mawr, fel y'i diffinnir yn Rheoliadau Cronfeydd Strwythurol yr UE, a bydd angen iddo gael ei gymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd. Mae deialog adeiladol ag arbenigwyr JASPERS (*Joint Assistance to Support Projects in European Regions*) yn parhau a disgwylir i'r cyfarfod nesaf â JASPERS gael ei gynnal ym mis Mehefin.

Mae Trafnidiaeth Cymru wedi cynnal cyfres o gyfarfodydd â'r awdurdodau lleol a chyrff statudol perthnasol (CADW a CNC) y bydd y cynigion Metro ERDF yn effeithio arnynt ac mae yn y broses o ymgynghori'n ffurfiol â nhw ynghylch yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol. Maent eisoes yn ymgymryd â'r Asesiad Amgylcheddol Strategol. Mae amrywiaeth o fesurau lliniaru amgylcheddol yn cael eu hadolygu a ddylai sicrhau bod modd cwblhau'r broses hon yn gymharol gyflym gan alluogi JASPERS i ystyried y prosiect yn gynnar cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd a'i gymeradwyo.

Tabl 9: Cynnydd yn erbyn dangosyddion

Amcan Penodol	Allbynnau	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd			Dwyrain Cymru		
		Targed	Rhagolwg Prosiect	Cyflawnwyd hyd yma	Targed	Rhagolwg Prosiect	Cyflawnwyd hyd yma
AP4.1 Ymdrin ag ymyloldeb a gwella buddsoddiad preifat mewn ardaloedd lleol drwy wella'r ffordd y mae'r Rhwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd (TEN-T) yn gweithredu)	Cyfanswm hyd y ffyrdd a ailadeiladwyd neu a uwchraddiwyd (gan gynnwys TEN-T)	15	7	-	n/a	n/a	n/a
	Llwybr troed neu lwybr beicio wedi'i greu neu ei ailadeiladu	10	3	-	n/a	n/a	n/a
	Gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus wedi'u creu neu eu gwella	2,500,000	-	-	420,000	-	-
	Cyfleusterau rhyngfoddol wedi'u creu neu eu gwella	25	6	5	5	-	-
AP4.2 Mwy o symudedd trefol a llafur i ac o ganolfannau trefol a chyflogaeth allweddol	Cyfanswm hyd rheilffordd newydd (gan gynnwys TEN-T)	15	-	-	n/a	n/a	n/a
	Cyfanswm hyd y rheilffordd a ailadeiladwyd neu a uwchraddiwyd (gan gynnwys TEN-T)	15	-	-	3	-	-
(AP4.1 Dwyrain Cymru)	Cilometrau teithwyr gros ar drafndiaeth gyhoeddus	400,000,000	1,790,041	-	67,200,000	-	-
	Cyfanswm hyd y ffyrdd a ailadeiladwyd neu a uwchraddiwyd (gan gynnwys TEN-T)	5	1	-	5	-	-
	Lleihad mewn allyriadau cyfatebol ag CO2	10,700	-	-	1,800	-	-

Amcan Penodol	Allbynnau	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd			Dwyrain Cymru		
		Targed	Rhagolwg Prosiect	Cyflawnwyd hyd yma	Targed	Rhagolwg Prosiect	Cyflawnwyd hyd yma
AP4.3 Cyfrannu at dargedau Agenda Ddigidol Ewrop yng Nghymru am fynediad o 30% i fand eang y genhedlaeth nesaf (50Mbps ac uwch) a mynediad o 100% i 100Mbps	Eiddo ychwanegol â mynediad band eang 30 Mbps o leiaf - Aelwydydd	28,000	69,524	44,114	28,000	46,801	18,306
	Nifer y Mentrau a gynorthwyr i gysylltu â rhwydweithiau 100Mbps neu uwch	250	250	-	25	25	-
	Poblogaeth ychwanegol sy'n derbyn band eang cyflym iawn (>100Mbps)	n/a	91,053	38,755	n/a	43,494	21,339
(AP4.2 Dwyrain Cymru)							
AP4.4 Cynyddu cyflogaeth drwy fuddsoddiadau mewn seilwaith lleol neu ranbarthol â blaenoriaeth sy'n ategu strategaeth economaidd ranbarthol neu drefol	Nifer y swyddi y crëwyd lle ar eu cyfer	1,770	2,760	-	n/a	n/a	n/a
	Tir wedi'i ddatblygu	50	96	-	n/a	n/a	n/a
	Adeiladau a grëwyd neu a adnewyddwyd	56,430	142,489	-	n/a	n/a	n/a
	Nifer y busnesau bach a chanolig y crëwyd lle ar eu cyfer	235	237	-	n/a	n/a	n/a

Ffynhonnell: SCEC, 30/04/2017

Mae'n rhy fuan i ddod i unrhyw gasgliadau pendant ar gyflawni allbynnau; ond, o ystyried yr hyn sydd wedi cael ei gymeradwyo a'r hyn sydd ar gamau cynllunio busnes a chyn cynllunio, mae'n ymddangos bod y gwaith o gyflawni allbynnau a thargedau ar y trywydd cywir.

Blaenoriaeth 5: Cymorth Technegol

Tabl 10: Neilltuo Grant yr UE

	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd				Dwyrain Cymru			
	Gweithrediadau	Dyranid Mynegol	Cymeradwywyd ERDF		Gweithrediadau	Dyranid Mynegol	Cymeradwywyd ERDF	
Cyfanswm Blaenoriaeth 5	7	£20.6m	£19.0m	92%	6	£3.5m	£2.9m	82%

Ffynhonnell: SCEC, 30/04/2017

Cymeradwyaethau ers cyfarfod diwethaf Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni (PMRh)

Dim cymeradwyaethau ers cyfarfod blaenorol PMRh.

Mae'r holl weithrediadau Cymorth Technegol wedi'u cymeradwyo ac yn y broses o gael eu cyflawni. Nid oes unrhyw broblemau penodol wedi'u codi ac, yn sicr, mae'r Timau Ymgysylltu Rhanbarthol yn weithredol ac yn helpu WEFO mewn meysydd blaenoriaeth penodol.

Atodiad 2: Diweddariad ESF

Adran 1: Rhaglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop: Neilltuo cyllid

Mae'r adran hon yn rhoi manylion y cynnydd ariannol presennol o dan y Rhaglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop, gan gynnwys trosolwg o'r Rhaglenni a gwybodaeth ar lefel Blaenoriaeth.

Dengys Tabl 1 nifer Grantiau'r UE a neilltuwyd a'r symiau ar gyfer Gweithrediadau cymeradwy o dan Raglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru, ochr yn ochr â Grant posibl yr UE a neilltuir os bydd Gweithrediadau ar y Cam Cynllunio Busnes a'r cam Cyn Cynllunio yn mynd rhagddynt.

Tabl 1: Neilltuo Grant yr UE yn ôl Rhaglen a Blaenoriaeth: Gweithrediadau Cymeradwy

£ Miliynau							
Rhaglen / Blaenoriaeth	Nifer y Gweithrediadau a gymeradwywyd	Dyraniad		Wedi'i neilltuo		Cyfran o'r dyraniad	
		Cyfanswm ¹	Grant yr UE ¹	Cyfanswm	Grant yr UE	Cyfanswm	Grant yr UE
ESF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd							
1	10	212	167	148	107	70%	64%
2	16	410	295	416	253	101%	86%
3	14	281	209	229	151	81%	72%
4	6	18	14	24	15	131%	109%
Cyfanswm	46	922	686	818	526	89%	77%
ESF Dwyrain Cymru							
1	6	75	37	29	15	39%	39%
2	10	169	82	191	47	113%	57%
3	10	103	51	117	38	114%	75%
4	5	7	3	6	3	85%	82%
Cyfanswm	31	353	174	343	102	97%	59%
Cyfanswm ESF	77	1,275	860	1,161	628	91%	73%

Ffynhonnell: SCEC, 30/04/2017

¹ Yn seiliedig ar gyfradd drosi o £1:€1.17

Diweddariad Cyffredinol o'r Rhaglenni

Mae'r swm a neilltuwyd bellach ar 73% ar gyfer y ddwy raglen (ar y gyfradd gynllunio ddiwygiedig o €1.17), gyda 77 o weithrediadau wedi'u cymeradwyo a £628 miliwn wedi'i neilltuo'n gyffredinol, £15m ychwanegol o Gronfa Gymdeithasol Ewrop ers cyfarfod diwethaf Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni.

Mae'r swm ychwanegol a neilltuwyd yn adlewyrchu'r ffaith bod tri gweithrediad newydd wedi'u cymeradwyo, ond hefyd bod estyniadau i'r gweithrediadau presennol wedi'u cynllunio o dan bob maes Blaenoriaeth. Mae WEFO yn bwriadu neilltuo'r £232m sy'n weddill o Gronfa Gymdeithasol Ewrop erbyn diwedd 2018 drwy gyfuniad o brosiectau newydd a phrosiectau sydd yn yr arfaeth, gan ymestyn prosiectau i gyflawni mwy dros gyfnodau hwy (lle bo prosiectau'n perfformio'n dda yn erbyn eu targedau) a galwadau wedi'u targedu am feysydd o fewn y rhaglenni lle nad yw'r diddordeb wedi datblygu'n unol â'r disgwyl.

Erbyn hyn, mae gan y rhan fwyaf o feysydd Blaenoriaeth ac Amcan Penodol bortffolio cytbwys o weithrediadau sydd â'r nod o gyflawni ar gyfer yr amrywiaeth o grwpiau cleientiaid targed sy'n cymryd rhan a'r canlyniadau

targed. Gallai gweithrediadau newydd sy'n cael eu datblygu o hyd arwain at neilltuo £22m arall ac maent yn cynnig gweithgarwch arbenigol wedi'i deilwra i lenwi bylchau yn yr amrywiaeth o ddarpariaeth a gynigir neu'r grŵp cleient a dargedir. Mae WEFO eisoes wedi agor galwad am gynigion yn y flaenoriaeth sy'n ymwneud â Thlodi, gan ganolbwyntio'n benodol ar gyflogadwyedd yn ardal rhaglen Dwyrain Cymru a'r bobl sydd wedi'u tangyflogi yn ardal rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd lle mae lefelau neilltuo'n dal yn is na'r disgwyl. Yn ychwanegol at reoli symiau neilltuo'r dyfodol, mae prif ffocws Cronfa Gymdeithasol Ewrop bellach ar gyflawni. Mae'r rhaglenni eisoes wedi ymgysylltu â mwy nag 85,000 o gyfranogwyr hyd yma (20% o'r targed cyffredinol) ac wedi helpu mwy na 3,300 o bobl i mewn i waith ac ychydig dros 35,000 i ennill cymwysterau.

Adran 2: Cynnydd yn ôl Blaenoriaeth

Blaenoriaeth 1: Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy

Tabl 2: Neilltuo Grant yr UE yn ôl Amcan Penodol

Amcan Penodol	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd				Dwyrain Cymru			
	Gweithrediadau	Dyraniad Mynegol	Cymeradwywyd ESF		Gweithrediadau	Dyraniad Mynegol	Cymeradwywyd ESF	
AP1.1: Helpu pobl i mewn i waith	1	£39.4m	£33.9m	86%	n/a	n/a	n/a	n/a
AP1.2: Cynhwysiant ac Ymgysylltu mewn LM (AP1.1 Dwyrain Cymru)	8	£102.8m	£69.4m	68%	6	£37.4m	£14.5m	39%
AP1.3: Helpu pobl i aros mewn gwaith	1	£25.2m	£3.3m	13%	n/a	n/a	n/a	n/a
Cyfanswm Blaenoriaeth 1	10	£167.5m	£106.6m	64%	6	£37.4m	£14.5m	39%

Flynhonnell: SCEC, 30/04/2017

Tabl 3: Cymeradwyaethau ers cyfarfod diwethaf Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni (PMRh)

Gweithrediadau	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd		Dwyrain Cymru	
	Cyfanswm y fuddsoddiad	Cymeradwywyd ESF	Cyfanswm y fuddsoddiad	Cymeradwywyd ESF
Workways Plus Powys (Powys County Council)			£0.70m	£0.35m

Cymeradwywyd £6 miliwn arall o gyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn ardal rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ac £1.3m arall yn ardal rhaglen Dwyrain Cymru ers cyfarfod diwethaf Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni, sy'n golygu bod y swm a neilltuwyd o dan y Flaenoriaeth wedi cyrraedd 64% yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a 39% yn Dwyrain Cymru. Mae'r rhan fwyaf o'r cyllid ychwanegol wedi'i ddyfarnu drwy estyniadau i'r gweithrediadau presennol. Dyfarnwyd £3m o gyllid ychwanegol o Gronfa Gymdeithasol Ewrop yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd ac £1m yn Dwyrain Cymru i ymestyn prosiect **Cymru Iach ar Waith – Gwasanaeth Allan o Waith**, a arweinir gan Lywodraeth Cymru, er mwyn cefnogi 4,900 yn rhagor o gyfranogwyr economaidd anweithgar a di-waith yn yr hirdymor (25 oed a throsodd) sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth. Dyfarnwyd £3m o gyllid ychwanegol o Gronfa Gymdeithasol Ewrop i ymestyn prosiect **Pontydd i Waith**, a arweinir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd er mwyn helpu 1,000 yn rhagor o gyfranogwyr (25 oed a throsodd) sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth.

Y gymeradwyaeth newydd yn y Flaenoriaeth hon ers cyfarfod diwethaf Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni yw prosiect **Gweithffyrdd+ Powys** a arweinir gan Gyngor Sir Powys. Dyfarnwyd £0.35m o gyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop er mwyn rhoi cymorth i helpu unigolion economaidd anweithgar a di-waith yn yr hirdymor dros 54 oed yn y sir yn ôl i mewn i waith. Mae pob gweithrediad a gymeradwywyd yn mynd i'r afael â rhwystrau penodol y mae unigolion yn eu hwynebu i ddod o hyd i gyflogaeth ac aros mewn cyflogaeth. Maent oll yn adeiladu ar lwyddiannau cylch blaenorol cyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop drwy barhau i ganolbwyntio ar gyflogaeth fel y prif amcan i unigolyn a hyd yn oed yn fwy ar yr unigolion hynny sydd bellaf i

ffwrdd o'r farchnad lafur, sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf cymhleth i gael cyflogaeth.

Yn Nwyrain Cymru mae'r lefelau neilltuo, fel cyfran o'r cyllid sydd ar gael, yn is na'r hyn a ddisgwylir ar y cam hwn er bod gwerth cyffredinol symiau Cronfa Gymdeithasol Ewrop a neilltuwyd yn debyg i'r hyn a neilltuwyd ar y cam hwn yn y rhaglen ddiwethaf. Mae WEFO yn gweithio gyda rhanddeiliaid yn Nwyrain Cymru ar hyn o bryd i ddatblygu cynigion ymhellach. Er mwyn helpu i ysgogi rhagor o weithgarwch yn y maes hwn, agorwyd galwad am gynigion ar 28 Ebrill 2017. Mae WEFO wedi bod yn gweithio gyda'r Timau Ymgysylltu Rhanbarthol i hyrwyddo'r alwad hon a fydd yn cau ar 30 Mehefin 2017. Yn yr un modd, o fewn AP3 yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, mae WEFO yn dal i geisio ymgysylltu â phartïon â diddordeb er mwyn cyflawni ar gyfer unigolion tangyflogedig ac unigolion cyflogedig â chyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio. Lansiwyd galwad ar gyfer y maes hwn ar 28 Ebrill hefyd, a bydd yn cau ar 30 Mehefin. Mae Timau Ymgysylltu Rhanbarthol hefyd wedi bod yn cefnogi hyn.

Tabl 4: Cynnydd yn erbyn dangosyddion

Amcan Penodol	Allbynnau	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd			Dwyrain Cymru		
		Targed	Rhagolwg Prosiect	Cyflawnwyd hyd yma	Targed	Rhagolwg Prosiect	Cyflawnwyd hyd yma
	Nifer y di-waith tymor byr heb sgiliau/sgiliau isel neu gyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio	5,999	4,799	-	n/a	n/a	n/a
	Unigolion y mae dileu swydd yn effeithio arnynt	12,001	15,269	1,646	n/a	n/a	n/a
AP1.1 Cynyddu cyflogadwyedd y rhai sydd agosaf at y farchnad lafur ac sy'n wynebu'r risg fwyaf o dlodi	Cyfranogwyr di-waith yn y tymor byr â sgiliau isel neu gyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio mewn cyflogaeth wrth adael	33%	57%	0%	n/a	n/a	n/a
	Cyfranogwyr di-waith yn y tymor byr â sgiliau isel neu gyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio sy'n ennill cymhwyster wrth adael	50%	86%	0%	n/a	n/a	n/a
	Unigolion y mae dileu swydd yn effeithio arnynt sydd mewn cyflogaeth wrth adael	55%	54%	25%	n/a	n/a	n/a
	Unigolion y mae dileu swydd yn effeithio arnynt sy'n ennill cymhwyster wrth adael	70%	78%	77%	n/a	n/a	n/a

Amcan Penodol	Allbynnau	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd			Dwyrain Cymru		
		Targed	Rhagolwg Prosiect	Cyflawnwyd hyd yma	Targed	Rhagolwg Prosiect	Cyflawnwyd hyd yma
AP1.2 Cynyddu cyflogadwyedd pobl sy'n Economaidd anweithgar ac sy'n Ddiwaith yn yr Hirdymor sy'n 25 oed a throsodd sy'n wynebu rhwystrau cymhleth i gyflogaeth (AP1.1 Dwyrain Cymru)	Economaidd anweithgar (25 oed a hŷn) nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth	36,000	42,394	2,890	12,700	14,611	346
	Di-waith tymor hir (25 oed a hŷn) sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth	10,800	17,293	1,110	3,800	5,863	243
	Economaidd anweithgar (25 oed a hŷn) nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth sy'n mynd i gyflogaeth gan gynnwys hunangyflogaeth wrth adael	20%	18%	10%	20%	18%	14%
	Economaidd anweithgar (25 oed a hŷn) nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth sy'n ymwneud â chwilio am swydd wrth adael	25%	14%	3%	25%	14%	12%
	Economaidd anweithgar (25 oed a hŷn) nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth sy'n ennill cymhwyster neu ardystiad perthnasol i waith wrth adael	50%	29%	10%	50%	24%	2%
	Economaidd anweithgar (25 oed a hŷn) nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth sy'n cynyddu eu cyflogadwyedd drwy gwblhau lleoliad profiad gwaith neu gyfle i wirfoddoli	54%	21%	0%	54%	18%	0%
	Di-waith hirdymor (25 oed a hŷn) sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth sy'n mynd i gyflogaeth gan gynnwys hunangyflogaeth wrth adael	25%	17%	0%	25%	16%	0%
	Di-waith yn yr hirdymor (25 oed a hŷn) sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth sy'n ennill cymhwyster neu ardystiad perthnasol i waith wrth adael	50%	27%	12%	50%	20%	1%
	Di-waith hirdymor (25 oed a hŷn) sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth sy'n cynyddu eu cyflogadwyedd drwy gwblhau lleoliad profiad gwaith neu gyfle i wirfoddoli	54%	23%	9%	53%	19%	1%

Amcan Penodol	Allbynnau	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd			Dwyrain Cymru		
		Targed	Rhagolwg Prosiect	Cyflawnwyd hyd yma	Targed	Rhagolwg Prosiect	Cyflawnwyd hyd yma
AP1.3 Gostwng cyfraddau tangyflogaeth neu absenoldeb unigolion cyflogedig sydd â chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar waith a/neu rwystrau eraill i ymgysylltu â'r farchnad lafur mewn modd cynaliadwy	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig sydd â chyflwr neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio	4,000	4,232	798	n/a	n/a	n/a
	Cyfranogwyr sydd wedi eu tangyflogi sydd â rhwystrau i gyflogaeth lawn	4,000	-	-	n/a	n/a	n/a
	Nifer y busnesau micro bach a chanolig a gynorthwyr	2,000	-	-	n/a	n/a	n/a
	Rhaglenni iechyd yn y gweithle	300	130	-	n/a	n/a	n/a
	Mentrau â chymorth sydd wedi mabwysiadu neu wella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro	50%	0%	0%	n/a	n/a	n/a
	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig â chyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio sy'n dychwelyd i'r gwaith ar ôl cyfnod o absenoldeb	50%	19%	100%	n/a	n/a	n/a
	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig â chyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio sydd mewn sefyllfa well ar y farchnad lafur wrth adael	50%	31%	33%	n/a	n/a	n/a
	Cyfranogwyr sydd wedi eu tangyflogi sydd mewn sefyllfa well ar y farchnad lafur wrth adael fel contract parhaol ag oriau uwch	40%	0%	0%	n/a	n/a	n/a

Ffynhonnell: SCEC, 30/04/2017

Fel arfer, mae nifer y cyfranogwyr a ragwelir yn rhagori ar dargedau'r rhaglen yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd. Fodd bynnag, mae'r arwyddion yn dangos bod cryfder y farchnad lafur yn effeithio ar y tybiaethau cynllunio cynnar gan weithrediadau ac, ar y cyfan, mae ymgysylltu ag unigolion yn fwy heriol nag a ragwelwyd. Bydd WEFO yn monitro hyn a bydd yr ystyriaethau hyn yn bwydo i mewn i unrhyw addasiadau arfaethedig yn nes ymlaen eleni.

Colli swydd a diweithdra byrdymor (AP1.1 Gorllewin Cymru a'r Cymoedd): nid yw nifer y bobl sydd wedi gwneud cais am gymorth ar ôl colli swydd o dan weithrediad ReACT wedi bod mor uchel â'r hyn a ddisgwyliwyd yn wreiddiol. Mae ReACT yn ymateb yn uniongyrchol i lefel y galw yn y farchnad lafur. Felly, gellir priodoli'r niferoedd isel yn rhannol i gryfder presennol y farchnad lafur a'r lefelau is o swyddi a gollwyd na'r hyn a ddisgwyliwyd yn wreiddiol. Felly, mae'n gadarnhaol ar y cyfan bod y niferoedd yn is na'r disgwyl ond mae'n rhywbeth y bydd angen i WEFO ei fonitro o ran lefelau gwariant cyffredinol yn yr amcan penodol hwn.

Economaidd Anweithgar a Di-waith yn yr Hirdymor (AP1.2 Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ac AP1 Dwyrain Cymru): Mae'r rhagolygon yn rhagori ar dargedau'r rhaglenni o ystyried y lefel neilltuo ond, fel y dangoswyd gan yr alwad yn Nwyrain Cymru, ceir heriau mewn rhai meysydd. Mae'r ffaith mai nifer fach o gyfranogwyr yr ymgysylltwyd â nhw hyd yma, yn ôl pob golwg, yn adlewyrchu'r ffaith ei bod wedi cymryd mwy o amser nag a ragwelwyd i roi systemau ar waith a dechrau cyflawni, ynghyd â'r ffaith ei bod yn fwy heriol ymgysylltu â grwpiau targed anos eu cyrraedd, sy'n sail i amcanion y rhaglen. Adlewyrchir hyn hefyd yn y dangosyddion canlyniadau yn yr ystyr bod angen ymyriadau dwysach yn y tymor hwy gyda'r garfan anos ei chyrraedd ac felly caiff y canlyniadau a ragwelir eu sicrhau'n ddiweddarach nag a gynlluniwyd. Mae'r hyn a gyflawnwyd yn dangos gwelliant yn y canlyniadau, yn enwedig ymhlith y garfan Economaidd Anweithgar sy'n mynd i mewn i waith.

Unigolion tangyflogedig ac unigolion cyflogedig â chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio (AP3 Gorllewin Cymru a'r Cymoedd): unwaith eto, mae'r hyn a gyflawnwyd ychydig yn is na'r disgwyl ar y cam hwn am ei bod wedi cymryd mwy o amser nag a ragwelwyd i roi prosesau cyflawni ar waith.

Blaenoriaeth 2: Sgiliau ar gyfer Twf

Tabl 5: Neilltuo Grant yr UE yn ôl Amcan Penodol

Amcan Penodol	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd				Dwyrain Cymru			
	Gweithrediadau	Dyranid Mynegol	Cymeradwywyd ESF		Gweithrediadau	Dyranid Mynegol	Cymeradwywyd ESF	
AP2.1: Sgiliau Sylfaenol	5	£142.4m	£88.5m	62%	3	£53.4m	£19.0m	36%
AP2.2: Hyblygrwydd a Chynnydd	8	£88.9m	£123.9m	139%	6	£24.0m	£25.3m	105%
AP2.3: Ymchwil ac Arloesi	2	£45.8m	£35.4m	77%	n/a	n/a	n/a	n/a
AP2.4: Cydraddoldeb Rhywiol (AP2.3 Dwyrain Cymru)	1	£18.3m	£5.6m	30%	1	£4.2m	£2.4m	58%
Cyfanswm Blaenoriaeth 2	16	£295.4m	£253.3m	86%	10	£81.6m	£46.8m	57%

Flynhonnell: SCEC, 30/04/2017

Cymeradwyaethau ers cyfarfod diwethaf Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni (PMRh)

Dim cymeradwyaethau ers cyfarfod blaenorol PMRh.

Er na chymeradwywyd unrhyw weithrediadau newydd ers cyfarfod diwethaf PMRh, neilltuwyd £1.1m o gyllid ychwanegol o Gronfa Gymdeithasol Ewrop er mwyn ymestyn gweithrediad presennol yn rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ac ailddyrannwyd £0.7m o gyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop o weithrediad presennol yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd i'r gweithrediad cyfatebol yn Nwyrain Cymru, gan gynyddu'r lefel neilltuo Blaenoriaeth i 86% yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a 57% yn Nwyrain Cymru. Cymeradwywyd £1.1m o gyllid ychwanegol o Gronfa Gymdeithasol Ewrop yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd i ymestyn prosiect **Sgiliau Gwaith i Oedolion**, a arweinir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, er mwyn cyflawni am ddwy flynedd arall gan hyfforddi 800 o gyfranogwyr cyflogedig.

Ailddyrannwyd £0.7m o gyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop o Orllewin Cymru a'r Cymoedd i Ddwyrain Cymru ar gyfer prosiect Cymru gyfan **Cenedl Hyblyg 2**, a arweinir gan Chwarae Teg, ar ôl ailgysoni niferoedd cyfranogwyr.

Mae'r portffolio o weithrediadau hyd yma yn adeiladu ar gyflawniadau rhaglen 2007-13, drwy ganolbwyntio ar ddarparu'r sgiliau hanfodol, technegol ac arbenigol sydd eu hangen i greu gweithlu ystwyth ac ymatebol sy'n barod i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a'r potensial o ran twf a gynigir gan economi wybodaeth fodern. Er bod sgiliau sylfaenol a hanfodol yn sylfaen gyffredin, ac angenrheidiol, i'r gweithlu cyfan, mae'r wybodaeth am gyfleoedd twf allweddol a'r sectorau sy'n datblygu a'r sectorau â blaenoriaeth a nodwyd yn y Fframwaith Blaenoriaethu Economaidd, ynghyd â'r Cynlluniau Cyflogaeth a Sgiliau sy'n cael eu datblygu gan y Partneriaethau Dysgu Rhanbarthol a Gwybodaeth am y Farchnad Lafur yn adnoddau allweddol i arwain y gwaith o dargedu ymyriadau sgiliau a'u ffocws, yn enwedig y rhai sy'n cyflwyno sgiliau ar lefel ganolraddol ac uwch.

Mae buddiolwyr sy'n awyddus i roi hyfforddiant i'r gweithlu cyflogedig yn ymateb yn gadarnhaol i gyfeiriad polisi newydd cyd-fuddsoddi gan gyflogwyr a nodwyd yng Nghynllun Gweithredu Sgiliau Llywodraeth Cymru ac sy'n cael ei annog gan y Rhaglenni Gweithredol. Mae arian cyfatebol preifat o gyfraniadau arian parod cyflogwyr yn rhan annatod o'r gweithrediadau hyn wrth iddynt gael eu datblygu a'u cymeradwyo.

Tabl 6: Cynnydd yn erbyn dangosyddion

Amcan Penodol	Allbynnau	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd			Dwyrain Cymru		
		Targed	Rhagolwg Prosiect	Cyflawnwyd hyd yma	Targed	Rhagolwg Prosiect	Cyflawnwyd hyd yma
AP2.1 Cynyddu lefelau sgiliau, gan gynnwys sgiliau sy'n berthnasol i waith, y rhai yn y gweithlu sydd â sgiliau isel os o gwbl	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig heb gymwysterau ffurfiol - Dynion	14,029	4,982	305	7,799	1,728	24
	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig heb gymwysterau ffurfiol - Menywod	12,771	5,373	217	7,101	1,934	24
	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig sydd â chymwysterau hyd at a chan gynnwys addysg uwchradd is - Dynion	23,870	21,844	6,619	13,296	9,022	3,211
	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig sydd â chymwysterau hyd at a chan gynnwys addysg uwchradd is - Menywod	21,730	26,334	6,556	12,104	10,854	3,601
	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig heb unrhyw gymwysterau ffurfiol sy'n ennill sgiliau hanfodol neu gymhwyster technegol neu benodol i swydd wrth adael - Dynion	72%	77%	43%	72%	76%	0%
	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig heb unrhyw gymwysterau ffurfiol sy'n ennill sgiliau hanfodol neu gymhwyster technegol neu benodol i swydd wrth adael - Menywod	72%	77%	50%	72%	76%	0%
	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig gyda hyd at ac yn cynnwys addysg uwchradd is sy'n ennill cymhwyster sgiliau hanfodol neu benodol i swydd ar lefel uwchradd is wrth adael - Dynion	72%	80%	58%	72%	81%	56%
	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig gyda hyd at ac yn cynnwys addysg uwchradd is sy'n ennill cymhwyster sgiliau hanfodol neu benodol i swydd ar lefel uwchradd is wrth adael - Menywod	72%	80%	55%	72%	81%	51%

Amcan Penodol	Allbynnau	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd			Dwyrain Cymru		
		Targed	Rhagolwg Prosiect	Cyflawnwyd hyd yma	Targed	Rhagolwg Prosiect	Cyflawnwyd hyd yma
AP2.2 Cynyddu nifer y bobl yn y gweithlu sydd â sgiliau technegol a phenodol i waith ar lefel ganolraddol ac uwch	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig sydd ag addysg uwchradd is (FfCChC 2) - Dynion	16,070	22,177	4,345	6,438	9,754	2,333
	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig sydd ag addysg uwchradd is (FfCChC 2) - Menywod	14,630	27,412	4,620	5,862	12,208	2,455
	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig sydd ag addysg uwchradd uwch (FfCChC 3) neu uwch - Dynion	10,731	11,887	4,803	4,292	5,385	2,869
	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig sydd ag addysg uwchradd uwch (FfCChC 3) neu uwch - Menywod	9,769	12,997	9,305	3,908	5,586	5,607
	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig ag addysg uwchradd is (FfCChC 2) sy'n ennill cymhwyster galwedigaethol technegol neu benodol i swydd wrth adael ar lefel uwchradd uwch (FfCChC 3) neu uwch - Dynion	60%	79%	52%	60%	80%	56%
	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig ag addysg uwchradd is (FfCChC 2) sy'n ennill cymhwyster galwedigaethol technegol neu benodol i swydd wrth adael ar lefel uwchradd uwch (FfCChC 3) neu uwch - Menywod	60%	79%	50%	60%	80%	53%
	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig ag addysg uwchradd uwch (FfCChC 3) neu uwch sy'n ennill cymhwyster galwedigaethol technegol neu benodol i swydd ar lefel uwchradd uwch (FfCChC 3) neu uwch wrth adael - Dynion	60%	80%	36%	60%	80%	37%
	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig ag addysg uwchradd uwch (FfCChC 3) neu uwch sy'n ennill cymhwyster galwedigaethol technegol neu benodol i swydd ar lefel uwchradd uwch (FfCChC 3) neu uwch wrth adael - Menywod	60%	80%	43%	60%	80%	44%

Amcan Penodol	Allbynnau	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd			Dwyrain Cymru		
		Targed	Rhagolwg Prosiect	Cyflawnwyd hyd yma	Targed	Rhagolwg Prosiect	Cyflawnwyd hyd yma
AP2.3 Cynyddu nifer y bobl â graddau neu gymhwyster cyfatebol sy'n cyflawni gweithgareddau ymchwil ac arloesedd ym myd busnes	Cyfranogwyr sydd ag ôl-radd neu gymhwyster cyfwerth - Dynion	780	442	80	n/a	n/a	n/a
	Cyfranogwyr sydd ag ôl-radd neu gymhwyster cyfwerth - Menywod	720	368	47	n/a	n/a	n/a
	Nifer y Mentrau sy'n cydweithio â darparwyr dysgu	750	542	75	n/a	n/a	n/a
	Cyfranogwyr ag ôl-radd neu gymhwyster cyfwerth sy'n ennill cymhwyster wrth adael ar lefel Meistr (FfCChC 7) neu Ddoethuriaeth (FfCChC 8) - Dynion	63%	82%	0%	n/a	n/a	n/a
	Cyfranogwyr ag ôl-radd neu gymhwyster cyfwerth sy'n ennill cymhwyster wrth adael ar lefel Meistr (FfCChC 7) neu Ddoethuriaeth (FfCChC 8) - Menywod	63%	79%	0%	n/a	n/a	n/a
	Cyfranogwyr â gradd ôl-radd neu gymhwyster cyfwerth sydd mewn cyflogaeth wrth adael - Dynion	52%	0%	0%	n/a	n/a	n/a
	Cyfranogwyr â gradd ôl-radd neu gymhwyster cyfwerth sydd mewn cyflogaeth wrth adael - Menywod	52%	0%	0%	n/a	n/a	n/a
AP2.4 Gwella sefyllfa menywod yn y gweithlu (AP2.3 Dwyrain Cymru)	Nifer y mentrau micro bach a chanolig a gynorthwyir (gan gynnwys mentrau cydweithredol, mentrau yr economi gymdeithasol)	800	347	117	300	153	50
	Cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig	4,400	1,407	340	1,500	800	238
	Cyfranogwyr sy'n ennill cymhwyster wrth adael	75%	80%	42%	73%	80%	23%
	Mentrau â chymorth sydd wedi mabwysiadu neu wella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro	50%	80%	47%	50%	80%	28%
	Cyfranogwyr sydd mewn sefyllfa well ar y farchnad wrth adael	40%	40%	0%	40%	40%	0%

Ffynhonnell: SCEC, 30/04/2017

Yn gyffredinol, mae'r sefyllfa o ran perfformiad ar gyfer y flaenoriaeth hon yn galonogol iawn. Lle ceir bylchau yn yr allbynnau a neilltuwyd i fuddiolwyr mae cyllid ar gael o hyd i fynd i'r afael â nhw. Hyd yma, mae dros 57,000 o gyfranogwyr eisoes wedi'u cofrestru gan weithrediadau cymeradwy yn y Flaenoriaeth hon. Mae'r diffyg ymddangosiadol ar gyfranogwyr sy'n ennill cymwysterau ar yr adeg hon yn yr amcanion penodol yn adlewyrchu hyd y cyrsiau a ddilynir, fel yn achos MA a PhD, ynghyd ag amseru'r flwyddyn academiaidd gyda'r canlyniadau a ddisgwylir o fis Gorffennaf/Awst ymlaen.

Cynyddu lefelau sgiliau'r rhai sydd â sgiliau isel os o gwbl (AP2.1): Mae'r rhagolygon yn uchel yn erbyn targedau'r rhaglen, o ystyried y swm cymharol isel a neilltuwyd hyd yma (54% ar gyfartaledd), ac mae'r cyflawniadau hyd yma yn galonogol. Yr eithriad yw cyfranogwyr heb ddim cymwysterau ffurfiol; mae hyn oherwydd ei bod yn profi'n anodd diffinio ystyr 'dim cymwysterau ffurfiol'. Mae rhai gweithrediadau yn nodi bod gweithwyr sgiliau isel iawn yn aml yn dweud bod ganddynt o leiaf ryw fath o gymhwyster blaenorol (e.e. dyfarniad lefel mynediad) sy'n golygu eu bod yn cofnodi llai o gyfranogwyr 'heb gymwysterau' na'r disgwyl.

Lefelau sgiliau canolraddol ac uwch (AP2.2): Ledled Cymru disgwylir rhagori ar bob targed a chanlyniad. Yn galonogol, mae targedau fframwaith perfformiad 2018 yr amcan penodol hwn (sy'n ymwneud â chyfranogwyr ag addysg uwchradd is) bellach wedi cael eu cyflawni. Mae nifer y cyfranogwyr ag addysg uwchradd uwch, yn enwedig merched, hefyd yn gryf iawn.

Gweithgarwch Ymchwil ac Arloesedd (AP2.3 yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yn unig): Mae cyllid bellach wedi cael ei neilltuo a fydd yn helpu ychydig dros 800 o gyfranogwyr yn yr amcan penodol hwn (ysgoloriaethau meistr a doethuriaethau diwydiannol). Er ein bod yn gobeithio cynyddu nifer yr ysgoloriaethau ymhellach, mae'r targed gwreiddiol o 1,500 o gyfranogwyr ar gyfer yr amcan penodol hwn bellach yn ymddangos yn rhy uchel o ystyried bod gweithgarwch yn y maes hwn yn gyfyngedig i feysydd 'her fawr' Gwyddoniaeth ar gyfer Cymru a bod allbynnau (e.e. doethuriaethau) yn cymryd nifer o flynyddoedd i'w cyflawni. Yn galonogol, mae lefel is y cyfranogwyr wedi'i lliniaru i ryw raddau gan y ffaith y disgwylir i gyfran sylweddol uwch o'r cyfranogwyr hynny gyflawni canlyniadau allweddol.

Gwella sefyllfa menywod yn y gweithlu (AP2.4 Gorllewin Cymru a'r Cymoedd/AP2.3 Dwyrain Cymru): Mae'r targedau ar gyfer y ddwy raglen yn unol â'r disgwyliadau yn fras, er bod cyfran y cyflawniadau hyd yma yn uwch yn ardal rhaglen Dwyrain Cymru ar hyn o bryd.

Blaenoriaeth 3: Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Ieuenctid

Tabl 7: Neilltuo Grant yr UE yn ôl Amcan Penodol

Amcan Penodol	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd				Dwyrain Cymru			
	Gweithrediadau	Dyranïad Mynegol	Cymeradwywyd ESF		Gweithrediadau	Dyranïad Mynegol	Cymeradwywyd ESF	
AP3.1: Diweithdra ymhlith ieuenctid	6	£115.0m	£97.9m	85%	7	£38.4m	£30.4m	79%
AP3.2: Cyrhaeddiad ac ymgysylltu ieuenctid	6	£73.0m	£47.1m	64%	3	£12.8m	£7.8m	61%
AP3.3: STEM	1	£10.7m	£1.7m	15%	n/a	n/a	n/a	n/a
AP3.4: Blynyddoedd cynnar	1	£10.5m	£4.2m	40%	n/a	n/a	n/a	n/a
Cyfanswm Blaenoriaeth 3	14	£209.2m	£150.8m	72%	10	£51.3m	£38.2m	75%

Flynhonnell: SCEC, 30/04/2017

Tabl 8: Cymeradwyaethau ers cyfarfod diwethaf Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni (PMRh)

Gweithrediadau	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd		Dwyrain Cymru	
	Cyfanswm y fuddsoddiad	Cymeradwywyd ESF	Cyfanswm y fuddsoddiad	Cymeradwywyd ESF
ADTRAC (Grŵp Llandrillo-Menai)	£6.8m	£5.1m		
Inspire2Work (Newport City Council)			£2.8m	£1.4m

Cymeradwywyd £6.5m o gyllid ychwanegol o Gronfa Gymdeithasol Ewrop yn y ddwy raglen ers cyfarfod diwethaf PMRh, sy'n golygu bod y swm a neilltuwyd o dan y Flaenoriaeth wedi cyrraedd 72% yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a 75% yn Nwyrain Cymru. Mae'r portffolio o weithrediadau yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â diweithdra a chyrhaeddiad ieuenctid, ac i bobl yr ystyrir eu bod yn NEET neu'n debygol o fod yn NEET.

Cymeradwywyd dau brosiect newydd ers cyfarfod diwethaf PMRh, gan gynnwys £1.4m o gyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop ar gyfer gweithrediad **Ysbrydoli i Weithio** yn ardal rhaglen Dwyrain Cymru. Nod y gweithrediad hwn, a arweinir gan Gyngor Dinas Casnewydd, yw mynd i'r afael â phroblem diweithdra ymhlith pobl ifanc 16-24 oed a'u symud ymlaen i gyflogaeth gynaliadwy, ac mae'n cwblhau'r gyfres o weithrediadau o dan y flaenoriaeth sy'n ymwneud ag Ieuenctid sydd â'r nod o gefnogi pobl NEET, neu'r rhai sydd mewn perygl o fod yn NEET, yn rhanbarth De-ddwyrain Cymru. Hefyd, cymeradwywyd £5.1m o gyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop ar gyfer gweithrediad **ADTRAC** a arweinir gan Grŵp Llandrillo Menai ac sy'n gweithio gyda phobl ifanc 16-24 oed yn rhanbarth Gogledd Cymru sy'n NEET ac sy'n wynebu llawer o rwystrau rhag symud ymlaen i addysg neu gyflogaeth.

Mae WEFO yn parhau i weithio gyda buddiolwyr gan ddatblygu gweithrediadau newydd er mwyn neilltuo'r cyllid sy'n weddill a mynd i'r afael ag unrhyw fylchau mewn darpariaeth. Mae nifer o weithrediadau yn yr arfaeth yn agos at gael eu cymeradwyo, gan gynnwys gweithrediad **ADTRAC** yn Nwyrain Cymru o dan AP1, a **Cynnydd** yn Nwyrain Cymru o dan AP2, a arweinir gan Gyngor Sir Powys, a fydd yn gweithio gyda phobl ifanc 11-16 oed sydd mewn perygl o fod wedi'u hymddieithrio o

fyd addysg. Mae WEFO hefyd yn gweithio gyda buddiolwyr i gynyddu'r portffolio o weithrediadau sy'n darparu gweithgarwch cyfoethogi STEM i bobl ifanc 11-19 oed.

Tabl 9: Cynnydd yn erbyn dangosyddion

Amcan Penodol		Gorllewin Cymru a'r Cymoedd			Dwyrain Cymru		
		Targed	Rhagolwg Prosiect	Cyflawnwyd hyd yma	Targed	Rhagolwg Prosiect	Cyflawnwyd hyd yma
AP3.1 Lleihau nifer y bobl ifanc 16-24 oed Nad ydynt mewn Cyflogaeth, Addysg na Hyfforddiant (NEET)	Cyfranogwyr NEET (16-24 oed)	42,700	48,483	10,242	21,200	27,942	4,757
	Cyfranogwyr NEET (16 - 24 oed) sy'n ennill cymwysterau wrth adael - ag addysg gynradd neu uwchradd is	20%	40%	37%	20%	43%	33%
	Cyfranogwyr NEET (16 - 24 oed) sydd mewn addysg/hyfforddiant wrth adael	17%	17%	28%	17%	17%	33%
	Cyfranogwyr NEET (16 - 24 oed) sy'n mynd i gyflogaeth wrth adael	28%	30%	16%	28%	32%	18%
AP3.2 Lleihau nifer y bobl ifanc rhwng 11 a 24 oed sy'n wynebu risg o ddod yn NEET	Cyfranogwyr sydd mewn Perygl o fod yn NEET (11-24 mlwydd oed)	49,700	16,064	1,657	13,000	6,236	785
	Cyfranogwyr sydd mewn perygl o fod yn NEET (11-24 oed) sy'n ennill cymwysterau wrth adael - ag addysg gynradd (FfCChC 1) neu uwchradd is (FfCChC 2)	7%	14%	0%	27%	17%	1%
	Cyfranogwyr sydd mewn perygl o fod yn NEET (11-24 oed) sy'n mynd i addysg/hyfforddiant wrth adael	19%	8%	6%	18%	12%	3%
	Cyfranogwyr sydd mewn perygl o fod yn NEET (11-24 oed) sydd â llai o berygl o fod yn NEET wrth adael	-	58%	12%	-	59%	8%

Amcan Penodol	Allbynnau	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd			Dwyrain Cymru		
		Targed	Rhagolwg Prosiect	Cyflawnwyd hyd yma	Targed	Rhagolwg Prosiect	Cyflawnwyd hyd yma
AP3.3 Cynyddu lefelau cofrestru a chyrhaeddiad pynciau STEM ymhlith pobl ifanc 11-19 oed	Pobl Ifanc 11 -19 oed - Dynion	8,400	2,160	1,421	n/a	n/a	n/a
	Pobl Ifanc 11 -19 oed - Menywod	15,000	2,830	1,716	n/a	n/a	n/a
	Pobl Ifanc 11-19 oed sy'n cwblhau hyfforddiant mewn mathemateg Gwyddoniaeth Peirianeg a Thechnoleg - Dynion	55%	63%	24%	n/a	n/a	n/a
	Pobl Ifanc 11-19 oed sy'n cwblhau hyfforddiant mewn mathemateg Gwyddoniaeth Peirianeg a Thechnoleg - Menywod	55%	34%	11%	n/a	n/a	n/a
	Cyfranogwyr 11-19 oed sy'n parhau i astudio pwnc Mathemateg Gwyddoniaeth Peirianeg a Thechnoleg ar ôl 16 oed - Dynion	45%	16%	0%	n/a	n/a	n/a
	Cyfranogwyr 11-19 oed sy'n parhau i astudio pwnc Mathemateg Gwyddoniaeth Peirianeg a Thechnoleg ar ôl 16 oed - Menywod	45%	4%	0%	n/a	n/a	n/a
AP3.4 Cynyddu sgiliau'r gweithlu Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig o sector y blynnyddoedd cynnar a gofal plant - dynion	300	73	-	n/a	n/a	n/a
	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig o sector y blynnyddoedd cynnar a gofal plant - menywod	2,700	1,370	-	n/a	n/a	n/a
	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig o sector y blynnyddoedd cynnar a gofal plant sy'n ennill cymwysterau wrth adael - Dynion	77%	77%	0%	n/a	n/a	n/a
	Cyfranogwyr cyflogedig gan gynnwys hunangyflogedig o sector y blynnyddoedd cynnar a gofal plant sy'n ennill cymwysterau wrth adael - Menywod	77%	76%	0%	n/a	n/a	n/a

Ffynhonnell: SCEC, 30/04/2017

Gwneir cynnydd cadarnhaol o hyd o ran cyflawniad yn erbyn dangosyddion, gyda mwy nag 19,000 o gyfranogwyr hyd yma o dan y flaenoriaeth.

Lleihau NEET (AP3.1): Ar y cyfan, mae'r perfformiad hyd yma yn gadarnhaol ac mae'r rhagolygon yn dangos y bydd y flaenoriaeth yn cyrraedd y nod, sef cael 28% o bobl i mewn i gyflogaeth. Bu cynnydd sylweddol yn nifer y cyfranogwyr sy'n ennill cymwysterau, yn bennaf am fod nifer fawr o gyfranogwyr yn llwyddo i adael y gweithrediadau Hyfforddeiaeth gyda chymwysterau. Mae WEFO yn ystyried y targed terfynol ar gyfer y dangosydd hwn ar hyn o bryd, o ystyried y galw am gymwysterau, er mwyn symud y garfan ymlaen i gyflogaeth neu addysg/hyfforddiant.

Wynebu risg o ddod yn NEET (AP3.2): Mae'r gwaith o gyflawni gweithgarwch yn mynd rhagddo'n dda ac mae'r wybodaeth am berfformiad prosiectau hyd yma yn awgrymu bod y gweithrediadau yn llwyddo i dargedu'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf o ddod yn NEET ac sydd â llawer o rwystrau cymhleth rhag ymgysylltu ag addysg. Fodd bynnag, mae'n cymryd mwy o amser nag a ragwelwyd i ymgysylltu â'r garfan hon a chyflawni ymyriadau iddi. Mae WEFO yn gweithio gydag arweinwyr y gweithrediadau i ystyried dichonoldeb rhoi cymorth mwy dwys ac effeithiol i gyfranogwyr. Bydd y targedau cyffredinol yn y maes hwn yn cael eu hystyried fel rhan o'r addasiadau arfaethedig i raglenni.

Astudio pynciau STEM (AP3.3. Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn unig): Mae'r cynnydd yn erbyn yr allbynnau yn parhau i wella ac, wrth i weithgarwch prosiectau ddwysáu, mae'r cyflawniad yn erbyn rhai o'r canlyniadau i'w weld bellach. Yn bennaf, amseru yw'r rheswm dros y lefelau isel o barhau i astudio pynciau STEM ôl-16 a gofnodwyd, a cheir ar ddeall y bydd tystiolaeth o gyflawniad yn erbyn hyn ar gael gan ysgolion a cholegau ym mis Medi. Mae WEFO yn parhau i weithio gydag arweinwyr gweithrediadau sydd yn yr arfaeth ac mae'n disgwyl i gyflawniad yn erbyn dangosyddion gynyddu yn unol â hynny yn ystod y 12 mis nesaf.

Gweithlu Gofal Plant y Blynyddoedd Cynnar (AP3.4 Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn unig): Mae'r gwaith o gyflawni gweithgarwch yn mynd rhagddo, ond nid oes unrhyw ddangosyddion wedi'u hawlio hyd yma. Mae gwybodaeth am reoli perfformiad gan arweinydd y gweithrediad yn dangos bod y gweithrediad wedi ymgysylltu â bron i 250 o gyfranogwyr a'i bod yn cymryd tua 16 mis i gwblhau cymwysterau.

Blaenoriaeth 4: Cymorth Technegol

Tabl 10: Neilltuo Grant yr UE

	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd				Dwyrain Cymru			
	Gweithrediadau	Dyraniad Mynegol	Cymeradwywyd ESF		Gweithrediadau	Dyraniad Mynegol	Cymeradwywyd ESF	
Cyfanswm Blaenoriaeth 4	6	£13.7m	£14.9m	109%	5	£3.5m	£2.8m	82%

Ffynhonnell: SCEC, 30/04/2017

Cymeradwyaethau ers cyfarfod diwethaf Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni (PMRh)

Dim cymeradwyaethau ers cyfarfod blaenorol PMRh.

Sefydlwyd pedwar Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol i helpu i wella'r ffordd rydym yn cyflwyno ac yn rheoli rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014-2020. Maent wedi'u lleoli yn y gogledd, yn y canolbarth, ym Mae Abertawe ac yn y de-ddwyrain.

Maent yn ychwanegu gwerth at y ffordd y mae WEFO yn cyflwyno ac yn rheoli'r rhaglenni drwy sicrhau y caiff y gwaith hwn ei integreiddio'n rhanbarthol. Maent hefyd yn cyfrannu at y cam tuag at fodel cyflawni mwy strategol gyda fframwaith cliriach ar gyfer blaenoriaethu economaidd drwy sicrhau cysoni rhanbarthol a chydlyniant gweithrediadau. Un o brif swyddogaethau'r timau yw hwyluso'r broses o brawfesur gweithrediadau a gynigir o safbwynt rhanbarthol er mwyn rhoi barn ranbarthol i WEFO ynghylch y graddau y mae'r holl weithrediadau arfaethedig yn gyson â'r strategaethau perthnasol ac ymyriadau a gweithgareddau ehangach ac, ar adegau, hwyluso'r broses o flaenoriaethu rhai gweithrediadau arfaethedig yn rhanbarthol yn unol â chais gan WEFO (er enghraifft, ar gyfer Amcan Penodol 4.4 ERDF). Mae'r timau hefyd yn gweithio gyda'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol mewn perthynas â phrawfesur rhanbarthol ac ymgysylltu â gweithrediadau Cronfa Gymdeithasol Ewrop.

Mae'r holl weithrediadau Cymorth Technegol wedi'u cymeradwyo bellach.

Atodiad 3: Diweddariad WGRC-RDP 2014-2020

Adran 1: Rhaglen Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig (WGRC-RDP) Neilltuo Cyllid

Dengys Tabl 1 y gwariant hyd yma, swm Grant yr UE a neilltuwyd dan Raglen WGRC-RDP2014-2020, ynghyd â Grant yr UE y gellid ei neilltuo o bosibl os bydd y ceisiadau hynny a wahoddwyd dan gylchoedd Datganiadau o Ddiddordeb (EOI) a'r ceisiadau llawn sy'n cael eu hasesu yn mynd rhagddynt.

Tabl 1: Gwariant, Neilltuo Cyllid a Chynllunio Busnes

Dyraniad £'m		Gwariant £'m		Neilltuo cyllid £'m	
CYFANSWM	EAFRD	CYFANSWM	EAFRD	CYFANSWM	EAFRD
£957.00	£557.00	£84.14	£61.36	£787.25	£520.88

WEFO, 30/04/2017

Diweddariad Cyffredinol o'r Rhaglenni

Mae WGRC-RDP2014-2020 yn parhau i wneud cynnydd da ers iddi gael ei chymeradwyo ar 28 Mai 2015.

Un o ofynion y Comisiwn Ewropeaidd yw nad yw ceisiadau i Raglen Datblygu Gwledig 2014-2020 yn cael eu dethol ar sail y cyntaf i'r felin. Er mwyn bodloni'r gofyniad hwn, bydd cynlluniau dan WGRC-RDP 2014-2020 yn agor ac yn cau ar gyfer ceisiadau'n gyfnodol drwy gydol oes y rhaglen, yn dibynnu ar ddyraniadau ariannol y rhaglen sydd ar gael.

Mae'r eithriadau i hyn yn cynnwys Cyswllt Ffermio ar Cynllun Cynghori Busnes Gwledig, sy'n cael eu darparu drwy weithgarwch caffael; LEADER, Cymorth Technegol a cheisiadau uniongyrchol strategol.

Drwy gynnwys cymeradwyaethau a chylchoedd datganiadau o ddiddordeb mae cyfanswm o £787.25m wedi ei neilltuo, y mae £521m ohono yn arian yr UE. Ar ôl yr addasiadau, bydd y dyraniad ar gyfer y rhaglen yn cael ei newid i £774.35m y mae £519.62m ohono yn arian Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig, sy'n golygu y bydd y lefel neilltuo ychydig dros 100%. Mae rhai rhannau o'r rhaglen yn fwy datblygedig o ran cyflawni a chymeradwyaethau prosiectau nag eraill; dylid disgwyl hyn o ystyried yr amrywiaeth eang o weithgareddau y gellir eu cefnogi drwy'r rhaglen a'r cam y mae'r broses o gyflawni rhaglen wedi'i gyrraedd ar hyn o bryd. Gwariant cyffredinol y rhaglen hyd yma yw £84.14m y mae £61.36m ohono yn arian Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig. Bydd y gwerthoedd hyn yn cynyddu ymhellach wrth i geisiadau sy'n cael eu harfarnu gael eu cymeradwyo.

O ran cynlluniau economaidd-gymdeithasol yn y rhaglen, gwahoddwyd cyfanswm o 454 o ddatganiadau o ddiddordeb llwyddiannus a 118 o geisiadau uniongyrchol i gyflwyno cais llawn. Hyd yma, mae 357 (EOI ac uniongyrchol) o geisiadau wedi dod i law. Mae cyfanswm o 157 (EOI ac uniongyrchol) o weithrediadau wedi'u cymeradwyo gyda chyfanswm dyraniad,

yn cynnwys LEADER a cheisidau uniongyrchol o £129.2m. Bydd hyn yn cynyddu ymhellach dros y misoedd sydd i ddod o ganlyniad i gyfnodau datganiadau o ddiddordeb diweddar.

Cynnydd dangosyddion

Ar y cam hwn o gyflawni'r rhaglen, nid oes modd llunio rhagolygon yn erbyn dangosyddion ar gyfer pob Mesur/Maes Ffocws. Darperir gwerthoedd targed cymeradwy^[1] yn ôl Maes Ffocws hyd yn oed lle nad yw data rhagolygon ar gael eto.

Gellir priodoli'r amrywiannau rhwng rhagolygon a ffigurau gwirioneddol a nodir yn erbyn targedau dangosyddion ar gyfer y rhaglen i'r gwahaniaethau yn y ffordd y caiff elfennau'r rhaglen sy'n ymwneud â thir ac agweddau economaidd-gymdeithasol eu cyflawni. Ar gyfer y targedau allbwn nad oes rhagolygon ar eu cyfer eto, dylai data fod ar gael yn ystod y misoedd sydd i ddod, yn sgil canlyniadau a chymeradwyaethau o gyfnodau datganiadau o ddiddordeb. Bydd angen monitro gweithrediadau cymeradwy a chytundebau'n fanwl er mwyn sicrhau y caiff y canlyniadau a ddisgwyli'r eu sicrhau.

Adran 2: Cynnydd yn ôl Echel Blaenoriaeth

Blaenoriaeth 1: Annog pobl i gyfnewid gwybodaeth ac i arloesi ym maes amaethyddiaeth, coedwigaeth, ac mewn ardaloedd gwledig

Tabl 2: Cynnydd yn erbyn dangosyddion

Maes Ffocws	Mesur	Allbynnau	Targed	Rhagolwg
FA 1(a) Meithrin arloesi a'r sylfaen gwybodaeth mewn ardaloedd gwledig	1	Cyfanswm gwariant cyhoeddus (£'m)	£50m	£82.3m
	2	Cyfanswm gwariant cyhoeddus (£'m)	£13.07m	£11.5m
	16	Cyfanswm gwariant cyhoeddus (£'m)	£71.8m	£1.7m
FA 1(b) Cryfhau'r cysylltiadau rhwng amaethyddiaeth a coedwigaeth ac ymchwil arloesi	16.1	Nifer y grwpiau gweithredol EIP I'w cefnogi (sefydliad a gweithrediad)	45	45
	16.2 i	Nifer y gweithrediadau cydweithredu eraill (grwpiau, rhwydweithiau/clystyrau, prosiectau peilot....) (16.2 i 16.9)	1,102	0
	16.9			
FA 1(c) Meithrin dysgu gydol oes a hyfforddiant galwedigaethol yn y sectorau amaethyddol a choedwigaeth	1.1	Nifer o cyfranogwyr mewn hyfforddiant	13,000	13,000

WEFO, 30/04/2017

Trosglwyddo Gwybodaeth, Arloesi a Gwasanaethau Cynghori - Mesurau 1 a 2

Trosolwg

Dechreuodd y contractau ar gyfer y rhaglen, a elwir yn Cyswllt Ffermio, ar 1 Hydref 2015, gan gyd-daro â diwedd y gwasanaeth blaenorol. Mae'r Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth a'r Gwasanaeth Cynghori yn cael eu darparu gan Menter a Busnes. Lantra yng Nghymru sy'n arwain y gwaith o gyflwyno'r

¹Caiff gwerthoedd targedau eu diwygio unwaith y bydd addasiad y rhaglen gyntaf wedi'i dderbyn ac wedi'i gymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd.

Rhaglen Dysgu Gydol Oes a Datblygu. Mae cymhwysedd i gymryd rhan yn y rhaglen wedi cael ei ehangu i alluogi mwy o fusnesau ac unigolion sy'n gweithio yn y sectorau amaethyddol a choedwigaeth i gymryd rhan.

Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth: bydd y gweithgarwch yn canolbwyntio ar wella perfformiad amgylcheddol, effeithlonrwydd cynhyrchu, proffidioldeb, a sicrhau mwy o ymddygiad ac agweddau sy'n canolbwyntio ar fusnes drwy arferion rheoli cadarnhaol. Fel rhan o'r Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth, mae rhwydwaith Arddangos newydd i Gymru gyfan wedi cael ei sefydlu, sy'n cynnwys y canlynol:

- Safleoedd arloesi, wedi'u lleoli mewn safleoedd amaeth-academaidd blaenllaw yng Nghymru.
- Safleoedd Arddangos, sef rhwydwaith o safleoedd hirdymor sy'n edrych ar integreiddio technoleg newydd a/neu ddulliau rheoli newydd; codi safonau effeithlonrwydd ar y fferm; gostwng mewnbynnau, cynyddu allbynnau; proffidioldeb.
- Safleoedd ffocws, sy'n arddangos prosiectau untro neu dreialon ar ystod eang o bynciau.

Mae'r rhwydwaith arddangos yn cynnwys 8 Safle Arloesi, 12 o Ffermydd Arddangos a 68 o Safleoedd Ffocws. Mae amrywiaeth o brosiectau'n cael eu cynnal ar y safleoedd, er enghraifft mae ffermydd traws-sector wedi cael eu dewis i gymryd rhan ym 'Mhrosiect Porfa Cymru' a fydd yn mesur a monitro cyfraddau tyfiant glaswellt yn wythnosol. Bydd pob fferm yn defnyddio mesurydd plât i gasglu mesuriadau a hefyd yn cymryd samplau misol er mwyn dadansoddi'r ansawdd. Bydd pob fferm yn mesur tyfiant ac ansawdd y deunydd sych sydd ar gael ac yn nodi a chymharu'r gwahanol ddulliau rheoli glaswellt.

Mentora un i un

Datblygwyd y fenter hon er mwyn galluogi ffermwyr a choedwigwyr i gael arweiniad a chynghor gan eu cymheiriaid. Bwriedir i'r fenter fod o fudd i newydd-ddyfodiaid, busnesau sy'n ystyried newid cyfeiriad strategol sylweddol ac unigolion sydd am adael y diwydiant ac sy'n ystyried posibilïadau ffermio ar gontract neu gyd-ffermio. Hyd yma, mae 56 o fentoreion wedi manteisio ar y cymorth a'r cynghor ar amrywiaeth o bynciau, o reoli glaswelltir i sefydlu menter llaethdy organig neu fferm ffrwythau meddal.

Rhaglen Dysgu Gydol Oes a Datblygu:

Y nod yw sicrhau diwydiant ffermio a choedwigaeth mwy proffesiynol drwy gyfuniad o hyfforddiant uniongyrchol a darpariaeth e-ddysgu ar-lein. Hyd yma, mae 2,502 o fuddiolwyr wedi cael eu cymeradwyo ar gyfer hyfforddiant achrededig ers mis Hydref 2015. Mae 23 o fodiwlau e-ddysgu ar gael ar mae 41 o unigolion wedi eu cwblhau hyd yma. Mae'r pynciau e-ddysgu yn amrywio o iechyd a diogelwch i gyllid fferm a rheoli llyngyr yr afu ar fferm.

Gwasanaeth Cynggori:

Mae'r gwasanaeth cynggori yn rhoi cyngor annibynnol a phwrpasol i unigolion a grwpiau er mwyn gwella dulliau rheoli cynaliadwy a pherfformiad economaidd ac amgylcheddol busnesau ffermio a choedwigaeth sy'n gweithredu mewn ardaloedd gwledig.

Hyd yma, mae 619 o geisiadau gan unigolion a 58 gan grwpiau wedi cael eu cymeradwyo ar gyfer y gwasanaeth ers mis Rhagfyr 2016.

EIP-AGRI – Cymru:

Lansiwyd Partneriaeth Arloesi Ewrop (EIP) Cymru ym mis Ionawr 2016 a gwahoddir ceisiadau o hyd gan bobl sydd â diddordeb mewn datrys problemau sy'n gyffredin i'w grŵp. Caiff grwpiau eu cefnogi gan Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth Cyswllt Ffermio, sef cydweithrediad rhwng Cyswllt Ffermio ac IBERS, Prifysgol Aberystwyth.

Mae'r Ganolfan yn helpu'r grwpiau drwy ymchwilio i'r pwnc arfaethedig er mwyn deall yn well yr hyn sydd eisoes yn hysbys am y pwnc a rhoi gwybod i arweinwyr y prosiect am unrhyw fylchau yn y wybodaeth y gall fod angen ymchwilio iddynt. Mae'r Ganolfan hefyd yn rhoi cymorth ac arweiniad ar gynlluniau prosiectau, a bydd yn gweithio gyda'r grwpiau drwy gydol oes y prosiectau er mwyn helpu gyda'u canlyniadau a'r gwaith o'u rhannu. Os bydd y prosiect yn bodloni'r gofynion, caiff ei atgyfeirio at Lywodraeth Cymru a fydd yn gwahodd y grŵp i gyflwyno cais llawn.

Gall y Grwpiau Gweithredol hefyd geisio cymorth gan Frocer Arloesi. Mae'r Broceriaid Arloesi wedi'u hariannu'n llawn drwy Wasanaeth Cynggori Cyswllt Ffermio ac maent yn rhoi arweiniad a chymorth i'r Grŵp Gweithredol drwy gydol y broses o wneud cais. Hyd yma, mae Llywodraeth Cymru wedi cael 18 o atgyfeiriadau a phedwar cais llawn. Nid oes unrhyw brosiectau wedi'u cymeradwyo hyd yma.

Menter:

Nod Menter yw helpu i baru ffermwyr a pherchenogion tir sydd am gymryd cam yn ôl o'r diwydiant â newydd-ddyfodiaid sy'n chwilio am gyfle i ymuno â'r diwydiant ffermio. Mae'n tywys pobl ar y ddwy ochr drwy'r camau allweddol sydd eu hangen i ddod o hyd i ddarpar bartner busnes. Bydd pecyn integredig o hyfforddiant, mentora, cyngor arbenigol a chymorth busnes yn sicrhau bod gan gyfranogwyr y sgiliau, gwybodaeth a hyder sydd eu hangen i'w helpu i gyflawni eu nodau.

Hyd yma, mae 85 o newydd-ddyfodiaid a 55 o ffermwyr sefydledig wedi datgan diddordeb yn y rhaglen.

Mae unigolion sydd wedi dod o hyd i ddarpar bartneriaid busnes bellach yn symud ymlaen i wneud cais am gyngor i grŵp drwy'r gwasanaeth cynggori, a rhagor o arweiniad cyfreithiol lle bo angen. Rydym wedi nodi 26 o cysylltiadau posibl ar y cam hwn, ac mae pob un ohonynt ar gamau amrywiol o broses Menter.

Blaenoriaeth 2: Gwella hyfywedd a chystadleurwydd ffermydd ym mhob maes amaethyddol ac ym mhob rhanbarth gan hyrwyddo technolegau fferm arloesol a rheolaeth gynaliadwy ar gyfer coedwigoedd

Tabl 3: Cynnydd yn erbyn dangosyddion

Maes Ffocws	Mesur	Allbynnau	Targed	Rhagolwg
FA 2(a) Hwyluso aistrwythuro ffermydd s'yn wynebu problemau strwythurol mawr, yn enwedig ffermydd â gradd isel o gyfranogiad yn y farchnad, ffermydd sy'n canolbwyntio ar sectorau penodol yn y farchnad a ffermydd sydd angen arallgyfeirio amaethyddol	1.1	Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Nifer y cyfranogwyr mewn hyfforddiant	8,560	10,010
	1.1	Nifer o diwrnodau o hyfforddiant a roddwyd	16,160	8,008
	1.1	Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Cyfanswm gwariant cyhoeddus ar gyfer hyfforddiant/sgiliau	£3.7m	£3.2m
	1.2	Nifer o gweithrediadau arddangos / camau gwybodaeth a gefnogwyd	20	1,395
	1.3	Nifer gweithrediadau cyfnewid fferm a gefnogwyd	10	39
	1.1 - 1.3	Cyfanswm gwariant cyhoeddus (£'m) (hyfforddiant, cyfnewidiadau fferm, arddangos)	£34.8m	£42.7m
	2.1	Nifer o fuddiolwyr a gynghorwyd	5,160	2,963
	2.3	Nifer o cynghorwyr a hyfforddwyd	110	260
	2.1 - 2.3	Cyfanswm gwariant cyhoeddus (£'m)	£6.6m	£8.5m
	4.1	Nifer o daliadau a gefnogwyd ar gyfer buddsoddiad mewn daliadau amaethyddol	2,431	0
	4.1	Cyfanswm gwariant cyhoeddus (£'m)	£57.6m	£0.0m
	4.3	Cyfanswm gwariant cyhoeddus (£'m) ar gyfer buddsoddiadau mewn seilwaith	£1.8m	£0.0m
	4	Cyfanswm gwariant (£'m) (cyhoeddus a preifat)	£148.4m	£0.0m
	4	Cyfanswm gwariant cyhoeddus (£'m)	£59.4m	£0.0m
	16	Cyfanswm gwariant cyhoeddus (£'m)	£0.4m	£0.3m

WEFO, 30/04/2017

Maes Ffocws 2a

Hyd yma, gwahoddwyd 76 o ddatganiadau o ddiddordeb llwyddiannus i gyflwyno ceisiadau llawn o dan Flaenoriaeth 2 (Maes Ffocws 2a) y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy, mae 4 wedi tynnu'n ôl, yn gadael cyfanswm lefel neilltuo grant o £13.4m.

O'r rhain

- Mae 43 o geisiadau llawn yn cael eu harfarnu, sef lefel neilltuo grant o £6.5m
- Mae 13 yn dal heb gael eu cyflwyno, sef lefel neilltuo grant o £3m. Mae 16 o geisiadau eraill wedi cael eu cymeradwyo, sydd â chyfanswm gwerth grant o £3.13m. O'r rhain mae 14 wedi'i dderbyn (2.8m)
- Mae 4 wedi tynnu'n ôl/wedi ei wrthod, sef gwerth grant o £0.81m

Mae unarddeg ymgeisydd uniongyrchol wedi cael eu gwahodd i gyflwyno ceisiadau llawn, sy'n golygu cyfanswm lefel neilltuo grant o £32.1m. O'r rhain mae 9 o geisiadau llawn yn cael eu harfarnu, sef lefel neilltuo grant o £31.9m. Caiff ceisiadau llawn eu cyflwyno hyd at ddyddiad cau'r cyfnod cyllido a fydden yn cael eu phrosesu wrth iddynt ddod i law. Bydd adroddiadau i Bwyllgor Monitro'r Rhaglenni yn y dyfodol yn dangos y cynnydd hyd yma o ran gwariant a dangosyddion y ceisiadau llawn hyn.

Ar hyn o bryd, ni chaiff data ar ddangosyddion eu cofnodi cyn i broffil cyflawni'r gweithrediad gael ei gwblhau. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gasglu'r data hyn pan gaiff y cais llawn ei gyflwyno.

Mae'r cynllun Grant Cynhyrchu Cynaliadwy o dan Fesur 4.1 yn darparu buddsoddiad cyfalaf er mwyn helpu ffermwyr i wella perfformiad economaidd ac amgylcheddol eu daliad amaethyddol yn unol â gweledigaeth Llywodraeth Cymru a'r diwydiant amaethyddiaeth yng Nghymru ar gyfer busnesau fferm mwy cynaliadwy, proffidiol a chydnerth. Mae grantiau yn cyfrif am gyfraniad o 40% a gall amrywio o isafswm o £16k hyd at uchafswm o £400k i gynyddu buddsoddi ar y fferm, cynhyrchiant ac effeithlonrwydd o ran adnoddau er mwyn gwella perfformiad technegol.

Hyd yma, cynhaliwyd tri chylch o'r SPG, y cyntaf am gyllideb o £2.0m gyda 172 EOIs wedi'i dderbyn a 12 o fuddiolwyr yn cael eu gwahodd i gyflwyno cais llawn a'r ail am £6.0m gyda 172 EOIs wedi'i dderbyn a 39 o fuddiolwyr. O dan y trydydd cylch, sydd hefyd yn werth £6.0m, cyflwynwyd 152 EOIs y chafodd 30 ohonynt eu gwahodd i ail gam y broses i gwneud cais. Mae taliadau grant gwerth cyfanswm o £0.33m wedi cael eu talu i bedwar buddiolwr.

Blaenoriaeth 3: Hyrwyddo trefniadaeth y gadwyn fwyd a rheoli risg mewn amaethyddiaeth

Tabl 4: Cynnydd yn erbyn dangosyddion

Maes Ffocws	Mesur	Allbynnau	Targed	Rhagolwg
FA 3(a) Integreiddio gwell o gynhyrchwyr cynradd yn y gadwyn fwyd drwy gynlluniau o ansawdd, hyrwyddo mewn marchnadoedd lleol a chyhoedd	1.1	Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Nifer y cyfranogwyr mewn hyfforddiant	1,000	650
	1.1	Nifer o ddiwrnodau hyfforddiant a roddwyd	1,000	520
	1.1	Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Cyfanswm gwariant cyhoeddus ar gyfer hyfforddiant/sgiliau	£0.2m	£0.2m
	1.2	Nifer o weithrediadau arddangos / camau gwybodaeth a gefnogwyd	15	91
	1.1 - 1.3	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ (hyfforddiant, cyfnewidiadau fferm, arddangos)	£2.3m	£2.8m
	2.1	Nifer o buddiolwyr a gynghorwyd	600	303
	2.3	Nifer o cynghorwyr a hyfforddwyd	110	27
	2.1 - 2.3	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£0.8m	£0.9m
	4.1 + 4.2	Nifer o weithrediadau a gefnogwyd ar gyfer fuddsoddiad (ee mewn taliadau amaethyddol, mewn prosesu ac mewn marchnata cynnyrch amaethyddol) (4.1 and 4.2)	120	0
	4	Cyfanswm gwariant £ (cyhoeddus a preifat)	£99.5m	£0.0m
	4	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£40.0m	£0.0m
	16.4	Nifer o daliadau amaethyddol yn cymryd rhan mewn cydweithredu/hybu lleol ymhlith gweithredwyr yn y gadwyn gyflenwi (16.4)	165	0
	16	Nifer y gweithrediadau cydweithredu a gefnogwyd (nid EIP)	80	0
	16	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£22.2m	£0.1m

WEFO, 30/04/2017

Maes Ffocws 3a

Hyd yma, gwahoddwyd 109 o ddatganiadau o ddiddordeb llwyddiannus i gyflwyno cais llawn o dan Flaenoriaeth 3 (Maes Ffocws 3a) y Rhaglen. O'r rhain, mae 64 o geisiadau llawn yn cael eu harfarnu ar hyn o bryd neu wedi cael eu cymeradwyo ac mae 32 yn dal heb gael eu cyflwyno, sef cyfanswm lefel neilltuo grant o £40.3m sy'n cynnwys:

- Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio: 2 o geisiadau llawn yn cael eu harfarnu (£0.92m); 14 o geisiadau wedi eu cymeradwyo (£4.1m); 6 wedi'i wrthod (£1.4m)
- Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd: 23 o geisiadau llawn yn cael eu harfarnu (£11.2m); 25 o geisiadau wedi eu cymeradwyo (£22.8m), o'r rhain mae 24 wedi'i dderbyn (£22.3m); mae 32 o geisiadau eto i'w dderbyn (£1.3m) a 7 wedi'i wrthod (£1.02m)

Mae pump ymgeisydd uniongyrchol wedi cyflwyno ceisiadau llawn ar gyfer y Cynllun Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi o dan Fesur 1.1 ac mae pedwar wedi cael eu cymeradwyo, gyda chyfanswm lefel neilltuo grant o £22.2m.

Caiiff ceisiadau llawn eu cyflwyno hyd at ddyddiad cau'r cyfnod cyllido a chânt eu prosesu wrth iddynt ddod i law. Bydd adroddiadau yn y dyfodol yn dangos cynnydd hyd yma o ran gwariant a dangosyddion y ceisiadau llawn hyn. Ar hyn o bryd, ni chaiff data ar ddangosyddion eu cofnodi cyn i broffil cyflawni'r

gweithrediad gael ei gwblhau. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gasglu'r data hyn pan gaiff y cais llawn ei gyflwyno.

Blaenoriaeth 4: Adfer, gwarchod a gwella ecosystemau sy'n dibynnu ar amaethyddiaeth a choedwigaeth

Tabl 5: Cynnydd yn erbyn dangosyddion

Maes Ffocws	Mesur	Allbynnau	Targed	Rhagolwg	Cyflawnwyd hyd yn hyn	
Blaenoriaeth 4:	1.1	Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Nifer o cyfranogwyr mewn hyfforddiant		995	1,040	0
Adfer, gwarchod a gwella ecosystemau sy'n dibynnu ar amaethyddiaeth a choedwigaeth	1.1	Nifer o ddiwrnodau hyfforddiant a roddwyd		1,911	832	0
	1.1	Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Cyfanswm gwariant cyhoeddus ar gyfer hyfforddiant/sgiliau	£0.4m	£0.3m	£0.0m	
	1.2	Nifer o weithrediadau arddangos / camau gwybodaeth a gefnogwyd		55	145	0
	1.3	Nifer o weithrediadau cyfnewid fferm a gefnogwyd		14	4	0
	1.1 -1.3	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ (hyfforddiant, cyfnewidiadau fferm, arddangos)	£4.2m	£4.4m	£0.0m	
	2.1	Nifer o buddiolwyr a gynghorwyd		1,330	758	0
	2.3	Nifer o gynghorwyr a hyfforddwyd		114	67	0
	2.1 - 2.3	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£2.0m	£2.2m	£0.0m	
	4.4	Nifer o weithrediadau cymorth ar gyfer fuddsoddiadau anghynhyrchiol (4.4)		16,425	9,453	99
	4	Cyfanswm gwariant £ (cyhoeddus a preifat)	£169.5m	£107.0m	£0.4m	
	4	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£169.5m	£107.0m	£0.4m	
	8.1	Arwynebedd (ha) i gael ei coedwigo (sefydliad yn unig-8.1)		2,160	2,000	435
	8.1	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£11.5m	£10.6m	£1.8m	
	8.2	Arwynebedd (ha) i'w sefydlu mewn systemau amaeth-coedwigaeth (8.2)		147	50	1
	8.2	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ (8.2)	£0.4m	£0.2m	£0.0m	
	10.1	Cyfanswm arwynebedd (ha) o dan hinsawdd amaeth-amgylcheddunder (10.1)				
	10.1	Arwynebedd Ffisegol (ha) o dan hinsawdd ameth-amgylchedd (10.1)		688,000	528,010	676,469
	10.1	Nifer o contractau a gefnogwyd		11,585	7,338	6,877
	10.1	Cyfanswm gwariant cyhoeddus (£) (10.1+10.2)	£243.4m	£230.1m	£28.2m	
	11.1	Nifer o daliadau a gefnogwyd		400	201	147
	11.1	Arwynebedd (ha) a trosglwywyd i ffermio organig		48,000	11,153	15,018
	11.2	Nifer y daliadau a gefnogwyd		600	341	446
	11.2	Arwynebedd (ha) cynnal ffermio organig		72,000	57,287	57,544
	11	Cyfanswm gwariant cyhoeddus (£)	£44.0m	£21.2m	£3.9m	
	16	Nifer o weithrediadau cydweithredu a gefnogwyd (dim EIP)		30	0	0
	16	Cyfanswm gwariant cyhoeddus (£)	£8.4m	£0.4m	£0.0m	

WEFO, 30/04/2017

Maes Ffocws	Mesur	Allbynnau	Targed	Rhagolwg	Cyflawnwyd hyd yn hyn	
Priority 4: Adfer, gwarchod a gwella ecosystemau sy'n dibynnu ar amaethyddiaeth a choedwigaeth (ardal coedwigaeth)	1.1	Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Nifer o cyfranogwyr mewn hyfforddiant		105	130	0
	1.1	Nifer o ddiwrnodau hyfforddiant a roddwyd		189	104	0
	1.1	Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Cyfanswm gwariant cyhoeddus ar gyfer hyfforddiant/sgiliau		£0.04m	£0.04m	£0.00m
	1.2	Nifer o gweithrediadau arddangos / camau gwybodaeth a gefnogwyd		5	18	0
	1.3	Nifer o weithrediadau cyfnewid fferm a gefnogwyd		1	1	0
	1.1 - 1.3	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ (hyfforddiant, cyfnewidiadau fferm, arddangos)		£0.4m	£0.4m	£0.0m
	2.1	Nifer o buddiolwyr a gynghorwyd		70	51	0
	2.3	Nifer o cynghorwyr a hyfforddwyd		6	4	0
	2.1 - 2.3	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £		£0.1m	£0.1m	£0.0m
	8.3	Nifer o fuddiolwyr ar gyfer camau gweithredu ataliol (8.3)		0.25	0	0
	8.3	Arwynebedd a gefnogwyd (ha)		76,000	0	0
	8.3	Cyfanswm gwariant cyhoeddus (£)		£0.3m	£0.0m	£0.0m
	8.4	Nifer o fuddiolwyr a gefnogwyd		55	0	47
	8.4	Arwynebedd a gefnogwyd (ha)		530	0	358
	8.4	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £		£1.2m	£0.0m	£0.8m
	8.5	Nifer o weithrediadau (fuddsoddiadau ar gyfer wella gwydnwch a werth ecosystemau coedwigaeth) (8.5)		1,745	501	129
	8.5	Ardaloedd sy'n gysylltiedig a fuddsoddiadau gwella gwydnwch a gwerth amgylcheddol ecosystemau coedwigoedd (8.5)		32,850	7,000	335
	8.5	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £		£15.1m	£5.6m	£0.3m
	15.1	Nifer o contractau a gefnogwyd		70	0	0
	15.1	Ardaloedd dan gontract amgylchedd coedwig		700	0	0
	15.1	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £		£0.3m	£0.0m	£0.0m
	16	Nifer o weithrediadau cydweithredu a gefnogwyd (dim EIP)		215	0	0
	16	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £		£4.6m	£0.1m	£0.0m

WFO. 30/04/2017

WEFO, 30/04/2017

Mae'r diweddariad ar gyfer y Flaenoriaeth hon yn canolbwyntio ar gynnydd o dan Glastir hyd yma. Noder bod y naratif, yma, hefyd yn ymdrin â Meysydd Ffocws 5d a 5e o dan Flaenoriaeth 5. Ceir rhagor o fanylion isod.

Mae **Glastir** yn ymdrin a'r meysydd ffocws canlynol:

- Glastir Sylfaenol, Glastir Uwch a Grantiau Bach Glastir - meysydd canolbwyntio 4a, 4b, 5d a 5e.
- Glastir - Tir Comin - Maes Ffocws 4a.
- Glastir Organig - Maes Ffocws 4c.
- Glastir - Creu Coetir - pob un o Feysydd Ffocws Blaenoriaeth 4 a Maes Canolbwyntio 5e.
- Glastir - Rheoli ac Adfer Coetir - Meysydd Ffocws 4a a 5e.

Mae **Mesur 10.1** yn cynnwys Glastir Sylfaenol, Glastir Uwch a Glastir - Tir Comin. Mae hefyd yn cynnwys taliadau amflwydd ar sail arwynebedd ar gyfer coetiroedd fferm sy'n bodoli eisoes o dan Glastir - Rheoli Coetir a chafwyd cyfanswm gwariant o £51.2m. Yn yr adroddiad blaenorol, nodwyd bod cyfanswm o 7,338 o gontractau ac arwynebedd o 528,010 hectar wedi'u cyflawni. Dylid nodi i'r ffigurau hyn gael eu cynnwys ar gam a'r ffigur a ragwelir ydynt. Y nifer wirioneddol o gontractau o dan M.10.1 yw 6,877 sy'n cwmpasu arwynebedd o 676,469 hectar.

Mae **Glastir Sylfaenol** wedi sicrhau cyfanswm o 4,603 o gontractau (unwaith eto, y ffigur a ragwelir oedd y ffigur a nodwyd yn flaenorol), sef cyfanswm arwynebedd o 543,496 hectar o'i gymharu ag arwynebedd o 548,750 hectar a ragwelir. Ni chaiff unrhyw gontractau Sylfaenol eraill eu cynnig, gan fod

Llywodraeth Cymru o'r farn bod ymyriadau wedi'u targedu'n fwy, megis y rhai o dan Glastir Uwch a, bellach, Grantiau Bach Glastir yn fwy priodol er mwyn cyflawni ei hamcanion. Bydd cyfranogwyr Glastir Sylfaenol y mae eu contractau yn dod i ben ym mis Rhagfyr yn cael cyfle i wneud cais i Grantiau Bach Glastir, sef cynllun cyfalaf a ariennir drwy Fesur 4.4 sy'n mynd i'r afael â Meysydd Ffocws 4a a 4b Blaenoriaeth 4, yn ogystal â Meysydd Ffocws 5d a 5e Blaenoriaeth 5.

Bwriad Llywodraeth Cymru o hyd yw estyn contractau Glastir Sylfaenol sy'n ategu contractau Glastir Uwch er mwyn iddynt orffen ar yr un pryd. Byddai hyn yn golygu y byddai rhai contractau Glastir Sylfaenol yn cael eu hestyn rhwng 1 a 3 blynedd.

Mae **Glastir Uwch** bellach yn cynnwys 2,082 o gontractau ac, o'r rhain, mae 495 yn gontractau ar wahân, mae 1508 o gontractau wedi'u hategu gan Glastir Sylfaenol ac mae 79 o gontractau eraill yn rhan o Glastir – Tir Comin. Y gwariant dan y Rhaglen Datblygu Gwledig hon yw £13.9m ar gyfer Mesur 4.4 a £16.9m ar gyfer Mesur 10.1. Hyd yma.

Agorodd cyfnod datganiadau o ddiddordeb ar gyfer contractau Glastir Uwch 2018 ar 28 Chwefror a daeth i ben ar 31 Mawrth 2017. Gwerth a ragwelir y cyfnod datganiadau o ddiddordeb ar gyfer Glastir Uwch 2018 yw £18.360m. Mae 380 o ddatganiadau o ddiddordeb wedi cael eu dewis ar gyfer Ymweliadau Rheolwyr Contract yn ystod gweddill y flwyddyn, gydag 80 arall ar y rhestr wrth gefn.

Mae **Glastir – Tir Comin** bellach wedi cau ac mae'n cynnwys 197 o gontractau sy'n ymestyn dros 119,069 hectar o dir. Cyfanswm y gwariant dan y Rhaglen Datblygu Gwledig hon yw £5.1m ar gyfer Mesur 10.1. Bydd pob contract sydd yn gymwys yn cael cynnig estyniad tan 2019, fel bod amser i Gymdeithasau Pori ystyried systemau cyllido eraill megis y Cynllun Rheoli Cynaliadwy neu brosbectysau taliadau am wasanaethau ecosystem.

Mae **Mesur 11 – Glastir Organig** yn helpu ffermwyr i newid i arferion ffermio organig (Mesur 11.1) neu eu cynnal (Mesur 11.2). Ar ôl tri chylch o geisiadau Glastir Organig, cafwyd 147 o gontractau, o gymharu â 201 a ragwelwyd a tharged o 400, i newid i arferion ffermio organig a 446 o gontractau, o gymharu â 341 a ragwelwyd a tharged o 600, i gynnal arferion ffermio organig, sy'n cwmpasu arwynebedd o 72,562 hectar (15,018 hectar ar gyfer Mesur 11.1 a 57,544 ar gyfer Mesur 11.2). Daeth y trydydd cylch gwneud cais ar gyfer Glastir Organig, gyda chyllideb o £1.5m, i ben ar 4 Tachwedd 2016, gyda 153 o ddatganiadau o ddiddordeb wedi'u cyflwyno, sy'n cwmpasu arwynebedd o 16,628 hectar ac yn werth £6,217,964 ac, felly, cynhaliwyd proses ddethol er mwyn cadw o fewn y gyllideb a ddyrannwyd. Hyd yma, talwyd cyfanswm o £7.4m i helpu ffermwyr Glastir Organig.

O dan **Fesur 8.1& 8.2 – Glastir – Creu Coetir**, crëwyd 436 hectar o goetir newydd. Mae'r rhan fwyaf wedi'i greu o dan Fesur 8.1 – Coedwigo a chreu coetir, gyda dim ond 1 hectar o dan Fesur 8.2 – Amaeth-goedwigaeth. Cyfanswm y gwariant hyd yma yw £1.87m, y mae £0.6m ohono wedi'i briodoli

i Faes Ffocws 5e. Ni wneir yr hawliadau cyntaf ar gyfer cynnal a chadw ac incwm a gollwyd tan SAF2017. Agorwyd trydydd cylch ar gyfer Glastir – Creu Coetir, gyda chyllideb o £1.7m, ar 30 Awst a daeth i ben ar 14 Hydref. Daeth 95 o ddatganiadau o ddiddordeb i law gyda chyfanswm o 787.45 hectar o arwynebedd plannu wedi'i gyflwyno â gwerth cyfalaf o £2.8m. Cynhaliwyd proses ddethol er mwyn cadw o fewn y gyllideb a ddyrannwyd a gwahoddwyd 66 o ddatganiadau o ddiddordeb i gyflwyno cynlluniau creu coetir.

Dechreuodd pedwerydd cylch ar gyfer Glastir – Creu Coetir ar 20 Mawrth a daeth i ben ar 1 Mai. Mae'r arwyddion cychwynnol nad ydynt wedi'u dilysu yn dangos bod 103 o ddatganiadau o ddiddordeb wedi dod i law ar gyfer plannu 1224 hectar o goetir newydd, gyda gwerth cyfalaf plannu o fwy na £4m. Mae'n debygol iawn y bydd hyn yn golygu y bydd angen cynnal proses ddethol er mwyn sicrhau bod y cynllun yn aros o fewn y gyllideb.

Mae **Mesur 8.5 – Glastir – Rheoli Coetir** yn cynnwys contractau etifeddol yn unig o'r Rhaglen Datblygu Gwledig flaenorol ac fe'i telir drwy Fesur 8.5 ar gyfer taliadau cyfalaf a Mesur 10.1 ar gyfer taliadau amlflwydd sy'n seiliedig ar arwynebedd. Ar hyn o bryd, mae 268 o gontractau ar waith, gyda gwariant gwerth £2.08m o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig hon ar gyfer Mesur 8.5. Mae **Mesur 8.4 – Glastir – Adfer Coetir** yn rhoi cymorth i ailstocio coetiroedd llarwydd sydd wedi cael eu heintio neu eu peryglu gan y pathogen ffwngaid *Phytophthora ramorum* a bu pedwar cylch i gyflwyno datganiadau o ddiddordeb o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig hon. Hyd yma, cafwyd gwariant o £0.87m o dan y ddau gyfnod cyntaf, sy'n golygu bod arwynebedd o 317 hectar o goetir yn cael ei adfer a 230 hectar arall o waith plannu wedi'i gymeradwyo i'w gwblhau erbyn mis Ebrill 2017. Bwriedir agor dau gyfnod arall ar gyfer Glastir – Adfer Coetir ym mis Mehefin 2017 chyllideb o £1.0m. Agorodd pedwerydd cylch Glastir – Adfer Coetir, gyda chyllideb o £1m, ar 30 Awst a daeth i ben ar 30 Medi 2016. Cyflwynwyd 23 o ddatganiadau o ddiddordeb a oedd yn cwmparu cyfanswm arwynebedd ailstocio o 122.61 hectar â gwerth cyfalaf o £289k. Gellid priodoli'r ffigur isel hwn i reolau cyfyngol presennol Glastir – Adfer Coetir ar gyfer Planhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol (PAWS). Ar gyfer y cylch nesaf o Glastir – Adfer Coetir, caiff grant cynllunio rheoli ei gynnig er mwyn ei gwneud yn bosibl i gyflwr Safle Coetir Hynafol gael ei gadarnhau gan arbenigwr ac i gymysgedd ailstocio gael ei gymhwyso sy'n dibynnu ar allu'r safle i adfer, yn hytrach na'i leoliad, a ddylai annog mwy o reolwyr coetir i wneud cais.

Mesur 2 – Cymorth cynghorol. O dan y rhaglen hon, mae Glastir yn bwriadu defnyddio cymorth cynghorol i drefnu i gynlluniau rheoli dŵr gael eu cynnal ac i gynlluniau coetir gael eu dilysu yn erbyn Safon Coedwigaeth y DU gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Hefyd, mae angen defnyddio arbenigedd ymddiriedolaethau archeolegol Cymru i roi cyngor i Reolwyr Contract ar y dull rheoli mwyaf addas ar gyfer contractau Glastir Uwch. Hyd yma, ni ddylai unrhyw gyllid.

At hynny, gwnaeth adroddiad panel Gwerthuso Annibynnol Glastir Uwch nifer o argymhellion gan gynnwys yr argymhelliad bod angen mwy o arweiniad, cymorth a hyfforddiant o safon uwch ar Reolwyr Contract a bod angen mwy o

ymweliadau dilynol a chyngor i Gontractau. I'r perwyl hwn, dechreuodd Llywodraeth Cymru gwasanaeth a allai gyflawni cylch gwaith yr argymhellion hyn. O ystyried y sefyllfa ansicr bresennol ynglŷn â chyllid yn y dyfodol, ac er mwyn sicrhau nad oes rhagor o oedi cyn cyflawni'r elfen bwysig hon o ddarpariaeth gynghorol, mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu defnyddio adnodd Rheolwr Contract Glastir Uwch i gyflawni unedau gwasanaethu. Mae'r opsiynau ar gyfer darparu a chaffael cyngor arbenigol i reolwyr contract yn dal i gael eu hystyried.

Mae'r Flaenoriaeth hon hefyd yn cwmpasu Maes Ffocws P4, Cynllun Rheoli Cynaliadwy a Phartneriaeth Arloesi Ewrop. Hyd yma, gwahoddwyd 24 o ddatganiadau o ddiddordeb llwyddiannus i gyflwyno ceisiadau llawn i'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy, sef cyfanswm lefel neilltuo grant o £11.1m. Mae pedwar ar bymthego geisiadau llawn wedi cael eu gwahodd i gyflwyno o dan Partneriaeth Arloesi Ewrop. Nid yw cyfanswm y lefel neilltuo grant ar gael ar gyfer Partneriaeth Arloesi Ewrop eto.

Blaenoriaeth 5: Hyrwyddo effeithlonrwydd o ran adnoddau a chynorthwyo'r gwaith o symud at economi carbon isel, sy'n gallu gwrthsefyll effeithiau'r hinsawdd, yn y sectorau amaethyddiaeth, bwyd a choedwigaeth

Tabl 6: Cynnydd yn erbyn dangosyddion

Maes Ffocws	Mesur	Allbynnau	Targed	Rhagolwg
FA 5(b) Cynyddu effeithlonrwydd yn y defnydd o ynni mewn amaethyddiaeth a phrosesu bwyd	1.1	Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Nifer o gyfranogwyr mewn hyfforddiant	64	260
	1.1	Nifer o ddiwrnodau hyfforddiant a roddwyd	124	208
	1.1	Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Cyfanswm gwariant cyhoeddus ar gyfer hyfforddiant/sgiliau	£0.02m	£0.08m
	1.2	Nifer o weithrediadau arddangos / camau gwybodaeth a gefnogwyd	20	36
	1.3	Nifer o weithrediadau cyfnewid fferm a gefnogwyd	5	1
	1.1 -1.3	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ (hyfforddiant, cyfnewidiadau fferm, arddangos)	£0.26m	£1.11
	2.1	Nifer o fuddiolwyr a gynghorwyd	98	83
	2.3	Nifer o gynghorwyr a hyfforddwyd	2	7
	2.1 - 2.3	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£0.21m	£0.24m
	4.1, 4.2 & 4.3	Nifer o weithgariadau a gefnogwyd ar gyfer buddsoddiad mewn taliadau amaethyddol, mewn prosesu a marchnata	286	0
	4	Cyfanswm gwariant £ (cyhoeddus a preifat)	£16.9m	£0.0m
	4	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£6.8m	£0.0m
	16	Nifer o weithrediadau cydweithredu a gefnogwyd (dim EIP)	20	0
	16	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£5.2m	£0.2m

WEFO, 30/04/2017

Maes Ffocws	Mesur	Allbynnau	Targed	Rhagolwg
FA 5(c) Hwyluso cyflenwad a defnydd adnoddau adnewyddadwy o ynni, o sgil-gynhyrchion, gwastraff, gweddillion a deunyddiau crai eraill nad ydynt yn fwyd at ddibenion y fio-economi.	1.1	Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Nifer y cyfranogwyr mewn hyfforddiant	68	260
	1.1	Nifer o ddiwrnodau hyfforddiant a roddwyd	128	208
	1.1	Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Cyfanswm gwariant cyhoeddus ar gyfer hyfforddiant/sgiliau	£0.03m	£0.08m
	1.2	Nifer o weithrediadau arddangos / camau gwybodaeth a gefnogwyd	20	36
	1.3	Nifer o weithrediadau cyfnewid fferm a gefnogwyd	5	1
	1.1 -1.3	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ (hyfforddiant, cyfnewidiadau fferm, arddangos)	£0.3m	£1.11m
	2.1	Nifer o fuddiolwyr a gynghorwyd	98	66
	2.3	Nifer gynghorwyr a hyfforddwyd	2	6
	2.1 - 2.3	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£0.17m	£0.19m
	4.1 + 4.3	Nifer o weithgareddiadau a gefnogwyd ar gyfer buddsoddiad (4.1, 4.3)	187	0
	4	Cyfanswm gwariant £ (cyhoeddus a preifat)	£4.0m	£0.0m
	4	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£1.6m	£0.0m
	7.2	Nifer o weithgareddiadau a gefnogwyd ar gyfer buddsoddiad mewn seilwaith graddfa fechan yn cynnwys buddsoddiadau mewn ynni adnewyddadwy ac arbed ynni (7.2)	197	0
	7	Cyfanswm gwariant £ (cyhoeddus a preifat)	£19.6m	£0.0m
	7	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£16.3m	£0.0m
	8.5	Nifer o weithgareddiadau (buddsoddiadau i wella cydnherthu a gwerth systemau eco coedwigaeth (8.5)	25	0
	8.5	Ardaloedd sy'n gysylltiedig a fuddsoddiadau gwella gwydnwch a gwerth amgylcheddol ecosystemau coedwigoedd (8.5)	1,870	0
	8.5	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£0.04m	£0.00m
	8.6	Nifer o weithgareddiadau ar gyfer fuddsoddiadau mewn technoleg coedwigaeth a prosesu cynradd/marchnata (8.6)	250	0
	8.6	Cyfanswm gwariant £ (cyhoeddus a preifat) (8.6)	£19.3m	£0.0m
	8.6	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£8.2m	£0.0m
	16	Nifer o weithrediadau cydweithredu a gefnogwyd (dim EIP)	135	0
	16	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£12.3m	£0.1m

WEFO, 30/04/2017

Maes Ffocws	Mesur	Allbynnau	Targed	Rhagolwg	Cyflawnwyd hyd yn hyn	
FA 5(d) Lleihau ocsid nitraidd a methan o amaethyddiaeth	1.1	Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Nifer y cyfranogwyr mewn hyfforddiant		884	260	0
	1.1	Nifer o ddiwrnodau hyfforddiant a roddwyd		1,684	208	0
	1.1	Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Cyfanswm wariant cyhoeddus ar gyfer hyfforddiant/sgiliau		£0.34m	£0.08m	£0.0m
	1.2	Nifer o weithrediadau arddangos / camau gwybodaeth a gefnogwyd		20	36	0
	1.3	Nifer o weithrediadau cyfnewid fferm a gefnogwyd		5	1	0
	1.1 -1.3	Cyfanswm wariant cyhoeddus £ (hyfforddiant, cyfnewidiadau fferm, arddangos)		£3.7m	£1.1m	£0.0m
	2.1	Nifer o fuddiolwyr a gynghorwyd		1,120	588	0
	2.3	Nifer o gynghorwyr a hyfforddwyd		2	52	0
	2.1 - 2.3	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £		£1.5m	£1.7m	£0.0m
	4.1, 4.3 & 4.4	Nifer o weithrediadau a gefnogwyd ar gyfer fuddsoddiad (ee storio tail, triniaeth tail) (4.1, 4.4 and 4.3)		143	150	7
	4	Cyfanswm gwariant £ (cyhoeddus a preifat)		£8.5m	£0.09m	£0.0m
	4	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £		£3.4m	£0.09m	£0.0m
	10.1	Arwynebedd (ha) (ee gorchudd gwyrdd, is-gnwd, ffrwythloni llai, dad-ddwysai ...)		199,766	59,807	0
	10.1	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £		£17.9m	£11.67m	£0.0m
	16	Nifer o weithrediadau cydweithredu a gefnogwyd (nid EIP)		20	0	0
16	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £		£5.2m	£0.2m	£0.0m	

WEFO, 30/04/2017

Maes Ffocws	Mesur	Allbynnau	Targed	Rhagolwg	Cyflawnwyd hyd yn hyn	
FA 5(e) Meithrin dal a storio carbon ym maes amaethyddiaeth a choedwigaeth	1.1	Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Nifer y cyfranogwyr mewn hyfforddiant		84	260	0
	1.1	Nifer o ddiwrnodau hyfforddiant a rhoddwyd		164	208	0
	1.1	Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Cyfanswm gwariant cyhoeddus ar gyfer hyfforddiant/sgiliau		£0.03m	£0.08m	£0.0m
	1.2	Nifer o weithrediadau arddangos / camau gwybodaeth a gefnogwyd		20	36	0
	1.3	Nifer o weithrediadau cyfnewid fferm a gefnogwyd		5	1	0
	1.1 - 1.3	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ (hyfforddiant, cyfnewidiadau fferm, arddangos)		£0.3m	£1.1m	£0.0m
	2.1	Nifer o fuddiolwyr a gynghorwyd		84	76	0
	2.3	Nifer y gynghorwyr a hyfforddwyd		2	7	0
	2.1 - 2.3	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £		£0.20	£0.22	£0.0m
	4.4	Nifer o weithrediadau a gefnogwyd mewn fuddsoddiad anghynhyrchiol (4.4)		5,090.00	151.00	0.00
	4	Cyfanswm gwariant £ (cyhoeddus a preifat)		£3.6m	£0.36m	£0.0m
	4	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £		£1.3m	£0.36m	£0.0m
	8.1	Arwynebedd (ha) i gael ei goedwigo (sefydliad yn uig-8.1)		1,440	832	19
	8.1	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £		£7.66m	£4.43m	£0.08m
	8.2	Arwynebedd (ha) i'w sefydlu mewn systemau amaeth-coedwigaeth (8.2)		147	50	1
	8.2	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £		£0.4m	£0.20m	£0.002m
	8.3	Nifer o fuddiolwyr ar gyfer camau gweithredu ataliol		1	0	0
	8.3	Arwynebedd a gefnogwyd (ha)		225,000	0	0
	8.3	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ (8.3)		£0.78m	£0.0m	£0.0m
	8.4	Nifer y fuddiolwyr a gefnogwyd		160	184	0
	8.4	Arwynebedd a gefnogwyd (ha)		1,591	1,781	0
	8.4	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ (8.4)		£3.7m	£4.02m	£0.75m
8.5	Nifer y weithrediadau (fuddsoddiadau ar gyfer gwella gwydnwch a gwerth ecosystemau coedwigaeth) (8.5)		1,850	393	30	
8.5	Ardaloedd sy'n gysylltiedig a buddsoddiadau gwella gwydnwch a gwerth amgylcheddol ecosystemau coedwigoedd (8.5)		22,000	3,000	0	
8.5	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ (8.5)		£10.0m	£2.72m	£0.0m	
10.1	Arwynebedd ffisegol (ha) o dan hinsawdd amaeth-amgylchedd ar gyfer dal a storio carbon		585	1,140	0	
10.1	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £		£2.2m	£1.06m	£0.0m	
16	Nifer y gweithgariadau cydwethredu a gefnogwyd (dim EIP)		220	0	0	
16	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £		£5.5m	£0.2m	£0.0m	

WEFO, 30/04/2017

Maes Ffocws 5c

Hyd yma, gwahoddwyd chwech datganiad o ddiddordeb llwyddiannus i gyflwyno cais llawn o dan Flaenoriaeth 5 (Maes Ffocws 5c), sef cyfanswm lefel neilltuo grant o £0.57m. O'r rhain, mae un cais llawn yn cael eu harfarnu ar hyn o bryd, mae pedwar yn dal heb gael eu cyflwyno ac mae un wedi cael ei wrthod.

Caiff ceisiadau llawn eu cyflwyno hyd at ddyddiad cau'r cyfnod cyllido a chânt eu prosesu wrth iddynt ddod i law. Bydd adroddiadau yn y dyfodol yn dangos cynnydd hyd yma o ran gwariant a dangosyddion y ceisiadau llawn hyn. Ar hyn o bryd, ni chaiff data ar ddangosyddion eu cofnodi cyn i broffil cyflawni'r gweithrediad gael ei gwblhau. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gasglu'r data hyn pan gaiff y cais llawn ei gyflwyno.

Gweler cynnydd cynlluniau Glastir dan Flaenoriaeth 5 (Meysydd Ffocws 5d a 5e) o dan y diweddariad o Flaenoriaeth 4.

Blaenoriaeth 6: Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, gwaith i leihau tlodi a datblygu'r economi mewn ardaloedd gwledig

Tabl 7: Cynnydd yn erbyn dangosyddion

Maes Ffocws	Mesur	Allbynnau	Targed	Rhagolwg
FA 6(a) Hwyluso	2.1	Nifer o fuddiolwyr a gynghorwyd	336	168
arallgyfeirio, creu	2.3	Nifer o gynghorwyr a hyfforddwyd	5	15
mentrau bach	2.1 - 2.3	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£0.4m	£0.5m
newydd a chreu	4	Cyfanswm gwariant £ (cyhoeddus a preifat)	£2.1m	£0.0m
swyddi	4	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£0.9m	£0.0m
	6.2 + 6.4	Nifer o fuddiolwyr (daliadau) yn derbyn cymorth cychwyn/cefnogaeth ar gyfer fuddsoddiad mewn wweithgareddau nad ydynt yn amaethyddol mewn ardaloedd gwledig (6.2 and 6.4)	140	0
	6	Cyfanswm gwariant £ (cyhoeddus a preifat)	£27.5m	£0.0m
	6	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£15.0m	£0.0m
	8.5	Nifer o weithgareddiadau (fuddsoddiadau i wella cydnherthu a werth systemau eco coedwigaeth (8.5)	400	0
	8.5	Ardaloedd sy'n gysylltiedig a fuddsoddiadau gwella gwydnwch a gwerth amgylcheddol ecosystemau coedwigoedd (8.5)	4,000	0
	8.5	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£0.6m	£0.0m
	8.6	Nifer o weithrediadau ar gyfer fuddsoddiadau mewn technoleg coedwigaeth a prosesu cynradd/marchnata (8.6)	44	0
	8.6	Cyfanswm gwariant £ (cyhoeddus a preifat) (8.6)	£4.0m	£0.0m
	8.6	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ (8.6)	£1.7m	£0.0m
	16	Nifer y weithrediadau cydweithredu a gefnogwyd (dim EIP)	106	0
	16	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£0.6m	£0.0m
	6.2, 6.4, 8.6	Nifer o swyddi a grewyd	142	0

WEFO, 30/04/2017

Maes Ffocws 6a

Gwahoddwyd 21 o ddatganiadau o ddiddordeb llwyddiannus i gyflwyno cais llawn o dan Faes Ffocws 6(a), sef cyfanswm lefel neilltuo grant o £2m. O'r rhain

- Mae 11 o geisiadau llawn yn cael eu harfarnu ar hyn o bryd ac mae 6 yn dal heb gael eu cyflwyno, sef lefel neilltuo grant o £1.7m
- Mae 3 cais arall wedi cael eu cymeradwyo, sydd â chyfanswm gwerth grant o £0.22m
- Mae 1 wedi ei wrthod, sef gwerth grant o £0.11m

Mae dau ymgeisydd uniongyrchol wedi cael eu gwahodd i gyflwyno ceisiadau llawn, sy'n golygu cyfanswm lefel neilltuo grant o £7.2m.

O'r rhain, mae un wedi cael ei gymeradwyo, gyda chyfanswm gwerth grant o £10m.

Maes Ffocws	Mesur	Allbynnau	Targed	Rhagolwg
FA 6(b) Meithrin datblygiadau lleol mewn ardaloedd gwledig	7.1	Nifer o weithrediadau a gefnogodd cymorth ar gyfer llunio datblygiad pentref a chynlluniau rheoli ardal N2000/HNV	100	0
	7.2	Nifer o weithrediadau a gefnogodd cymorth ar gyfer fuddsoddiadau mewn seilwaith ar raddfa fechan, yn cynnwys seilwaith ynni adnewyddadwy	56	0
	7.4	Nifer o weithrediadau a gefnogodd cymorth ar gyfer fuddsoddiadau mewn gwasanaethau sylfaenol ar gyfer y boblogaeth wledig	168	0
	7.5	Nifer o weithrediadau a gefnogodd cymorth ar gyfer fuddsoddiadau mewn seilwaith hamdden/twristiaeth	100	0
	7.6	Nifer o weithrediadau a gefnogodd cymorth ar gyfer astudiaethau/fuddsoddiadau mewn treftadaeth diwydiannol a naturiol, gan gynnwys safleoedd HNV	80	0
	7.7	Nifer o weithrediadau a gefnogodd cymorth ar gyfer fuddsoddiadau mewn adleoli gweithgareddau ar gyfer rhesymau amgylcheddol/ansawdd bywyd	50	0
	7.1, 7.2, 7.4, 7.5, 7.6, 7.7	Poblogaeth yn elwa o gwasanaethau well/seilweithiau	1,381,745	0
	7	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£39.5m	£0.0m
	19	Nifer o Grwpiau Gweithredu Lleol a ddewiswyd	18	18
	19	Nifer o prosiectau a gefnogwyd	54	54
	19	Nifer o prosiectau cydweithredu a gefnogwyd	27	0
	19	Poblogaeth a gynnwyswyd gan Grwpiau Gweithredu Lleol	1,381,745	0
	19.1	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ cymorth paratoadol	£0.1m	£0.0m
	19.2	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ ar gyfer gweithredu gweithrediadau o dan strategaeth CLLD	£32.3m	£0.0m
	19.3	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ paratoi a weithredu cynlluniau weithgareddau cydweithredu grwpiau gweithredu lleol	£3.4m	£0.0m
	19.4	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ ar gyfer costau rhedeg ac animeiddio	£11.9m	£0.0m
	16	Nifer o weithgariadau cydwethredu a gefnogwyd (dim EIP)	31	0
	16	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£7.5m	£0.0m
	7 + 19	Nifer o swyddi a grewyd	100	0

WEFO, 30/04/2017

Maes Ffocws 6b

Datganiadau o Ddiddordeb

Hyd yma, gwahoddwyd 211 o ddatganiadau o ddiddordeb llwyddiannus i gyflwyno cais llawn o dan Faes Ffocws 6(b), sef cyfanswm lefel neilltuo grant o £36.8m.

O'r rhain

- Mae 84 o geisiadau llawn yn cael eu harfarnu ar hyn o bryd ac mae 83 yn dal heb gael eu cyflwyno, sef lefel neilltuo grant o £25.5m.
- Mae 17 o geisiadau eraill wedi cael eu cymeradwyo, sydd â chyfanswm gwerth grant o £5.3m, o'r rhain mae 12 wedi'i dderbyn (£0.34m)
- Mae 27 wedi ei wrthod, sef gwerth grant o £6m

O'r uchod:

- Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio: 8 o geisiadau llawn yn cael eu harfarnu (£5.3m); 9 o geisiadau wedi eu cymeradwyo (£4.3m); mae 3 o geisiadau eto i'w dderbyn (£2.2m) a 7 wedi tynnu'n ôl/wedi ei wrthod (£3.9m)
- Cronfa Datblygu Cymunedau Gwledig: 76 o geisiadau llawn yn cael eu harfarnu (£9.6m); 8 o geisiadau wedi eu cymeradwyo (£0.91m), o rhain mae 5 wedi'i dderbyn (0.34m); mae 80 o geisiadau eto i'w dderbyn (£8.5m) a 20 wedi tynnu'n ôl/wedi ei wrthod (£2.1m)

Ceisiadau Uniongyrchol

Mae pedwar ugain ag un o ymgeiswyr uniongyrchol wedi cael eu gwahodd i gyflwyno ceisiadau llawn, sy'n golygu cyfanswm lefel neilltuo grant o £110.2m.

O'r rhain

- Mae 2 gais llawn yn cael eu harfarnu ar hyn o bryd, gyda lefel neilltuo grant o £12.6m.
- Mae 2 wedi tynnu'n ôl (£36m)
- Mae 77 o geisiadau eraill wedi cael eu cymeradwyo, sydd â chyfanswm gwerth grant o £61.6m.

O'r uchod:

- Mae 75 o geisiadau llawn wedi cael eu cyflwyno gan y 18 o Grwpiau Gweithredu Lleol ar gyfer LEADER o dan Fesurau 19.1, 19.2, 19.3 ac 19.4 a wedi cael eu cymeradwyo gyda chyfanswm gwerth grant o £47.6m.
- Mae 2 cais llawn ar gyfer Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio o dan Fesurau 16.2 ac 16.3 yn cael eu harfarnu (£12.6m); 1 cai wedi eu cymeradwyo (£10m); a 2 wedi tynnu'n ôl (£36m)
- Mae 1 cais llawn ar gyfer Cronfa Datblygu Cymunedau Gwledig o dan Fesur 7.5 wedi cael ei gyflwyno a'i cymeradwyo, gyda chyfanswm gwerth grant o £4m.

Maes Ffocws	Mesur	Allbynnau	Targed	Rhagolwg
FA 6(c)Gwella hygyrchedd i ddefnydd ac ansawdd	1.1	Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Nifer o cyfranogwyr mewn hyfforddiant	400	130
gwybodaeth a technolegau	1.1	Nifer o ddiwrnodau hyfforddiant a roddwyd	400	104
chyfathrebu (TGCh)	1.1	Caffaeliad hyfforddiant/sgiliau - Cyfanswm gwariant cyhoeddus ar gyfer hyfforddiant/sgiliau	£0.04m	£0.04m
mewn ardaloedd gwledig	1.1 -1.3	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £ (hyfforddiant, cyfnewidiadau fferm, arddangos)	£0.43m	£0.55m
	7.3	Nifer o weithrediadau ar gyfer fuddsoddiadau mewn seilwaith band eang, gan gynnwys gwasanaethau e-llywodraeth (7.3)	49	0
	7.3	Poblogaeth yn elwa o seilwaith TG newydd neu gwell (ee rhyngwrdd band eang)	500,000	0
	7.3	Cyfanswm gwariant cyhoeddus £	£3.4m	£0.0m

WEFO, 30/04/2017

Maes Ffocws 6c

Hyd yma, gwahoddwyd saith datganiad o ddiddordeb llwyddiannus i gyflwyno cais llawn o dan Faes Ffocws 6(c) Cronfa Datblygu Cymunedau Gwledig, Mesur 7.3, gyda chyfanswm lefel neilltuo grant o £0.46m.

O'r rhain, mae dau gais llawn yn cael eu harfarnu ar hyn o bryd (£0.14m) ac mae pump yn dal heb gael eu cyflwyno (£0.31m).

Caiiff ceisiadau llawn eu cyflwyno hyd at ddyddiad cau'r cyfnod cyllido a chânt eu prosesu wrth iddynt ddod i law. Bydd adroddiadau yn y dyfodol yn dangos cynnydd hyd yma o ran gwariant a dangosyddion y ceisiadau llawn hyn.

Ar hyn o bryd, ni chaiff data ar ddangosyddion eu cofnodi cyn i broffil cyflawni'r gweithrediad gael ei gwblhau. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gasglu'r data hyn pan gaiff y cais llawn ei gyflwyno.

**PWYLLGOR MONITRO RHAGLENNI CYMRU, CRONFEYDD
STRWYTHUROL A BUDDSODDI EWROPEAIDD 2014 – 2020:**

**GWEITHREDU'R THEMA DRAWSBYNCIOL: CYFLE CYFARTAL A PHRIF
FFRYDIO RHYWEDD**

Mater

1. Mae'r papur hwn yn rhoi'r adolygiad cynnydd blynyddol mewn perthynas â gweithredu thema drawsbynciol Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd yng nghronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (ESI) Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) a Chronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) 2014-2020.

Argymhelliad

2. Gwahoddir aelodau i nodi cynnwys yr adroddiad a rhoi sylwadau yn unol â hynny.

Cefndir

3. Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd yw un o'r tair thema drawsbynciol sydd wedi'u hintegreiddio yn Rhaglenni 2014-2020. Mae'r Rheoliadau Cyffredinol sy'n llywodraethu'r Rhaglenni Ewropeaidd yn nodi bod yn rhaid i'r holl weithrediadau a ariennir drwy'r Fframwaith Strategol Cyffredin integreiddio Erthygl 7 - Hyrwyddo cydraddoldeb rhwng dynion a menywod a pheidio â gwahaniaethu. Mae'r Rheoliad yn nodi y dylid ystyried a hyrwyddo cydraddoldeb rhwng dynion a menywod ac integreiddio safbwynt y rhywiau drwy baratoi a gweithredu rhaglenni, yn cynnwys mewn perthynas â monitro, adrodd a gwerthuso.
4. Mae'r Rheoliad hefyd yn galw am gymryd camau priodol er mwyn atal unrhyw wahaniaethu ar sail rhyw, tarddiad hiliol neu ethnig, crefydd neu gred, anabledd, oedran neu gyfeiriadedd rhywiol wrth baratoi rhaglenni a'u rhoi ar waith. Yn benodol, dylid ystyried hygyrchedd i bobl ag anableddau drwy gydol y broses o baratoi rhaglenni a'u rhoi ar waith.
5. Er mwyn cyflawni'r weledigaeth o genedl hollol ddwyieithog, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymrwymiad yn 'laith fyw: iaith byw', y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog yn ei Chynllun Iaith Gymraeg er mwyn prif ffrydio'r iaith Gymraeg ar draws meysydd polisi. Mae'r broses o weithredu'r Rhaglenni ESI yn adlewyrchu'r ymrwymiad hwn, yn cefnogi ymdrechion i sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn tyfu o fewn cyd-destun twf economaidd a chreu swyddi.
6. Felly, disgwylir i'r ceisiadau am gyllid ddilyn termau dogfen Comisiynydd y Gymraeg 'Grantiau, Benthyciadau a Nawdd', sydd wedi'i chynnwys fel rhan o ganllawiau WEFO i ymgeiswyr y prosiect. Caiff cynigion prosiect eu

hasesu er mwyn sicrhau eu bod wedi manteisio ar y cynigion sydd ar gael i gefnogi siaradwyr Cymraeg a bod y costau sy'n gysylltiedig â chydymffurfio â gofynion y Gymraeg wedi'u cynnwys yn y rhagamcanion ariannol.

Integreiddio Fertigol a Llorweddol

7. Mae'r model a ddefnyddir i greu cyfle cyfartal a phrif ffrydio rhywedd yn y rhaglenni yn croesawu mesurau fertigol a llorweddol. Mae mesurau fertigol yn rhoi cyfle i fynd i'r afael â materion penodol sy'n ymwneud â chyfleoedd cyfartal, er enghraifft; sicrhau y gall pobl â nodweddion gwarchodedig gael budd o'r rhaglenni; tra bod mesurau llorweddol yn codi'r proffil ac yn annog proses ddysgu mewn perthynas â chyfleoedd cyfartal mewn amrywiaeth eang o sefydliadau a gweithgareddau.

Cymorth i bobl â nodweddion gwarchodedig

8. Mae Cronfa Gymdeithasol Ewrop wedi cael effaith gadarnhaol sylweddol wrth gefnogi rhai grwpiau allweddol â nodweddion gwarchodedig yng Nghymru a nod rhaglenni ESF 2014-2020 yw adeiladu ar lwyddiant y cylch ariannu blaenorol.
9. Yn y gyntaf o gyfres o ymweliadau i archwilio sut y caiff gweithgarwch thema drawsbynciol ei gyflawni, treuliodd Cadeirydd Pwyllgor Monitro'r Rhaglenni (PMRh) Julie Morgan AC, amser yn Abertawe yn ddiweddar gyda'r prosiect Cyflawni Newid drwy Gyflogaeth (ACE). Gan adeiladu ar lwyddiant prosiect 'Gwella Lefelau Cyflogaeth Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a Mynd i'r Afael ag Anweithgarwch Economaidd ymysg Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig' yn rhaglenni 2007-2013, llwyddodd SOVA i gael cyllid o Raglenni ESF 2014-2020 (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru) er mwyn cefnogi prosiect Cyflawni Newid drwy Gyflogaeth, a ddechreuodd ym mis Ebrill 2016. Mae'r prosiectau yn helpu pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig ac unigolion mudol i gael cyflogaeth gynaliadwy drwy gymorth hyfforddiant a chyflogaeth, a cyfanswm y gost yw £2.6m, £1.7m ohono yn gyllid ESF.



10. Enghraifft arall o weithgarwch sy'n helpu pobl sy'n wynebu llawer o rwystrau i gymryd rhan yw prosiectau Cynhwysiant Gweithredol Cymru, dan arweiniad CGGC. Nod y prosiectau yw gostwng nifer y bobl economaidd anweithgar a'r bobl sy'n ddi-waith yn yr hirdymor sy'n 25 oed a throsodd ledled Cymru, targedu'r sawl sydd â chyflyrau iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio, a'r sawl sydd dros 54 oed. Cyfanswm cost y prosiect (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd) yw £22.5m, £14.5m ohono yn gyllid ESF.

Prosiectau sy'n cyfrannu at ddangosydd thema drawsbynciol ffurfiol Cyfleoedd Cyfartal

11. Mae nifer o brosiectau sy'n cyfrannu at y dangosydd ffurfiol ar gyfer y thema drawsbynciol hon: **'nifer y mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella eu strategaethau cydraddoldeb yn cynnwys systemau monitro'**. Dangosir y rhain yn Atodiad 1. Ar y cam hwn o weithredu'r rhaglenni, mae'r data'n gyfyngedig, sy'n golygu ei bod yn anoddach cynnal asesiad cywir o gynnydd. Fodd bynnag, dylid nodi bod y cynnydd yn araf ac wrth i ni symud i'r cam gweithredu nesaf, bydd angen i brosiectau ganolbwyntio ar wella'r modd y maent yn cyflawni'r dangosydd hwn er mwyn cyflawni'r targedau terfynol. Mae tîm y thema drawsbynciol yn gweithio'n agos gyda'r rhai dan sylw ac mae adolygiadau cynnydd rheolaidd yn cael eu cynnal.
12. Caiff gwybodaeth am statws y Gymraeg ei chasglu drwy'r gronfa ddata o gyfranogwyr ac mae'r manylion ar gyfer cyfranogwyr yn nwy raglen ESF fel a ganlyn:

Yr Iaith Gymraeg	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	Dwyrain Cymru
Dewis iaith ar gyfer Cyfathrebu - Cymraeg	8%	3%
Deall Cymraeg	15%	5%
Siarad Cymraeg	19%	10%
Ysgrifennu Cymraeg	12%	4%
Wedi cael darpariaeth yn Gymraeg, naill ai'n 'rhannol' neu'n 'llwyr'	12%	4%

Dangosyddion Lefel Prosiect y Thema Drawsbynciol

13. Mae cynnwys targed ffurfiol ar gyfer cyfleoedd cyfartal yn ysgogydd pwysig i annog prosiectau er mwyn mynd i'r afael â'r thema drawsbynciol hon. Mae hefyd yn golygu y gellir monitro bod cynnydd yn digwydd yn systemataidd dros oes y rhaglen.

14. Fodd bynnag, fel yr amlygwyd mewn adroddiadau blaenorol gan y PMRh ar themâu trawsbynciol, mae targedau ffurfiol yn gyfyngedig o ran dilysu'r amrywiaeth eang o weithgarwch cysylltiedig a gynhelir ac, o ganlyniad, cytunodd PMRh Mehefin 2015 ar ddull a fydd yn galluogi WEFO i nodi'r amrywiaeth ehangach hon o weithgarwch a darparu er mwyn i arfer da gael ei nodi a'i adrodd. Mae'r wybodaeth a gynhwysir yn **Atodiad 2**, yn rhoi awgrym o'r math o weithgarwch sy'n cefnogi thema drawsbynciol Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd a hefyd y wybodaeth am Drechu Tlodi a gweithgarwch thema drawsbynciol cyffredinol lle ceir llawer o orgyffwrdd gyda gweithgarwch cysylltiedig. Mae'r data a ddarperir yn cynnwys cymhariaeth â'r data a ddarparwyd yn yr adroddiad blynyddol diwethaf ym mis Medi 2015 gan ddangos y cynnydd a wnaed dros y cyfnod. Mae'r ffigur wedi gostwng mewn perthynas â rhai o'r dangosyddion; nid oedd hwn yn achos pryder gan ei fod yn adlewyrchu ailaddasiad o'r hyn a argymhellwyd ar gam cyn cymeradwyo i'r proffil cyflawni terfynol.
15. Un enghraifft o ble mae'r dangosyddion lefel prosiect wedi bod yn llwyddiannus o ran nodi gweithgarwch wedi'i dargedu yw prosiect ERDF SPARC II (Consortium Ymchwil Academaidd ar Dechnoleg Ffotofoltäig Solar). Mae'r prosiect hwn, dan arweiniad Prifysgol Abertawe mewn partneriaeth â Phrifysgolion Aberystwyth a Bangor, yn ariannu chwe chanolfan ymchwil i gynyddu'r gwaith ymchwil a wneir yng Nghymru ar dechnoleg ffotofoltäig solar a'i ansawdd. Disgwylir i'r cynnydd yng nghapasiti'r canolfannau cymhwysedd alluogi cydweithrediadau yn y DU ac yn rhyngwladol a all ddenu cyllid ymchwil ac arloesedd ar raddfa fawr i Gymru. Bydd hyn yn arwain at fudd parhaus i'r economi ac, yn y pen draw, i dwf y diwydiant ynni ffotofoltäig solar yng Nghymru. Mae'r dangosyddion lefel prosiect a nodwyd, a ariennir drwy ERDF Blaenoriaeth 1, Amcan Strategol 1, ac sydd, fel y cyfryw, heb ofyniad i gyflawni yn erbyn y dangosydd thema drawsbynciol cyfleoedd cyfartal ffurfiol oherwydd natur y gweithgarwch, wedi cynnig dull i'r prosiect ddangos ei rinweddau o ran y thema drawsbynciol.
16. Mae'r tabl canlynol yn dangos ymrwymiad y Prosiect i'r themâu dan y system dangosydd lefel prosiect, sy'n nodi, yn benodol, gefnogaeth ar gyfer cyfranogiad menywod.

SPARC II (ERDF B1 / AS1)

Dangosyddion Lefel Achos Thema Drawsbynciol (Prosiect)	
Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd	• Cyfranogiad menywod yn STEM • Gweithgarwch gwahanu galwedigaethol • Mesur camau cadarnhaol - arall (Marchnata / Hysbysebion Swydd) • Gweithgarwch yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg
Datblygu cynaliadwy	• Datblygu cynllun teithio sefydliadol a mentrau trafndiaeth cynaliadwy

	• Mesurau effeithlonrwydd o ran adnoddau
Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol	• Mentoriaid - i gael eu cynnig i recriwtiaid sy'n fenywod er mwyn helpu i'w cymhathu yn y prosiect a'u helpu i ddatblygu yn eu gyrfa
Thema Drawsbynciol Gyffredinol	• Datblygu / Ymgysylltu â Hyrwyddwyr Thema Drawsbynciol

Ymrwymadau a wnaed yng Nghynllun Busnes SPARC II

17. Bydd SPARC II yn chwarae rôl ragweithiol wrth fynd i'r afael â'r cydbwysedd rhwng y rhywiau ym maes gwyddoniaeth a pheirianeg drwy annog a chefnogi menywod ar bob cam o'r broses recriwtio drwodd i'w datblygiad gyrfa. Cynigir mentor i recriwtiaid sy'n fenywod er mwyn helpu i'w cymhathu yn y prosiect a'u helpu i ddatblygu yn eu gyrfa. Rhoddir cymorth hefyd i staff sy'n fenywod drwy gyfnodau mamolaeth ac yn benodol pan fyddant yn dychwelyd i'r gwaith, gan roi pwyslais penodol ar gynnig trefniadau gweithio hyblyg.

18. Cymerir gofal i beidio â defnyddio iaith a fyddai'n allgáu menywod, pobl ag anabledau neu grwpiau lleiafrifol eraill neu'n eu troi i ffwrdd a bydd y prosiect yn osgoi'r defnydd o eiriau/termau rhyw benodol. Bydd y prosiect yn ystyried defnyddio camau cadarnhaol (e.e. hysbysebu yn y wasg leiafrifoedd er mwyn annog amrywiaeth ymgeiswyr)

Cysylltiadau Cyhoeddus a'r Cyfryngau

19. Mae'r tîm Themâu Trawsbynciol wedi bod yn parhau i archwilio ffyrdd o roi cyhoeddusrwydd i'r ffordd y mae gweithrediadau'n integreiddio'r themâu trawsbynciol yn y broses o ddylunio a chyflawni eu gweithrediad. Gan weithio gyda Thîm Cyfathrebu WEFO, y nod yw codi proffil y themâu trawsbynciol a dangos y gwerth ychwanegol y gallant eu cyflwyno i weithrediadau.

20. Mae **Atodiad 3** yn dangos rhai enghreifftiau o'r cydweithrediad hwn, gyda thrydariadau diweddar gan WEFO a ffeithlun yn tynnu sylw at brosiectau amrywiol sy'n ymgorffori Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

21. Mae WEFO, drwy'r tîm Themâu Trawsbynciol, yn parhau i ymgysylltu'n weithredol â'r broses o ddatblygu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r Tîm wedi trafod datblygiadau gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru (sydd wedi rhoi'r Ddeddf o dan gylch gwaith gweithgarwch adrannol), ac wedi trefnu cyfarfodydd chwarterol er mwyn sicrhau y caiff y wybodaeth ddiweddaraf ei derbyn a'i hadrodd yn ôl i WEFO.

22. Gan weithio gyda 3SET CGGC, mae'r Tîm Themâu Trawsbynciol a'r Tîm Strategaeth wedi bod yn cyflwyno cyfres o weithdai i ddarparwyr prosiectau yn y Trydydd Sector a oedd yn cynnwys defnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel y fframwaith ar gyfer cyflawni gweithgarwch themâu trawsbynciol yn y dyfodol.

Y Camau Nesaf

23. Bydd adroddiadau yn y dyfodol yn dangos y cynnydd ar ddangosyddion themâu trawsbynciol ffurfiol a gweithgarwch lefel prosiect ychwanegol, ochr yn ochr ag ymweliadau prosiect benodol sy'n tynnu sylw at y gweithgarwch ar y thema drawsbynciol.

Drafftwyd gan: Chris O'Connell WEFO

Cymeradwywyd gan: Rob Halford, RH, WEFO

Dyddiad: 22 Mai 2017

Atodiad 1

Prosiectau sy'n cyfrannu at y dangosydd thema drawsbynciol Cyfleoedd Cyfartal ffurfiol 'nifer y mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella eu strategaethau cydraddoldeb yn cynnwys systemau monitro'.

Teitl y Gweithrediad	Buddiolwr Arweiniol	Rhaglen	Echel	Rhagolwg	Cyflawnwyd hyd yma
Cymorth Entrepreneuriaeth - Busnes Cymru	Llywodraeth Cymru - Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth	ERDF Dwyrain Cymru	2	1000	1
Cymorth BBaCh	Llywodraeth Cymru - Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth	ERDF Dwyrain Cymru	2	3250	0
Busnes Cymdeithasol Cymru	Canolfan Cydweithredol Cymru	ERDF Dwyrain Cymru	2	50	5
Cenedl Hyblyg 2	Chwarae Teg	ESF Dwyrain Cymru	2	122	14
SEACAMS2	Prifysgol Bangor	ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	1	1	
Cymorth Entrepreneuriaeth - Busnes Cymru	Llywodraeth Cymru - Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth	ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	2	1500	0
Cymorth BBaCh	Llywodraeth Cymru - Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth	ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	2	4800	0
Busnes Cymdeithasol Cymru	Canolfan Cydweithredol Cymru	ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	2	200	25
Law yn Llaw at Gymru Iach ar Waith (Gwasanaeth mewn Gwaith)	Llywodraeth Cymru - Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	ESF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	1	525	0
Cenedl Hyblyg 2 Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	Chwarae Teg	ESF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	2	278	55

Ffynhonnell WEFO 30 Ebrill 2017

Atodiad 2

Gweithgarwch Dangosydd Lefel Prosiect y Thema Drawsbynciol

Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd - Rhaglenni ERDF

ERDF	Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd	Cyfanswm Medi 2016	Cyfanswm Mai 2017
1	Mesurau camau cadarnhaol - menywod	9	16
2	Mesur cam cadarnhaol - pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig	6	5
3	Mesur cam cadarnhaol - pobl ifanc	4	4
4	Mesur cam cadarnhaol - pobl hŷn	4	4
5	Mesur cam cadarnhaol - pobl anabl	5	4
6	Mesur cam cadarnhaol - eraill	1	2
7	Gweithgarwch Gwahanu Galwedigaethol	1	0
8	Gweithgarwch Cyflog Cyfartal	0	4
9	Cyfranogiad menywod yn STEM	4	7
10	Gweithgarwch yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg	3	4
11	Gweithgarwch i annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg	4	6
12	Ymgysylltu â Grŵp Mynediad i Bobl Anabl	3	10
13	Rhaglenni iechyd yn y gweithle	0	0
14	Darpariaeth gofal plant	0	0
15	Darpariaeth gofal arall	1	0
	Cyfanswm	45	66

Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd - Rhaglenni ESF

ESF	Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd	Cyfanswm Medi 2016	Cyfanswm Mai 2017
1	Mesurau camau cadarnhaol - menywod	11	19
2	Mesur cam cadarnhaol - pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig	11	12
3	Mesur cam cadarnhaol - pobl ifanc	10	14
4	Mesur cam cadarnhaol - pobl hŷn	9	6
5	Mesur cam cadarnhaol - pobl anabl	19	21
6	Mesur cam cadarnhaol - eraill	10	12
7	Gweithgarwch Gwahanu Galwedigaethol	19	36
8	Gweithgarwch Cyflog Cyfartal	2	3
9	Cyfranogiad menywod yn STEM	6	17
10	Gweithgarwch yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg	10	19
11	Gweithgarwch i annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg	16	18
12	Ymgysylltu â Grŵp Mynediad i Bobl Anabl	1	7
13	Rhaglenni iechyd yn y gweithle	6	5
14	Darpariaeth gofal plant	13	18
15	Darpariaeth gofal arall	5	10
	Cyfanswm	148	217

Trechu tlodi ac Allgáu Cymdeithasol - Rhaglenni ERDF

ERDF	Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol	Cyfanswm Medi 2016	Cyfanswm Mai 2017
1	Gweithgarwch adeiladu sgiliau cymunedol	1	16
2	Gweithgarwch mentora / eirioli	8	15
3	Gweithgarwch cymorth cymheiriaid	0	0
4	Cynlluniau gwirfoddoli	5	14
5	Sefydliadau sy'n talu'r cyflog byw	5	8
	Cyfanswm	19	53

Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol - Rhaglenni ESF

ESF	Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol	Cyfanswm Medi 2016	Cyfanswm Mai 2017
1	Gweithgarwch adeiladu sgiliau cymunedol	4	11
2	Gweithgarwch mentora / eirioli	47	46
3	Gweithgarwch cymorth cymheiriaid	15	13
4	Cynlluniau gwirfoddoli	22	24
5	Sefydliadau sy'n talu'r cyflog byw	7	4
	Cyfanswm	95	98

Themâu Trawsbynciol yn Gyffredinol - Rhaglenni ERDF

ERDF	Themâu Trawsbynciol yn Gyffredinol	Cyfanswm Medi 2016	Cyfanswm Mai 2017
1	Gweithgarwch arfer da o ran ymgysylltu â rhanddeiliaid	4	10
2	Datblygu / ymgysylltu â Hyrwyddwyr Thema Drawsbynciol	24	45
3	Integreiddio cymalau cymdeithasol	5	19
4	Pecyn offer thema drawsbynciol, dull gwaelodlin, datblygu Ap	7	7
5	Datblygwyd pecyn hyfforddiant thema drawsbynciol	0	0
6	Cyflwynwyd rhaglen hyfforddi staff thema drawsbynciol.	3	12
7	Gweithgarwch yn cefnogi dangosyddion thema drawsbynciol (mewn Blaenoriaethau / Amcanion lle nad yw'r dangosyddion yn bresennol)	6	6
	Cyfanswm	49	99

Themâu Trawsbynciol yn Gyffredinol - Rhaglenni ESF

ESF	Themâu Trawsbynciol yn Gyffredinol	Cyfanswm Medi 2016	Cyfanswm Mai 2017
1	Gweithgarwch arfer da o ran ymgysylltu â rhanddeiliaid	0	8
2	Datblygu / ymgysylltu â Hyrwyddwyr Thema Drawsbynciol	46	61
3	Integreiddio cymalau cymdeithasol	16	13
4	Pecyn offer thema drawsbynciol, dull gwaelodlin,	0	3

	datblygu Ap		
5	Datblygwyd pecyn hyfforddiant thema drawsbynciol	3	0
6	Cyflwynwyd rhaglen hyfforddi staff thema drawsbynciol.	3	6
7	Gweithgarwch yn cefnogi dangosyddion thema drawsbynciol (mewn Blaenoriaethau / Amcanion lle nad yw'r dangosyddion yn bresennol)	9	11
	Cyfanswm	77	102

Atodiad 3

Trydariadau Cysylltiadau Cyhoeddus a'r Cyfryngau



WEFO
@wefowales



Through EU projects like [@EESWStemCymru](#), women in Wales are benefiting from opportunities to develop careers in STEM industries [#IWD2017](#) ♀



WEFO
@wefowales



Did you know?
311,644 women in Wales benefited from skills and career development through EU-funded projects between 2007 and 2013 [#IWD2017](#) ♀



WEFO
@wefowales



EU-funded training through [@chwaraeteg](#) helped Sam Kinson secure a promotion and a permanent role in HR: [agilenation2.org.uk/for-women/succ...](https://agilenation2.org.uk/for-women/success/) [#IWD2017](#) ♀



WEFO
@wefowales



Backed by EU funds, [@SovaAce](#) is increasing skills & employment opportunities for people from BME & migrant communities in Wales [#FightRacism](#)



WEFO
@wefowales



EU-funded [@Healthywork_HWW](#) is providing mentoring and employment support to out-of-work people affected by health problems [#worldhealthday](#)

Ffeithlun Thema Drawsbynciol Cyfleoedd Cyfartal Prosiect ACE SOVA.

ACE – Sicrhau Newid trwy Gyflogaeth

Helpu pobl ddi-waith sy'n cael eu tangynrychioli, sy'n economaidd anweithgar, ac sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir, Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a mudwyr 25 oed + i gael gwaith cynaliadwy drwy hyfforddiant a chymorth cyflogaeth.



Pecyn e-Ddysgu
'Rapid English Language'



Annog Menywod
I gymryd rhan



Gwella cymwysterau
a phrofiad gwaith



Helpu pobl i symud at gyflogaeth
neu hunangyflogaeth

- Gwirfoddoli
- Chwilio am swyddi
- Darparu mentora 1-2-1

Cliciwch ar y logo isod i fynd i'n gwefan:

you.plus
Sova



UNDEB Ewropeaidd
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

**PWYLLGOR MONITRO RHAGLENNI CYMRU - RHAGLEN DATBLYGU
GWLEDIG 2014-2020
RHAGLEN DATBLYGU GWLEDIG 2014-2020 – Y GYFRADD WALLAU**

Mater

1. Hysbysu Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru am gyfradd wallau'r Rhaglen Datblygu Gwledig a'r camau a gymerwyd ac a ragwelir i leihau nifer y camgymeriadau yn y gronfa.

Argymhelliad

2. Nodi cyfradd wallau gyfredol Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020.

Cefndir

3. Bob blwyddyn, mae Asiantaethau Talu'n cyfri cyfradd wallau'r Gronfa ac yn hysbysu'r Comisiwn amdani gan ddefnyddio Datganiad Rheoli Pennaeth yr Asiantaeth Dalu i wneud hynny. Dangosir y gyfradd wallau fesul strata, sef cyfradd wallau taliadau'r Rhaglen Datblygu sy'n seiliedig ar arwynebedd ac a brosesir trwy'r System Integredig Gweinyddu a Rheoli (IACS) a chyfradd wallau taliadau'r Rhaglen Datblygu nad ydynt yn seiliedig ar arwynebedd.
4. Mae'r gyfradd wallau'n seiliedig ar faint y mae hawliadau am daliadau'n cael eu lleihau, hynny yn achos buddiolwyr gafodd eu dewis ar gyfer archwiliad ar hap ac a fu'n destun archwiliad (h.y. sampl rheoli).

Cyfradd wallau rhaglen 2014-2020

5. Mae tabl isod yn dangos y gyfradd wallau sydd wedi'i chyfrif hyd yma o dan raglen 2014-2020. Bydd cyfradd 2016 ar gael ar ôl 15 Gorffennaf 2017, sef y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ystadegau rheoli 2016.

Cronfa, strata a blwyddyn adrodd	Cyfanswm a hawliwyd	Cyfanswm a fu'n destun archwiliad ar hap (OTSC)	Cyfanswm oedd yn wallus cyn eu cosbi o ganlyniad i archwiliad ar hap (OTSC).	Cyfradd wallau'r flwyddyn ariannol
	€	€	€	%
EAFRD IACS 2014	20,002,488	580,233	15,627	2.69%
EAFRD IACS 2015	29,073,886	368,862	8,525	2.31%

EAFRD OND NID IACS 2014	31,702,608	877,828	2,832	0.00%
EAFRD OND NID IACS 2015	30,037,795	3,316,659	12,226	0.37%

Y Rhesymau am Wallau a'r Camau a ragwelir – IACS

6. O dan fesurau'r Rhaglen Datblygu sy'n seiliedig ar arwynebedd, gall gwallau ddigwydd am i'r buddiolwyr orddatgan arwynebedd y tir (Erthygl 19 Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 640/2014), neu am iddynt beidio ag ysgwyddo'u hymrwymadau (Erthygl 35 Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 640/2014).
7. Mae'r gyfradd wallau o dan Erthygl 19 yn isel iawn yng Nghymru, gan fod ffermydd sy'n ymrwmo wedi'u hen sefydlu ac am fod y System Adnabod Parseli Tir (LPIS) yn ddibynadwy iawn. Mae mwyafrif y gwallau'n digwydd am nad yw buddiolwyr yn cadw at eu hymrwymadau amaeth-amgylcheddol.
8. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal amrywiaeth o weithgareddau i leihau'r gyfradd wallau, gan gynnwys cyfathrebu â ffermwyr drwy wasanaethau allgymorth er mwyn eu helpu i ddeall rheolau'r cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn well. Mae Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi hefyd erthyglau am y 'gwallau mwyaf cyffredin' yn y canllawiau i'r cais sengl.
9. Yn ogystal, cynyddodd Llywodraeth Cymru nifer yr archwiliadau ar hap o dan fesurau'r Rhaglen Datblygu yn 2016. Llwyddodd hyn i ostwng y gyfradd wallau yn 2015, ond mae'r gyfradd wallau yn dal i fod yn uwch na'r lefel berthnasedd (2%).
10. Yn 2017 mae Llywodraeth Cymru yn cynnal Ymweliadau Gwasanaethu sydd ar gael ar gyfer yr holl fuddiolwyr. Bydd pob ffermwr sydd wedi ymrwmo i gynllun amaeth-amgylcheddol yn cael cynnig ymgynghoriad ar y fferm i helpu i sicrhau ei fod yn deall ei ymrwymadau ac i osgoi problemau cyffredin.

Y Rhesymau am Wallau a'r Camau a ragwelir – y tu allan i IACS

11. O dan fesurau'r Rhaglen Datblygu nad ydynt yn seiliedig ar arwynebedd, mae gwallau'n ddigwydd am fod buddiolwyr yn gorddatgan gwariant cymwys (Erthygl 63 Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 809/2014).
12. O dan fesurau'r Rhaglen Datblygu nad ydynt yn seiliedig ar arwynebedd, mae'r gyfradd wallau'n isel ac yn para'n isel. O dan raglen 2007-2013, roedd gofyn i fuddiolwyr anfon anfonebau a dogfennau i

gefnogi'u hawliadau. Roedd hyn yn lleihau nifer y camgymeriadau a wnaed gan fuddiolwyr. Dilynwyd yr un drefn ar gyfer rhaglen 2014-2020.

Y camau nesaf

13. Anfonir cyfradd wallau 2016, pan fyddant ar gael, at Bwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru.

Arweinydd yn Llywodraeth Cymru: Stuart Brailsford
Cymeradwywyd gan: Terri Thomas/ Hugh Morgan
Dyddiad: 25 Mai 2017

**PWYLLGOR MONITRO RHAGLENNI CYMRU, CRONFEYDD
STRWYTHUROL A BUDDSODDI EWROPEAIDD 2014 – 2020:**

Cynllunio ar gyfer Addasiadau i'r Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol

Mater

1. Amlinellu addasiadau posibl i'r Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol a'r amserlenni cysylltiedig.

Argymhelliad

2. Gofynnir i aelodau nodi cynnwys y papur hwn a chynnig unrhyw safbwyntiau cynnar ar ddatblygu cynigion.

Cefndir

3. Wrth gyrraedd cam canol Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol 2014-2020, mae adolygiad o'r hyn a gyflawnwyd hyd yma a'r prosiectau y disgwylir iddynt fod yn yr arfaeth wedi nodi rhai addasiadau posibl angenrheidiol i'r Rhaglenni Gweithredol.
4. Mae aelodau eisoes wedi cymeradwyo mân addasiadau sy'n ymwneud â'r dyraniadau cyllid ychwanegol i raglenni Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) a Chronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, a chynnwys 'Cod Categoriaddio' ychwanegol dan Flaenoriaeth 3 rhaglen ERDF. Mae'r rhain wedi'u cyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd eu hystyried.

Gwaith adolygu hyd yma a chamau gweithredu arfaethedig

5. Mae adolygiad o'r hyn a gyflawnwyd hyd yma a'r prosiectau y disgwylir iddynt gael eu cyflawni wedi cadarnhau y profwyd nad yw nifer o'r rhagdybiaethau sy'n ategu rhai rhannau o'r Rhaglenni Gweithredol yn ddilys.
6. Mae'r rhain yn cynnwys llai o alw na'r disgwyl mewn rhai meysydd gan arwain at lai o brosiectau a phrosiectau llai o faint. Mae'r hinsawdd newidiol o ran deddfwriaeth a'r economi yng Nghymru hefyd wedi effeithio ar alw mewn ardaloedd penodol.
7. Roedd targedau rhaglenni yn seiliedig ar brofiadau gweithredu mewn cyfnodau rhaglenni blaenorol, a gwnaed amcangyfrifon lle mae dulliau targedu wedi newid yn sylweddol neu lle nad oedd unrhyw brofiad blaenorol y gellid ei ddefnyddio. Mae'r canlyniadau gweithredu hyd yma yng nghyfnod y rhaglen bresennol yn awgrymu y gall fod angen ailystyried rhai o'r amcangyfrifon hyn yn sgil profiad.

Ystyriaethau Ariannol

8. Er gwaethaf ymdrechion sylweddol i ysgogi galw yn y meysydd hynny lle mae prinder galw, yn cynnwys ceisio datrysiadau arloesol a mabwysiadu dulliau gwahanol o ymgysylltu, mae'n debygol y bydd angen ailddyrannu rhywfaint o gyllid rhaglenni sy'n bodoli eisoes. Ni cheir sicrwydd o hyn tan yr haf.

Meysydd lle mae diffyg ac ymdrechion i ysgogi galw

9. Yn ddiweddar, gwnaeth WEFO nifer o geisiadau am gynigion newydd ar gyfer meysydd penodol o'r rhaglenni lle nad yw'r galw wedi bodloni disgwyliadau ar adeg cymeradwyo rhaglenni.
10. Roedd yr alwad am gynigion Arloesedd o dan Flaenoriaeth 1 (Ymchwil ac Arloesedd) rhaglenni ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru yn gofyn am gynigion newydd ac arbenigol a allai ategu gweithrediadau sy'n bodoli eisoes a chyflawni canlyniadau ychwanegol yn ymwneud ag uchelgeisiau i gefnogi'r broses o fasnacheiddio gwaith ymchwil.
11. Roedd yr alwad yn llwyddiannus iawn, gyda 46 o gynigion yn cael eu cyflwyno (32 ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ac 14 ar gyfer Dwyrain Cymru). Ar ôl asesu'r cynigion, gwahoddwyd 17 o gynigion (11 yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a 6 yn Dwyrain Cymru) i'r cam cynllunio busnes ffurfiol ac mae ganddynt botensial i fynd i'r afael ag amryw o feysydd arbenigo deallus. O'r sector addysg uwch ddaeth y rhan fwyaf o'r cynigion llwyddiannus ond mae yna dystiolaeth gadarn mewn nifer o'r ceisiadau o gefnogaeth gan ddiwydiant, gan gynnwys partneriaid y sector preifat. Megis dechrau y mae'r broses asesu ond mae potensial i'r ceisiadau ymrwymo mwy na £50m ar draws y ddwy raglen a chwarae rhan

bwysig iawn i gyrraedd y targedau allweddol. Disgwylir i'r broses gymeradwyo ddechrau yn gynnar yn yr hydref.

12. O ystyried llwyddiant y cais am ymchwil ac arloesedd, gwnaed dau gais arall i geisio syniadau ar gyfer cynigion ynni cymunedol (ERDF) a syniadau i hyrwyddo cyflogaeth gynaliadwy (ESF). Mae'r ceisiadau hyn yn weithredol gyda dyddiad cau o 30 Mehefin 2017 ar gyfer cynigion. Mae tua £14m o gyllid ERDF ar gael ar gyfer ynni adnewyddadwy cymunedol ar raddfa fach, a mwy na £40m o gyllid ESF ar gyfer cynigion i drechu tldi drwy gyflogaeth gynaliadwy. Mae'r ddau gais yn cwrdd pasu ardaloedd rhaglenni Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru.
13. Gwnaed ymdrechion eisoes i ysgogi'r galw am gynlluniau ynni cymunedol mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Thimau Ymgysylltu Rhanbarthol, ond mae prinder galw am adnoddau rhaglenni o hyd. Yn rhannol, gall hyn adlewyrchu rheolau'r UE ynghylch cynhyrchu refeniw (fel drwy dariffau cyflenwi trydan) a'r cymhlethdod a'r amser paratoi helaeth sy'n gysylltiedig â chynlluniau o'r fath.
14. Mae'r her o ran cynlluniau cyflogaeth gynaliadwy yn deillio o farchnad lafur gref lle mae'r nifer uchaf erioed o bobl yng Nghymru mewn cyflogaeth. Mae'r camau hyn i dynhau'r farchnad lafur yn golygu bod llai o angen ac felly lai o alw am gynlluniau. Gall hyn hefyd arwain at orfod negodi gostyngiadau yn y targedau oherwydd y gall fod angen rhoi mwy o bwyslais ar y rhai anoddaf eu cyrraedd (llai o allbwn am gost uwch).
15. Bydd canlyniad y galwadau uchod am gynigion a'n dadansoddiad parhaus yn pennu p'un a fydd angen ailystyried ac o bosibl ailddosbarthu cyllid a thargedau.

Adolygiad o Ddangosyddion

16. Mae gwaith yn mynd rhagddo gan WEFO i adolygu dangosyddion yn y rhaglenni, yn enwedig yn y meysydd hynny lle gwelwyd newidiadau sylweddol mewn dulliau targedu, neu wendidau yn y rhagdybiaethau / rhesymeg sylfaenol sy'n llywio'r targedau gwreiddiol. Mae'n debygol y bydd hyn yn arwain at gynigion i addasu dangosyddion a thargedau ym mhob rhaglen, fydd â goblygiadau fframwaith perfformio.
17. Hyd yma, nodwyd nifer o newidiadau technegol i Raglenni ERDF ac ESF, a cheir crynodeb o'r rhain yn Atodiad A. Bydd unrhyw ddiwygiadau arfaethedig yn ystyried y rhesymeg wreiddiol ar gyfer y targedau a bydd hefyd yn asesu dibynadwyedd rhagolygon y prosiect a chyfraniad tebygol prosiectau a gymeradwywyd a phrosiectau yn yr arfaeth.
18. Un o'r prif ysgogwyr ar gyfer ystyried targedau yw cynnal cywirdeb y rhesymeg ymyrryd sy'n sail i bob un o'r Amcanion Penodol. Mae'r rhesymeg ymyrryd hon yn canolbwyntio ar geisio'r canlyniad, gyda WEFO yn cymeradwyo portffolios ymyrryd er mwyn cyflawni yn erbyn y canlyniadau hyn. Mae hyn wedi golygu rhoi'r gorau i olrhain targedau

allbwn, er bod y rhain yn ddulliau pwysig o fonitro cynnydd prosiectau unigol ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo o hyd.

19. Er enghraifft, nod gweithgarwch ymchwil ac arloesedd yw creu cysylltiadau rhwng sefydliadau ymchwil a busnesau, meithrin gallu a gwneud busnesau yn fwy arloesol; yn hytrach na rhoi cymorth i gynifer o fusnesau â phosibl. Ar y sail hon, bydd WEFO yn ceisio sicrhau y parheir i ganolbwyntio ar y canlyniadau a bod dangosyddion allbwn a thargedau yn parhau i yrru cyfraniadau sylweddol at y canlyniadau hynny, yn hytrach na chreu gweithgarwch o ran eu hunain. Nid yw'r sefyllfa'n annhebyg i gymorth busnes ac entrepreneuriaeth lle mae cymorth dwys yn cael ei ganolbwyntio ar BBaCH ag iddynt botensial o dwf uchel tra bo llawer o fentrau bach yn cael y lefel o gymorth sydd ei hangen arnynt drwy gymwysyadau ar y we, ar lefel sy'n diwallu eu hanghenion, ond nad yw'n cyfrannu at ddangosyddion gweithgarwch.

Goblygiadau eraill

20. Bydd angen i unrhyw addasiadau arfaethedig adlewyrchu unrhyw newid ffocws ym mholisi'r llywodraeth, a fydd yn arbennig o amlwg gyda rhaglen Lywodraethu newydd Llywodraeth Cymru *Symud Cymru Ymlaen*¹, a'r pedair strategaeth ategol (*Ffyniannus a Diogel; Iach ac Egniol; Uchelgais a Dysgu; ac Unedig a Chysylltiedig*) y disgwylir iddynt gael eu cyhoeddi cyn yr haf. Bydd hyn yn galw am ystyried sut y gallai unrhyw newidiadau i'r rhaglen atgyfnerthu prosesau integreiddio yn y cronfeydd a gyda dulliau buddsoddi ehangach ledled Cymru; gan adlewyrchu ffyrdd newydd o weithio, yn cynnwys yr Amcanion Llesiant².
21. *Y gyfradd gyfnewid*: mae'r gostyngiad yng ngwerth y bunt wedi cynyddu gwerth rhaglenni. Bydd angen i WEFO sicrhau y caiff adnoddau eu defnyddio'n llawn ac yn effeithiol a bod gweithgarwch prosiectau digonol yn yr arfaeth er mwyn sicrhau bod rhaglenni'n cyflawni eu canlyniadau disgwyliedig.
22. *Clustnodi targedau*: Bydd yn rhaid i unrhyw benderfyniad i ailddyrannu adnoddau fodloni gofynion crynodi thematig amrywiol y Comisiwn Ewropeaidd.

Y Camau Nesaf

23. Disgwylir casgliadau terfynol yr adolygiad dros yr haf ar ôl cwblhau'r ceisiadau am brosiectau y sonnir amdanynt uchod. Nod WEFO yw cyflwyno cynigion ffurfiol i Bwyllgor Monitro'r Rhaglenni gyuno arnynt, cyn eu cyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd.

¹ <http://gov.wales/about/programme-for-government/?skip=1&lang=cy>

² <http://gov.wales/docs/caecd/publications/161104-well-being-cy.pdf>

Atodiad A

Crynodeb o addasiadau arfaethedig i Dargedau Dangosyddion - ERDF

Blaenoriaeth 1: Ymchwil ac Arloesedd

- AP 1.1 - *Gallu Ymchwil* - Ni ddisgwylir unrhyw newidiadau
- AP 1.2 - *Masnacheiddio* - Mae'r rhagolygon ar gyfer rhai allbynnau yn cael eu targedu ar hyn o bryd a chânt eu hadolygu yn dilyn cymeradwyaethau o'r cais diweddar am gynigion a ddylai helpu i fynd i'r afael â rhywfaint o'r diffyg. Mae'n debygol y caiff y targedau ar gyfer nifer y busnesau sy'n cael cymorth nad yw'n ariannol eu gostwng gan fod y pwyslais wedi bod ar ansawdd ymyrryd drwy gydweithredu yn hytrach na graddau hynny.

Fframwaith Perfformio

Y dangosydd fframwaith perfformio yn y maes hwn yw '*nifer y busnesau sy'n cael cymorth nad yw'n ariannol*'. Mae'n annhebygol y caiff y targedau eu cyflawni yn y ddwy Raglen ERDF. Mae'r diffyg oherwydd newid mewn ffocws o'r rhaglen flaenorol o gymorth i fusnesau i weithgarwch cydweithredol. Caiff y newid mewn ffocws ei gefnogi'n gryf gan dystiolaeth werthuso nad yw cefnogi menter yn arwain at allbynnau na chanlyniadau arloesedd. Ni ddylai'r newid effeithio ar y dangosyddion canlyniadau. Cynigir disodli'r dangosydd fframwaith perfformio presennol gyda '*Nifer y busnesau sy'n cydweithredu â sefydliadau ymchwil a gefnogir*'. Ar hyn o bryd, mae'n anodd amcangyfrif y sefyllfa derfynol ar gyfer cydweithrediadau oherwydd y cais diweddar am gynigion.

Blaenoriaeth 2: Cystadleurwydd BBaChau

- AP 2.1 - Cael gafael ar gyllid - Ar hyn o bryd, nid ydym yn disgwyl unrhyw gynlluniau grant felly efallai y bydd angen i ni ddileu'r dangosydd '*nifer y busnesau sy'n cael grantiau*'.
- AP 2.2 - BBaChau newydd - Mae'r targed ar gyfer unigolion a gefnogir yn destun rhagolwg ar hyn o bryd ond mae WEFO yn gweithio gyda Busnes Cymru er mwyn gweld a ellir casglu ac adrodd cymorth ar-lein yma.
- AP 2.3 - Niferoedd sy'n defnyddio ac yn manteisio ar TGCh - Ni ddisgwylir unrhyw newidiadau
- AP 2.4 - Twf cyflogaeth mewn BBaChau - Ni ragwelir y bydd yr AP hwn yn cyrraedd y targedau yn ymwneud â throsoledd y sector preifat ar hyn o bryd ond rydym yn disgwyl cyrraedd y targed lefel Flaenoriaeth
- AP 2.5 - Cyllid Cyfalaf Risg ar gyfer Ymchwil, Datblygu ac Arloesi - Ni ddisgwylir unrhyw newidiadau

Fframwaith Perfformio

Y dangosydd fframwaith perfformio yn y maes hwn yw '*nifer y busnesau sy'n cael cymorth nad yw'n ariannol*'. Rhagwelir y bydd y ddwy Raglen yn rhagori ar y targedau ar y pwynt canol tymor a rhagwelir y bydd rhaglen Dwyrain Cymru yn rhagori ar y targed terfynol. Mae diffyg yn Rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ond dylai'r broses o ddyrannu gweddill y cyllid olygu y caiff y targed hwn ei gyflawni. Mae'r broses o gyflawni'r Flaenoriaeth hon yn dibynnu ar nifer fach o brosiectau felly mae WEFO yn monitro'r broses o gyflawni'r rhain yn ofalus.

Echel Blaenoriaeth 3: Ynni ac Effeithlonrwydd Ynni

- AP 3.1 - Ynni'r Môr - Ni ddisgwylir unrhyw newidiadau ond ar hyn o bryd rydym yn adolygu'r targed sy'n ymwneud â chynhyrchu ynni o ystyried bod hwn yn nod hirdymor ac mae'r cynigion hyd yma yn canolbwyntio mwy ar brofi technoleg a meithrin gallu (e.e. parthau arddangos).
- AP 3.2 (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd) AP 3.1 (Dwyrain Cymru) - Ynni Cymunedol - Mae cais am gynigion ar gyfer prosiectau ynni ar raddfa fach sy'n dod i ben ddiwedd mis Mehefin; yn dilyn hyn, caiff adolygiad o dargedau dangosyddion eu cwblhau ar gyfer y flaenoriaeth gyfan.
- AP 3.3 (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd) / AP 3.2 (Dwyrain Cymru). - Effeithlonrwydd ynni mewn tai - bydd ymyriad llai a thargedau sy'n canolbwyntio llawer mwy ar dlodi tanwydd yn golygu bod angen i dargedau allbwn cysylltiedig gael eu haddasu'n unol â hynny. Mae gwaith dadansoddi cynnar yn awgrymu y bydd yr effaith a ddisgwylir (y canlyniad) yn debyg o ystyried yr ymchwil ddiweddaraf ar dlodi tanwydd. Gweler yr adran Fframwaith perfformio am y goblygiad i'r

Fframwaith Perfformio

Ar hyn o bryd, rydym yn rhagweld y caiff y targed ar gyfer '*Cynlluniau paratoi safle ynni*' a '*nifer y prototeipiau a brofwyd*' ei gyflawni. Mae'r targed '*nifer y cartrefi â gwell dosbarthiad defnydd ynni*' ar ei hôl hi. Mae gweithrediad ARBED yn llai na'r hyn a ragwelwyd ar ddechrau'r Rhaglen a bydd angen gostwng y targedau yn unol â'r cyfnod sydd ar gael ar gyfer cyflawni a'r cyllid gwirioneddol o gymharu â'r dyraniad gwreiddiol. Mae hyn oherwydd yr angen i adlewyrchu canfyddiadau gwerthuso yn llawn a sicrhau y targedir aelwydydd mewn tlodi tanwydd yn fwy, gan newid y rhagdybiaethau yn nogfen wreiddiol y rhaglen. O ystyried bod llai o ymyriadau, gall WEFO argymhell dileu'r dangosydd o'r fframwaith perfformio (y mae'n rhaid iddo gwmpasu o leiaf 50% o'r gweithgarwch dan y flaenoriaeth).

Blaenoriaeth 4: Cysylltedd a Datblygu Trefol

- AP 4.1 - Ffyrdd - Efallai y bydd angen gostwng y targedau yn ymwneud â llwybrau troed neu lwybrau beiciau a grëwyd neu a ailadeiladwyd a hyd y ffyrdd a grëir yn dibynnu ar y cynigion terfynol a ddaw i law. Mae hyn o ganlyniad i fuddsoddiadau yn canolbwyntio ar wella rhwydweithiau ffordd presennol ar hyd yr A55 a'r A40.
- AP 4.2 (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd) / 4.1 (Dwyrain Cymru) - Trafnidiaeth Gyhoeddus - Mae'r targedau sy'n ymwneud â'r seilwaith rheilffyrdd yn dibynnu ar gynnig y Metro, tra bod y rhaglen wreiddiol wedi'i drafftio i ganiatáu hyblygrwydd ar gyfer gwahanol fathau o ymyriad. Nodwyd problemau gyda'r broses o gyfrifo'r dangosydd ar gyfer 'Cilomedrau gros i deithwyr ar dtrafnidiaeth gyhoeddus' (gweler y drafodaeth ar y Fframwaith Perfformio isod). Caiff 'Creu / gwella gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus' hefyd ei ddisodli gan ddangosydd sy'n cyd-fynd yn well â chynnig y Metro (e.e. hyd y llinell reilffordd a grëir/wellir). Caiff y dangosydd canlyniadau (sy'n ymwneud â gwell hygyrchedd) hefyd ei fireinio i adlewyrchu ardal y Metro, yn hytrach na cheisio asesu'r effaith gyffredinol ledled Cymru; bydd hyn yn arwain at broses fwy ystyrlon o werthuso effaith.
- AP 4.3 (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd) / 4.2 (Dwyrain Cymru) - Seilwaith TGCh - Yn amodol ar ganlyniad yr "Adolygiad o'r Farchnad Agored" ym mis Mehefin, gall fod cyfle i gynyddu'r targed ar gyfer eiddo â mynediad i fand eang.
- AP 4.4 (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd) / 4.3 (Dwyrain Cymru) - Safleoedd Strategol - Gellir cynyddu'r targed ar gyfer tir a ddatblygir, eiddo a grëir a swyddi a gyflenwir hefyd yn seiliedig ar weithrediadau sy'n debygol o gael eu cyflwyno dros y misoedd nesaf.

Fframwaith Perfformio

Rhagwelir y byddwn yn cyflawni'r targedau ac yn cyflawni'r camau gweithredu ar gyfer Tir a ddatblygir.

Amlygodd gwerthusiadau o'r rheilffyrdd o Raglen 2007-13 broblem wrth gyfrifo'r targed ar gyfer cilomedrau gros i deithwyr ac nid yw'r targed hwn yn gyraeddadwy. Mae'r dangosydd hwn yn fwy addas ar gyfer gweithrediad sy'n darparu gwasanaethau trafndiaeth yn hytrach na chyllido seilwaith.

Argymhellir dileu'r dangosydd hwn a'i ddisodli â hyd y llinell reilffordd a grëir / a wellir a fydd yn adlewyrchu gweithgarwch y Metro yn fwy cywir.

Crynodeb o addasiadau arfaethedig i Dargedau Dangosyddion - ESF

ESF Blaenoriaeth 1: Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy

- *AP1 Helpu Pobl i Gael Gwaith* - Nid oes disgwyl unrhyw newid.
- *AP2 Cynnwys Pobl yn y Farchnad Lafur* - Cynigir adolygu'r targedau ar gyfer pobl sy'n economaidd anweithgar ac sy'n ddi-waith yn yr hirdymor a'r targedau ar gyfer y rhai sy'n cael gwaith. Bydd angen i'r adolygiad adlewyrchu'r newidiadau o ran y rheini a fydd yn cael mynediad at ddarpariaeth brif ffrwd, yn arbennig y rheini sy'n ddi-waith yn yr hirdymor. Bydd angen i'r adolygiad hefyd adlewyrchu amodau'r farchnad lafur ar hyn o bryd a chryfder y farchnad lafur sydd wedi arwain at weithrediadau sy'n canolbwyntio ar y cyfranogwyr hynny sydd ag anghenion mwy dyrys. Bydd angen ystyried y canlyniadau a'r gwersi a ddysgwyd o'r alwad bresennol cyn addasu'r rhanbarth Dwyrain Cymru mewn unrhyw ffordd.
- *AP3 Helpu Pobl i Aros mewn Gwaith* - Bydd y newidiadau arfaethedig yn amodol ar ganlyniad yr alwad bresennol. Bydd unrhyw adnoddau a drosglwyddir yn debygol o effeithio ar dargedau cyfranogi.

Fframwaith Perfformio

Mae'r fframwaith perfformio ar gyfer y flaenoriaeth hon wedi'i strwythuro o amgylch dau ddangosydd: 'Economaidd anweithgar (25 oed a throsodd), ddim mewn addysg na hyfforddiant ac â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth', a 'Di-waith yn yr hirdymor (25 oed a throsodd), ddim mewn addysg na hyfforddiant ac â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth'. Yn rhagolygon gweithredu presennol Dwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, disgwylir i ragolygon gweithredu presennol ragori ar dargedau 2018 a 2023.

ESF Blaenoriaeth 2 - Sgiliau ar gyfer Twf

- ISCED - Mae'n ofynnol i addasiadau technegol i'r testun draws y flaenoriaeth sgiliau i ddiwygio cyfeiriadau at y fframwaith ISCED i'r Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (CQFW) er mwyn sicrhau aliniad a cymhwysedd y canlyniadau i'r Fframwaith Cymru.
- AP1 Sgiliau Sylfaenol - Mae'r rhagolygon prosiect ar gyfer cyfranogwyr â chymwysterau hyd at ac yn cynnwys addysg uwchradd ar hyn o bryd yn rhagori ar y targedau ar gyfer cyfranogwyr benywaidd ac yn agos at gyflawni'r targed ar gyfer cyfranogwyr gwrywaidd. I'r gwrthwyneb, mae'r rhagolygon prosiect ar gyfer cyfranogwyr heb unrhyw gymwysterau ffurfiol ar ei hôl hi ar gyfer cyfranogwyr gwrywaidd a benywaidd. Mae hyn yn ymwneud â phroblem ddiffinio gan nad yw diffiniadau'r UE yn cyd-fynd â bwriad y rhaglenni. Er mwyn cydnabod hyn, cynigir cyfuno'r pedwar dangosydd allbwn hyn yn un dangosydd allbwn sy'n cwmpasu dim cymwysterau a nifer fach o gymwysterau (wedi'u rhannu yn ôl y rhywiau).
- AP2 Addasrwydd a Datblygiad - Ni ddisgwylir unrhyw newid
- AP3 Ymchwil ac Arloesedd - Yn seiliedig ar y lefel bresennol o gyllid a gymeradwywyd o dan yr AP hwn a'r rhagolwg prosiect presennol, cynigir gostyngiad bach yn y targedau ar gyfer 'cyfranogwyr â gradd neu gymhwyster cyfatebol'. Yn y bôn, mae hyn yn adlewyrchu pa mor anodd yw rhagweld y targedau hyn.
- AP4 Cydraddoldeb Rhwng y Rhywiau - Ni ddisgwylir unrhyw newid

Fframwaith Perfformio

Fel y nodwyd uchod, cynigir disodli'r dangosyddion presennol sy'n gwahaniaethu rhwng dim cymwysterau a nifer fach o gymwysterau gydag un dangosydd sy'n cwmpasu dim cymwysterau a nifer fach o gymwysterau wedi'u rhannu yn ôl y rhywiau.

ESF Blaenoriaeth 3: Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Ieuenctid

- AP1 Diweithdra ymhlith Pobl Ifanc - Ni ddisgwylir unrhyw newid
- AP2 Cyrhaeddiad ac Ymgysylltiad Pobl Ifanc - Mae hwn yn ffocws newydd ar gyfer rhaglenni 2014-2020, sydd wedi golygu mai dim ond drwy ddyfalu y gellid targedu ar y cam cymeradwyo rhaglenni ac na ellid defnyddio profiad blaenorol. Yn seiliedig ar y lefel bresennol o gyllid a gymeradwywyd o dan yr AP hwn a'r rhagolwg prosiect presennol, cynigir gostyngiad yn y targedau ar gyfer cyfranogwyr sy'n wynebu risg o ddod yn

NEET (11-24). Cynigir hefyd ostwng y targed ar gyfer cyfranogwyr sy'n ennill cymhwyster o 27% i 7% er mwyn sicrhau bod Dwyrain Cymru yn unol â Gorllewin Cymru a'r Cymoedd.

- *AP3 STEM* - Ni ddisgwyllir unrhyw newid
- *AP4 Y Blynyddoedd Cynnar* - Ni ddisgwyllir unrhyw newid

Fframwaith perfformio

Mae'r flaenoriaeth hon wedi'i strwythuro o amgylch un dangosydd:
Cyfranogwyr NEET (16-24 oed) ac mae'r rhagolygon yn rhagori ar darged terfynol 2023 yn y ddwy Raglen.

**PWYLLGOR MONITRO RHAGLEN CYMRU, CRONFEYDD
STRWYTHUROL A BUDDSODDI EWROPEAIDD 2014 – 2020:**

**Diwygio'r Meini Prawf Dethol: Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru
– Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020**

Y Mater dan Sylw

1. Cyflwynwyd y papur "WPMC(15)56 Meini Prawf Dethol – Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) 2014 -2020" i Aelodau yng nghyfarfod 11ain Medi 2015 o Bwyllgor Monitro Rhaglen Cymru. Mae Atodiad 1 y papur yn pennu'r Meini Prawf Dethol i'w defnyddio gan y Cynlluniau o dan Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020. Cafodd y rhain eu newid ar gyfer rhai cynlluniau yng nghyfarfodau Chwefror 2016, Medi 2016 a Rhagfyr 2016.
2. Fel a eglurwyd yn WPMC(15)56 gall Llywodraeth Cymru fel yr Awdurdod Rheoli newid y meini prawf dethol hyn neu gyflwyno meini prawf dethol newydd o fewn y cyfnod rhaglennu, yn unol ag anghenion y rhaglennu, wedi ymgynghori gyda Phwyllgor Monitro Rhaglen Cymru.
3. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu newid y meini prawf dethol ar gyfer un Cynllun (weler Atodiad 1) a holi barn yr Aelodau ynghylch y newidiad hwn.
4. Hoffai Llywodraeth Cymru gyfeirio'r Aelodau at bapur WPMC(16)77 - Atodiad 1. O safbwynt M16.1 Partneriaeth Arloesi Ewrop, er mwyn sicrhau cysondeb o ran dull â gweddill y cynlluniau economaidd-gymdeithasol, cynigiwyd y dylai'r 9 maen prawf ESI gael eu defnyddio yn hytrach na'r 7 maen prawf a nodwyd yn wreiddiol. Yn ystod trafodaethau â'r Comisiwn Ewropeaidd ynghylch y newid arfaethedig cyntaf i'r Rhaglen Datblygu Gwledig cytunodd Llywodraeth Cymru i beidio â bwrw ymlaen â'r newid arfaethedig i'r meini prawf dethol. Gofynnir i'r Aelodau nodi hyn er gwybodaeth.

Argymhelliad

5. Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori â'r Aelodau ar y newidiadau arfaethedig i'r meini prawf dethol fel a ddisgrifir yn Atodiad 1.

Cefndir

6. . Mae Atodiad 1 yn cyflwyno'r meini prawf dethol sydd i'w ddefnyddio ar gyfer y Cynllun Rheoli Cynaliadwy. Er gwybodaeth, mae Atodiad 2 yn dangos y meini prawf dethol ai ddefnyddir ar gyfer yr holl gynlluniau o dan y Rhaglen Datblygu Wledig.

Camau Nesaf

7. Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu safbwyntiau'r Aelodau ar y newidiadau arfaethedig.

Amaeth, Bwyd a Môr

Arweinydd: Gail Merriman

Cymeradwywyd gan: David McNeill

Dyddiad: 05/06/17

Atodiad 1**Mesur 16.5: Cynllun Rheoli Cynaliadwy****Braslun bawd:**

Nod y Cynllun Rheoli Cynaliadwy yw cefnogi prosiectau cydweithredol ar raddfa'r dirwedd i wella'n hadnoddau naturiol mewn modd sy'n sicrhau manteision i fusnesau gwledig a ffermio ynghyd â chymunedau gwledig. Bydd hefyd yn cefnogi ac yn hwyluso'r gwaith o gydweithredu â chynlluniau eraill i gymryd y camau hollbwysig sydd eu hangen i sicrhau bod busnesau fferm a busnesau gwledig, ynghyd â chymunedau gwledig, yn gallu mynd i'r afael ag effeithiau'r hinsawdd mewn modd mwy cadarn. Bydd modd gwneud hynny drwy gefnogi prosiectau sy'n lleihau'n uniongyrchol allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n ganlyniad i reoli tir a gweithgareddau busnesau fferm.

Meini Prawf Dethol a Sgorio yn y Cam Datgan Diddordeb:

Mae'r meini prawf dethol yn agwedd ganolog ar y gwaith o gyflenwi'r cynllun a gweithredu Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae'r meini prawf yn adlewyrchu'r dull 'o'r pen i lawr, o'r gwaelod i fyny' o reoli adnoddau naturiol a phwysigrwydd mabwysiadu'r naw egwyddor sydd ynghlwm wrth reoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy. Caiff yr agwedd o'r pen i lawr ei phennu ym maen prawf 1 a dyma y mae angen ei newid rhywfaint er mwyn adlewyrchu datblygiad pellach y blaenoriaethau sydd o fewn Polisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru.

Nodir y newid arfaethedig isod.

Fersiwn gyfredol:

Bydd sgôr sero meini prawf 1-3 yn atal yr EOI rhag symud ymlaen.

	Meini Prawf Dewis	Sgôr	Pwysoliad
1	Camau i fynd i'r afael ag un neu ragor o'r blaenoriaethau cenedlaethol sy'n dod i'r amlwg y cyfeiriwyd atynt yn Natganiad Polisi ar Adnoddau Naturiol 2015	0-4	x 3
2	Cymhwyso egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy	0-4	x 4
3	Camau i fynd i'r afael â heriau lleol a manteisio ar gyfleoedd	0-4	x 3
4	Sicrhau trefniadau llywodraethu da, rheoli prosiect a chanlyniadau wedi'u nodi'n glir	0-4	x 2
5	Cynlluniau monitro a gwerthuso clir a phriodol	0-4	x 2

Fersiwn newydd arfaethedig:

Dangosir y newidiadau mewn coch.

Bydd sgôr 0 meini prawf 1-3 yn atal yr EOI rhag symud ymlaen.

	Meini Prawf Dewis	Sgôr	Pwysoliad
1	Blaenoriaethau ar gyfer gweithredu i gefnogi polisi adnoddau naturiol Llywodraeth Cymru	0-4	x 3
2	Cymhwyso egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy	0-4	x 4
3	Camau i fynd i'r afael â heriau lleol a manteisio ar gyfleoedd	0-4	x 3
4	Sicrhau trefniadau llywodraethu da, rheoli prosiect a chanlyniadau wedi'u nodi'n glir	0-4	x 2
5	Cynlluniau monitro a gwerthuso clir a phriodol	0-4	x 2

Esboniad o'r newidiadau:

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig diweddaru maen prawf dethol Rhif 1 y Cynllun hwn er mwyn adlewyrchu datblygiad ei Pholisi Adnoddau Naturiol statudol. Mae'r meini prawf presennol yn gysylltiedig â datganiad polisi a gyhoeddwyd yn 2015 er mwyn tynnu sylw at y dull fel sail i gydweithio â rhanddeiliaid er mwyn datblygu'r polisi llawn ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae'r newid arfaethedig yn disodli'r blaenoriaethau hynny sy'n dod i'r amlwg â blaenoriaethau ar gyfer gweithredu sy'n cefnogi'r Polisi Cenedlaethol newydd ar Adnoddau Naturiol.

SWYDDFA CYLLID EWROPEAIDD CYMRU

**CYNLLUN GWYBODAETH A CHYHOEDDUSRWYDD DRAFFT AR GYFER
2017**

Cyflwyniad

1. Dyma'r Cynllun Cyfathrebu ar gyfer 2017 ar gyfer rhaglenni Cronfeydd Strwythurol ERDF ac ESF 2014–2020. Mae'r cynllun yn nodi'r prif flaenoriaethau a mesurau gwybodaeth a chyhoeddusrwydd ar gyfer 2017 a sut y cânt eu cyflwyno.
2. Paratowyd y cynllun hwn gan Awdurdod Rheoli'r rhaglenni, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO). Cafodd ei lywio gan y Cynllun Cyfathrebu cyffredinol ar gyfer 2014-2020, y cytunwyd arno gan Bwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru ym mis Mehefin 2015 ac mae'n ategu'r cynllun hwnnw.

Trawsnewid Cymru

3. Mae Cymru'n wlad drawsnewidiol, a bydd penderfyniadau negodi a gymerir gan Lywodraeth y DU yn y misoedd sydd i ddod yn diffinio buddiannau economaidd a chymdeithasol Cymru am flynyddoedd lawer i ddod. Er bod ansicrwydd ynghylch yr hyn y bydd gadael yr UE yn ei olygu, yr hyn sy'n parhau'n glir yw y bydd cyllid yr UE yng Nghymru yn parhau i wneud cyfraniad pwysig i helpu ein heconomi i arallgyfeirio ac i osod y sylfeini ar gyfer ffyniant mwy cynaliadwy, yn arbennig yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd.
4. Fel rhan o'n gweithgareddau cyfathrebu ar gyfer y flwyddyn, mae'n flaenoriaeth gennym i ddarparu sicrwydd i'n rhanddeiliaid a'n noddwyr presennol a'n darpar randdeiliaid a noddwyr ein bod yn ymrwymedig i gyflawni'r rhaglenni, ac i gyfleu manteision a chyflawniadau cyllid yr UE yng Nghymru. Mae hyn nid yn unig er mwyn cydymffurfio â rheoliadau'r CE (gan gynnwys y rhai ynglŷn â gwybodaeth a chyhoeddusrwydd), ac osgoi unrhyw risg o golli cyllid yr UE, ond hefyd er mwyn rhoi'r ddadl gryfaf i Lywodraeth y DU dros gyllid newydd drwy barhau i ddangos gwerth a phwysigrwydd cyllid yr UE i'n busnesau, ein cymunedau a'n pobl. Mae eleni hefyd yn nodi 60 mlynedd ers sefydlu Cronfa Gymdeithasol Ewrop, ac felly byddwn yn chwilio am gyfleoedd i hyrwyddo'r garreg filltir hon fel rhan o'n gweithgareddau cyfathrebu drwy gydol y flwyddyn; er enghraifft, yn ystod ein digwyddiad gwybodaeth blyneddol a thrwy Twitter, y cyfryngau digidol a chyhoeddiadau yn y wasg/cyfryngau.
5. Gan weithio gyda'n noddwyr a'n rhanddeiliaid, rydym yn defnyddio nifer o sianeli cyfathrebu i hyrwyddo effaith, yn arbennig drwy hysbysiadau yn y wasg/cyfryngau, cyfryngau cymdeithasol fel Twitter a YouTube, a mesurau ar-lein ac e-gylchlythyrau eraill, sy'n denu nifer cynyddol o

ddilynwyd ac sydd â chyrhaeddiad cynyddol ymysg y cyhoedd. Er enghraifft, rydym yn parhau i gyflawni dros 90% o sylw cadarnhaol ynglŷn â chyllid yr UE yn y wasg / cyfryngau ar gyfartaledd, tra bod 2,570 yn tanysgrifio i'n e-gylchlythyr deufisol ar hyn o bryd, ac mae gennym 2,760 o ddilynwyd ar Twitter.

6. Cafodd ein cynlluniau cyfathrebu ehangach ar gyfer dathlu Diwrnod Ewrop (9 Mai) eu heffeithio gan gyfyngiadau cyn etholiad. Fodd bynnag, gwnaethom drydar ffeithlun am gyllid yr UE ac annog noddwyr prosiectau i hyrwyddo eu gweithgareddau prosiect UE. Arweiniodd hyn at rywfaint o weithgaredd a negeseuon cadarnhaol am gyllid yr UE, gan amlygu ei fanteision i'r rhanbarth
7. Byddwn yn cynnal nifer o seminarau drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys ein digwyddiad gwybodaeth blyneddol yn y Gaeaf.

Blaenoriaethau Gwybodaeth a Chyhoedduswyd ar gyfer 2017

8. Mae'r prif flaenoriaethau gwybodaeth a chyhoedduswyd i hyrwyddo'r rhaglen ERDF a ESF ar lefel cenedlaethol a rhanbarthol yn 2017 fel a ganlyn:
 - parhau i hyrwyddo'r gwaith o gyflawni cyllid yr UE yng Nghymru a'i fanteision, gyda chonsensws mwy cadarn o ran pwysigrwydd cyllid yr UE i ffyniant Cymru, symleiddio negeseuon, a chyflawni sgôr darllenadwyedd Cymraeg clir uchel;
 - sicrhau bod noddwyr, partneriaid a rhanddeiliaid prosiectau cyflawni, gan gynnwys Timau Ymgysylltu Rhanbarthol, yn deall gofynion rheoliadol o ran hyrwyddo rhaglenni ac yn cydymffurfio â nhw, fel nad yw cyllid yr UE yn cael ei beryglu;
 - defnyddio effaith cyllid yr UE i ddylanwadu'n gadarnhaol ar benderfyniadau'r DU ar gyllid newydd ar gyfer Cymru er mwyn mynd i'r afael â heriau hirdymor, a sicrhau bod rhanddeiliaid, noddwyr a'r cyhoedd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau o ran cyllid economaidd rhanbarthol yng Nghymru yn y dyfodol;
 - amlygu arwyddocâd Diwrnod Ewrop (9 Mai) drwy weithio gyda noddwyr prosiectau i hyrwyddo manteision prosiectau a rhaglenni'r UE;
 - cynyddu proffil themâu trawsbynciol a'r gwerth ehangach a grëir gan brosiectau yn y meysydd hynny, gan gynnwys gwneud y defnydd mwyaf posibl o gyfleoedd allweddol fel Wythnos Cydraddoldebau (19-23 Mehefin);
 - datblygu cyhoedduswyd i greu ymwybyddiaeth a diddordeb mewn galwadau am gyllid newydd i gynorthwyo'r gwaith o gyflawni rhaglenni ESF a ERDF yng Nghymru;
 - trefnu digwyddiad blyneddol i roi cyhoedduswyd i gyflawniadau'r rhaglenni, gyda phwyslais penodol ar ddathlu 60 mlynedd ers sefydlu Cronfa Gymdeithasol Ewrop eleni;
 - creu cyfleoedd cysylltiadau cyhoeddus i Ysgrifenyddion y Cabinet a Gweinidogion godi proffil cyllid yr UE ac effaith barhaus prosiectau a ariennir gan yr UE;

- datblygu cronfa ddata newydd o brosiectau a gymeradwywyd ar gyfer rhaglenni 2014-2020 erbyn diwedd y flwyddyn;
- parhau i rannu arferion gorau gyda rhwydweithiau Cyfathrebu'r DU a'r CE a chyfrannu atynt, a hyrwyddo cystadlaethau / digwyddiadau Cyfathrebu a arweinir gan yr UE (e.e. Regiostars, UE yn fy Rhanbarth ac ati;
- parhau i integreiddio cyfleoedd a llwyddiannau gyda rhaglenni cyllid yr UE eraill fel Cydweithrediad Tiriogaethol Ewropeaidd a rhaglenni datblygu gwledig, a'r rhai a reolir yn uniongyrchol gan y Comisiwn Ewropeaidd, fel Horizon 2020, yn arbennig gan ein bod o'r farn y dylai Cymru barhau i elwa ar fynediad iddynt o'r tu allan i'r UE;
- manteisio i'r eithaf ar botensial technolegau cyfryngau newydd, yn arbennig drwy ehangu cynnwys a maint ein sianeli cyfryngau cymdeithasol a digidol.

Mesurau

9. Nodir y ffyrdd y caiff y blaenoriaethau hyn eu datblygu yn 2017 yn y prif fesurau cyhoeddusrwydd yn **Atodiad A**. Mae hyn yn cynnwys trefniadau cyflawni ac amserlen ar gyfer gweithredu.

Prif weithgaredd gwybodaeth ar gyfer 2017

10. Wrth i ni gyrraedd pwynt hanner ffordd rhaglenni 2014-2020, mae mwyafrif y prosiectau a gymeradwywyd bellach yn eu cyfnod cyflawni. Bydd dull gweithredu eleni yn canolbwyntio'n gryf ar arddangos effaith bywyd go iawn y prosiectau hyn ar bobl, cymunedau a busnesau, a'r effaith sy'n deillio o hynny o ran helpu i wella ffyniant ac amodau'r farchnad lafur yng Nghymru.
11. Bydd mesurau i hyrwyddo gweithgareddau prosiectau yn cysylltu â gweithgareddau i hyrwyddo cyflawniadau'r rhaglenni'n gyffredinol a hefyd gyda'r gwaith a wneir i ddatblygu safbwynt cyffredinol gan Gymru o ran cyllid datblygu economaidd rhanbarthol yn y dyfodol.
12. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo i ddatblygu ein tudalennau gwe i gynnwys cronfa ddata o brosiectau a gymeradwywyd yn 2014–2020 a fydd yn cydymffurfio'n llawn â rheoliadau'r CE ac yn cynnig swyddogaethau hawdd eu defnyddio ychwanegol, fel map rhyngweithiol.
13. Bydd WEFO'n parhau i weithio gyda Thimau Ymgysylltu Rhanbarthol / Tîm Ewropeaidd y Trydydd Sector i helpu i gyflawni Strategaeth Gyfathrebu a chynlluniau blynyddol 2014-2020 yn effeithiol, gan y byddant yn chwarae rôl bwysig, yn gweithio mewn partneriaeth â WEFO, wrth hyrwyddo'r rhaglenni a'r prosiectau ar lefel ranbarthol a lleol.

Cynnydd hyd yma yn 2017

14. Mae'r canlynol yn gipolwg ar weithgareddau cyfathrebu hyd yma yn 2017:

- Sylw sylweddol i gyhoeddiadau cyllid yr UE yn y cyfryngau prif ffrwd, ar-lein a'r cyfryngau cymdeithasol gan gynnwys: PaCE, Y Sefydliad ar gyfer Lled-ddargludyddion Cyfansawdd, Arbed III, Rhaglen Gwasanaethau Ariannol i Raddedigion Cymru, Cymru Iach Ar Waith - Gwasanaeth Allan o Waith, Cyrchfannau Denu Twristiaeth, gan gynnwys Canolfan Forol Porthcawl ac adfywiad canol y dref a glannau Caernarfon, Gweithffyrdd Powys, Cronfa Grant Datblygu Eiddo ar gyfer Busnes, Cronfa Seilwaith Eiddo, IMPACT, SPARC II, Parth Arddangos De Sir Benfro . Mae manylion y sylw yn y cyfryngau / y wasg i'r prosiectau hyn wedi cael eu cynnwys yn ein bwletinau monitro, sy'n cael eu hanfon drwy e-bost yn fisol fel arfer.
- Crëwyd cyfleoedd cysylltiadau cyhoeddus ar gyfer Gweinidogion i nodi cyflawniad a cherrig milltir prosiectau ar gyfer: FLEXIS, Sgiliau ar gyfer Diwydiant II, y Ffowndri Gyfrifiadurol, ARBED III a phrosiect ynni'r môr Deep Green Minesto;
- Crëwyd cyhoeddusrwydd i hyrwyddo llwyddiant a cherrig milltir allweddol prosiectau gan gynnwys: Cronfa Fusnes Cymru, Deep Green Minesto, Sêr Cymru, CEMET, Cenedl Hyblyg, Gweithffyrdd a Chynhwysiant Gweithredol;
- Cyflwynwyd tri chais o Gymru, Seren, Cenedl Hyblyg 2, ac Ysbrydoli i Gyflawni ar gyfer Gwobrau Regiostars 2017 yr UE. Cyhoeddir yr enillwyr gan y CE yn ddiweddarach eleni;
- Canolbwyntiodd y themâu trawsbynciol ar CUBRIC a'r Ffowndri Gyfrifiadurol, a chyfryngau cymdeithasol yn cysylltu themâu trawsbynciol mewn prosiectau yng Nghymru gyda Diwrnod Rhyngwladol y Merched, Diwrnod Iechyd y Byd, Awr Ddaear a'r Diwrnod Rhyngwladol ar gyfer Dileu Gwahaniaethu Hiliol;
- Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i gefnogi galwad am gyllid yr ERDF ar gyfer Ymchwil ac Arloesedd, ac Ynni Adnewyddadwy ar raddfa fach, a galwad am gyllid yr ESF ar gyfer Cyflogaeth Gynaliadwy;
- Cyrhaeddiad y cyfryngau cymdeithasol ar ei lefel uchaf erioed gyda chynnwys Twitter yn cael ei weld gan 3,000 bob dydd ar gyfartaledd;
- Cyfleoedd cysylltiadau cyhoeddus wedi'u cydgysylltu â rhaglenni cyllid yr UE eraill, er enghraifft cafodd y rhaglen ERDF hefyd ei hyrwyddo fel rhan o storïau llwyddiant Horizon 2020, gan gynnwys drwy astudiaethau achos a gyhoeddwyd (taflenni a lluniau digidol) a hysbysiadau yn y wasg i ddathlu cyflawniadau Horizon 2020 yng Nghymru yn ystod ein digwyddiad blynyddol ar 30 Mawrth;
- Ar gyfer Diwrnod Ewrop, gwnaethom lunio a chyhoeddi ffeithlun newydd sy'n dadansoddi sut y caiff cyllid yr UE ei ddyrannu'n

ddaearyddol yng Nghymru. Dyma oedd ein trydariat mwyaf poblogaidd yn ystod mis Mai, gyda 3,890 yn ei weld ac arweiniodd at 83 ymgysylltiad. Hefyd, cafodd noddwyr prosiectau'r UE yng Nghymru eu hannog i roi cyhoeddusrwydd i'w prosiectau ar Ddiwrnod Ewrop. Roedd rhai enghreifftiau o hyn yn cynnwys ymgyrch hunlun Diwrnod Ewrop a oedd yn cynnwys myfyrwyr Prifysgol Bangor yn cymryd rhan yn y cynllun KESS ochr yn ochr â deunyddiau brand cyllid yr UE arnynt fel baneri a thystysgrifau yn ogystal â chyfranogwyr o brosiectau ESF a arweinir gan y trydydd sector. Cyhoeddwyd casgliad o dystlythyrau gan fuddiolwyr prosiectau a ariennir gan gyllid yr UE Prifysgol Abertawe ar Twitter a chynhaliwyd digwyddiad Diwrnod Ewrop yng Nghanolfan Ymchwil Delweddu'r Ymennydd Prifysgol Caerdydd, gan gynnwys y prosiect FLEXIS.

WEFO
Cyfathrebu
06/2017

Prif Fesurau Gwybodaeth a Chyhoeddusrwydd ar gyfer 2017

Mesur	Gwybodaeth Ychwanegol	Arweinydd Cyfrifoldeb	Amserlen ar Gyfer Gweithredu
Blaenoriaeth 1: Rhoi cyhoeddusrwydd i effaith a manteision y rhaglenni cyllid yr UE sy'n buddsoddi mewn twf a swyddi cynaliadwy, gan gynnwys drwy gymeradwyaeth, lansiadau a chyflawniadau prosiectau, Diwrnod Ewrop, 60 mlynedd ers sefydlu Cronfa Gymdeithasol Ewrop, ac integreiddio'r Themâu Trawsbynciol	Grŵp targed – cyfryngau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn bennaf, partneriaid cyflenwi a strategol, y Comisiwn Ewropeaidd a'r cyhoedd	Tîm Cyfathrebu WEFO	Camau gweithredu parhaus drwy gydol y flwyddyn
1.1 Rhannu straeon newyddion da â'r cyfryngau am gynnydd prosiectau a cherrig milltir rhaglenni ar gyfer sylw mewn print ac ar-lein, gan sicrhau dros 90% o sylw cadarnhaol yn y cyfryngau.	Mesurau cyhoeddusrwydd penodol i gynnwys: - cyhoeddi datganiadau i'r wasg, erthyglau golygyddol / colofnau Gweinidogol am gymeradwyaethau a cherrig milltir prosiectau, a chynnydd cyffredinol rhaglenni i bapurau newydd, sianeli newyddion ar-lein a gwefan Llywodraeth Cymru – darparu dyfyniadau Gweinidogol yn cynnwys negeseuon strategol allweddol ar gyfer datganiadau i'r wasg a ddatblygwyd gan noddwyr prosiectau / partneriaid	Tîm Cyfathrebu WEFO, ar y cyd â swyddfa'r wasg, noddwyr prosiectau, Timau Ymgysylltu Rhanbarthol / Tîm Ewropeaidd y Trydydd Sector ac ati	Camau gweithredu parhaus drwy gydol y flwyddyn
1.2 Dylanwadu'n gadarnhaol ar y ffordd y caiff straeon yn ymwneud â chyllid yr UE a phrosiectau a ariennir gan yr UE eu hadrodd yn y cyfryngau	Mesurau penodol i gynnwys: – darparu ymatebion cynhwysfawr ac amserol i ymholiadau gan y cyfryngau gan gynnwys cyd-destun cefndirol, ffeithiau allweddol, ystadegau, a dyfyniadau gan Lywodraeth Cymru.	Tîm Cyfathrebu WEFO, ar y cyd â'r Is-adran Rheoli Rhaglenni, noddwyr prosiectau a swyddfa'r wasg	Camau gweithredu parhaus drwy gydol y flwyddyn
1.3 Defnyddio technoleg newydd a sianeli digidol fel adnoddau cyfathrebu allweddol, gan gynnwys cynhyrchu lluniau digidol i hyrwyddo negeseuon allweddol, effaith rhaglenni, ac astudiaethau achos a cherrig milltir prosiectau	I'w cyhoeddi ar YouTube, Twitter a'u defnyddio mewn digwyddiadau, gan gynnwys y digwyddiad blynyddol (gweler 3.1 isod)	Tîm Cyfathrebu WEFO, ar y cyd â'r Is-adran Rheoli Rhaglenni, noddwyr prosiectau, Timau Ymgysylltu Rhanbarthol, Tîm Ewropeaidd y Trydydd Sector ac ati.	Camau gweithredu parhaus drwy gydol y flwyddyn
1.4 Trefnu ymweliadau Gweinidogol â phrosiectau ledled Cymru – i nodi cyhoeddiadau ariannu, lansiadau a cherrig milltir cyflawni.	Mesurau cyhoeddusrwydd penodol i gynnwys: – trefnu cyhoeddusrwydd ynglŷn ag effaith a manteision prosiectau (gan ganolbwyntio ar astudiaethau achos â diddordeb dynol), yn ogystal â chynnydd ehangach y rhaglenni drwy anfon datganiadau i'r wasg, trydariadau, tudalennau gwe cyllid yr UE, e-gylchlythyr ac ati.	Tîm Cyfathrebu WEFO, ar y cyd â swyddfa'r wasg Llywodraeth Cymru, noddwyr prosiectau, Timau Ymgysylltu Rhanbarthol / Tîm Ewropeaidd y Trydydd Sector ac ati	Camau gweithredu parhaus drwy gydol y flwyddyn

Mesur	Gwybodaeth Ychwanegol	Arweinydd Cyfrifoldeb	Amserlen ar Gyfer Gweithredu
1.5 Drafftio e-gylchlythyr a'i ddosbarthu i dros 2,500 o danysgrifwyr gan gynnwys rhanddeiliaid, noddwyr prosiectau a'r cyhoedd.	Amlygu datblygiadau a chyflawniadau diweddaraf rhaglenni a phrosiectau, digwyddiadau sydd i ddod, a gwybodaeth a chanllawiau ar gyflawni rhaglenni 2014-2020 gan gynnwys, galwadau am gyllid ar gyfer blaenoriaethau penodol y rhaglenni.	Tîm Cyfathrebu WEFO	Deufisol
1.6 Parhau i wella lefelau cyrhaeddiad ac ymgysylltiad ar twitter gan gynnwys adolygu dulliau gweithredu newydd a hyrwyddo'r hashnod #EUFundsCymru ymhellach ymysg noddwyr.	Paratoi clipiau fideo o brosiectau a chyfranogwyr er mwyn tynnu sylw at effaith prosiectau wedi'u hariannu gan yr UE ar Twitter; - datblygu ffeithluniau a chynnwys digidol yn hyrwyddo canlyniadau ac effaith rhaglenni'r UE yng Nghymru - gweithio gyda noddwyr i gymryd rhan mewn sgysiau sy'n tynnu sylw at fanteision cyllid yr UE drwy ddelweddau, clipiau fideo, data a straeon personol gan ddefnyddio'r hashnod. - cynyddu nifer y dilynwyr, nifer yr achosion o wyllo'r cynnwys ac ymgysylltiad yn erbyn data 2016.	Tîm Cyfathrebu WEFO	Yn mynd rhagddo
1.7 Hyrwyddo Diwrnod Ewrop (9 Mai) yn unol ag Erthygl 7 y Rheoliad Ewropeaidd	Mesurau cyhoeddusrwydd penodol i gynnwys: – cynnal ymgyrch Twitter mewn cydweithrediad â noddwyr prosiectau a rhanddeiliaid i hyrwyddo negeseuon cadarnhaol ynghylch effaith cyllid yr UE a phrosiectau yng Nghymru – hedfan y faner Ewropeaidd ar safleoedd Llywodraeth Cymru / WEFO	Tîm Cyfathrebu WEFO, ar y cyd â noddwyr prosiectau a rhanddeiliaid, gan gynnwys Timau Ymgysylltu Rhanbarthol / Tîm Ewropeaidd y Trydydd Sector ac ati	9 Mai
1.8 Adolygu a datblygu dull brandio newydd ar gyfer y rhaglenni a pharhau i ddatblygu eitemau hyrwyddo i'w defnyddio mewn digwyddiadau a sianeli cyhoeddusrwydd eraill	– Datblygu dull brandio newydd ar gyfer stondinau dros dro ac ati, cynrychioli ardaloedd rhanbarthol a meysydd thematig – Parhau i ddatblygu eitemau cyhoeddusrwydd fel y bo'n briodol.	Tîm Cyfathrebu WEFO	– rhwng mis Gorffennaf a mis Medi – parhaus
1.9 Adeiladu ar lyfrgell ffotograffau, astudiaethau achos i'w defnyddio mewn datganiadau i'r wasg, cyhoeddiadau, hysbysiadau, digwyddiadau ac ar gyfryngau cymdeithasol.	Adeiladu ar lyfrgell ffotograffau ac astudiaethau achos i'w defnyddio mewn datganiadau i'r wasg, cyhoeddiadau, hysbysiadau, digwyddiadau ac ar gyfryngau cymdeithasol.	Tîm Cyfathrebu WEFO, ar y cyd â noddwyr prosiectau a rhanddeiliaid	Camau gweithredu parhaus drwy gydol y flwyddyn
Blaenoriaeth 2: Parhau i sicrhau bod noddwyr prosiectau, partneriaid a rhanddeiliaid, gan gynnwys y Timau Ymgysylltu Rhanbarthol, yn deall gofynion rheoliadol o ran	Grŵp Targed – noddwyr prosiectau a buddiolwyr, Timau Ymgysylltu Rhanbarthol / Tîm Ewropeaidd y Trydydd Sector. Y prif gamau gweithredu yw'r Canllawiau Gwybodaeth a Chyhoeddusrwydd (yn ymgorffori gofynion rheoliadol yr UE) ar gyfer noddwyr prosiectau (cyhoeddwyd ar wefan	WEFO, ar y cyd â'r Timau Ymgysylltu Rhanbarthol / Tîm Ewropeaidd y Trydydd Sector	Camau gweithredu parhaus drwy gydol y flwyddyn

Mesur	Gwybodaeth Ychwanegol	Arweinydd Cyfrifoldeb	Amserlen ar Gyfer Gweithredu
hyrwyddo rhaglenni ERDF ac ESF ac yn cydymffurfio â nhw	Llywodraeth Cymru), cynnal seminarau ar y gofynion rheoliadol ar gyfer staff WEFO, y Timau Ymgysylltu Rhanbarthol / Tîm Ewropeaidd y Trydydd Sector a noddwyr prosiectau er mwyn sefydlu sianeli cyfathrebu priodol rhwng WEFO a'r Timau Ymgysylltu Rhanbarthol / Tîm Ewropeaidd y Trydydd Sector.		
2.1 Adolygu arferion gorau o ran Canllawiau Gwybodaeth a Chyhoeddusrwydd (yn ymgorffori gofynion rheoliadol yr UE) ar gyfer noddwyr prosiectau a buddiolwyr a'u rhoi ar waith	- sicrhau bod mesurau gwybodaeth a chyhoeddusrwydd wedi'u hintegreiddio'n llawn yn y broses cyflawni prosiect a'u bod yn cael eu monitro gan WEFO er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. – sefydlu rhwydwaith o swyddogion cyfathrebu prosiectau i ystyried cyfleoedd cysylltiadau cyhoeddus ac i rannu arferion gorau.	Tîm Cyfathrebu WEFO	Cyhoeddi canllawiau ar dudalennau gwe Llywodraeth Cymru ac ymgymryd ag adolygiad parhaus i gwmpasu arferion gorau
2.2. Cynnal seminarau gloywi ar gyfer staff WEFO ar ganllawiau gwybodaeth a chyhoeddusrwydd a'r gofynion ar gyfer noddwyr	Seminarau gloywi i gwmpasu gofynion rheoliadol yr UE a gofynion cytundebol yr Awdurdod Rheoli, blaenoriaethau gwybodaeth a chyhoeddusrwydd ar gyfer 2017, arferion gorau, a chynllunio ar gyfer y dyfodol a monitro.	Tîm Cyfathrebu WEFO	Camau gweithredu parhaus drwy gydol y flwyddyn
2.3 Cymryd rhan mewn adolygiadau prosiect rheolaidd gyda noddwyr, a chwrdd â swyddogion cyfathrebu prosiectau lle y bo'n briodol	Sicrhau yr eir i'r afael â gweithgareddau cyfathrebu prosiectau, arferion gorau a chyfleoedd cysylltiadau cyhoeddus yn ystod cyfarfodydd adolygu.	Tîm Cyfathrebu WEFO, ar y cyd â'r Is-adran Rheoli Rhaglenni a noddwyr prosiectau	Camau gweithredu parhaus drwy gydol y flwyddyn
2.4 Ymgymryd â gwaith ymwybyddiaeth o ran gwybodaeth a chyhoeddusrwydd ar gyfer Timau Ymgysylltu Rhanbarthol / Tîm Ewropeaidd y Trydydd Sector a staff Cyfathrebu WEFO i fynychu cyfarfodydd adolygu rheolaidd	Cwmpasu gofynion rheoliadol yr UE a gofynion cytundebol yr Awdurdod Rheoli, blaenoriaethau gwybodaeth a chyhoeddusrwydd 2017, arferion gorau, cynllunio camau gweithredu a monitro ar lefelau cenedlaethol a rhanbarthol	Tîm Cyfathrebu WEFO, ar y cyd â'r Is-adran Rheoli Rhaglenni, Timau Ymgysylltu Rhanbarthol a Thîm Ewropeaidd y Trydydd Sector.	Camau gweithredu parhaus drwy gydol y flwyddyn Cyfarfodydd WEFO, Timau Ymgysylltu Rhanbarthol a Thîm Ewropeaidd y Trydydd Sector i'w cynnal yn chwarterol
2.5 Dosbarthu placiau a phosteri coffaol am ddim i bob noddwr sydd wedi cael cyllid wedi'i gymeradwyo o dan raglenni 2014-2020 (yn unol ag Erthygl 8 y Rheoliadau Ewropeaidd)	Placiau a phosteri coffaol am ddim, yn arddangos logo'r cronfeydd UE perthnasol, i'w dosbarthu i bob noddwr prosiect waeth beth fo gwerth y grant.	Tîm Cyfathrebu WEFO	Camau gweithredu parhaus drwy gydol y flwyddyn
Blaenoriaeth 3: Trefnu digwyddiad blynyddol i hyrwyddo cyflawniadau'r rhaglenni	Grŵp targed – rhanddeiliaid cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn bennaf a noddwyr posibl, y Comisiwn Ewropeaidd, y cyfryngau a'r cyhoedd.	Tîm Cyfathrebu WEFO	Gaeaf
3.1 Trefnu digwyddiad blynyddol	– Digwyddiad i'w drefnu ar gyfer y gaeaf	Tîm Cyfathrebu WEFO	Gaeaf

Mesur	Gwybodaeth Ychwanegol	Arweinydd Cyfrifoldeb	Amserlen ar Gyfer Gweithredu
ar gyfer rhaglenni gan gynnwys rhanddeiliaid allweddol a buddiolwyr	- hyrwyddo lluniau digidol o gyflawniadau a chyhoeddi hysbysiad i'r wasg Gweinidogol ac ati ar gynnydd rhaglenni a cherrig milltir prosiectau – rhoi sylw arbennig i ddathlu 60 mlynedd ers sefydlu Cronfa Gymdeithasol Ewrop		
Blaenoriaeth 4: Cynnal a chadw a diweddaru adran cronfeydd yr UE dwyieithog ar wefan Llywodraeth Cymru	Grŵp targed – rhanddeiliaid cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn bennaf a noddwyr posibl, y Comisiwn Ewropeaidd, awdurdodau rheoli eraill yr UE, y cyfryngau a'r cyhoedd.	Tîm Cyfathrebu WEFO	Camau gweithredu parhaus drwy gydol y flwyddyn
4.1. Sicrhau ei bod yn hawdd llywio adrannau'r wefan a'i bod yn ystyriol o ddefnyddwyr	Adolygu cynnwys yn rheolaidd er mwyn cyflawni swyddogaethau busnes craidd, gan gynnwys mynediad at WEFO Ar-lein, drwy arolygon ar-lein, adborth ac ati	Tîm Cyfathrebu WEFO	Camau gweithredu parhaus drwy gydol y flwyddyn
4.2. Datblygu cronfa ddata â pheiriant chwilio ar gyfer prosiectau a gymeradwywyd (yn unol ag Erthygl 7 y Rheoliadau Ewropeaidd)	Bydd y gronfa ddata newydd yn cynnwys manylion sylfaenol prosiectau a gymeradwywyd h.y. enw buddiolwr, enw prosiect, swm y dyraniad grant ERDF / ESF, dyraniad y taliad terfynol ac ati, gan gydymffurfio â rheoliadau'r CU.	Tîm Cyfathrebu WEFO, ar y cyd â Thîm Gwefannau Canolog Llywodraeth Cymru	Bydd gwaith yn dechrau ym mis Tachwedd i'w gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn
4.3. Cyhoeddi tudalennau gwe newydd ar gyllid datblygu economaidd rhanbarthol	Cyhoeddi tudalennau newydd i rannu gwybodaeth am ddatblygu safbwynt cyffredinol gan Gymru o ran cyllid rhanbarthol yn y dyfodol, gan dargedu partneriaid, rhanddeiliaid a'r cyhoedd	Tîm Cyfathrebu WEFO	Yr haf